

planningaidwales.org.uk



Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

ADRODDIAD LLAWN

GWERTH YMGYSYLLTIAD MEWN CYNLLUNIO YNG NGHYMURU

PARATOWYD GAN

GYMORTH CYNLLUNIO CYMRU
gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru

CYSYLLTWCH Â NI

(02920) 625004
info@planningaidwales.org.uk



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Pennod 1: Adolygiad o Lenyddiaeth, Deddfwriaeth a Pholisi	4
Adran 1: Beth mae llenyddiaeth yn ei ddweud am ymgysylltiad?	5
Adran 2: Sut edrychir ar ymgysylltiad yng Nghymru? Y Gyfraith a datblygu polisi	20
Casgliad	27
Pennod 2: Dyluniad a chanlyniadau'r ymchwil	31
Cyfnod 1: Canlyniadau'r holiadur	35
Cyfnod 2: Canlyniadau'r cyfweiliadau a datblygu Astudiaethau Achos.....	44
Pennod 3: Cwestiynu ymarfer cyfredol (Dadansoddiad ac Astudiaethau Achos).....	46
Thema 1: Eglurder y Broses	48
Thema 2: Ymgysylltiad fel proses barhaus.....	56
Thema 3: Ymgysylltiad fel gweithgaredd technegol a gwleidyddol.....	65
Thema 4: Gwneud penderfyniadau a thryloywder canlyniadau.....	71
Thema 5: Sicrwydd y broses a chanlyniadau	78
Thema 6: Costau ac ecwiti	85
Casgliadau ac Argymhellion.....	90
Atodiad A: Rhestr o sefydliadau a gymerodd ran yn yr ymchwil.....	101
Atodiad B: Tabl Atodol	102
Atodiad C: Holiadur arolwg	104
Atodiad D: Papur Briffio Grŵp Ffocws Rhanddalwyr	109
Rhestr Cyfeiriadau.....	114
Ôl-Nodiadau	117

Cyflwyniad

Beth yw diben yr ymchwil hwn?

Bwriad yr ymchwil hwn yw archwilio ac arddangos gwerth ymgysylltiad mewn gweithgareddau cynllunio yng Nghymru, gyda'r uchelgais o gynnig llwybr tuag at blannu ymgysylltiad o'r radd flaenaf yn y system gynllunio Gymreig. Rydym yn blaenoriaethu argymhellion sy'n canolbwyntio ar gyfres o fesurau ymarferol a ellir gweithredu arnynt.

Ochr yn ochr â hyn, bwriad yr ymchwil hefyd yw darparu golwg mwy hir-dymor ar y newidiadau strwythurol a gwleidyddol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni newid diwylliannol yn y maes hwn, ar adeg ble mae Cymru ar gyffordd bwysig o ran gwleidyddiaeth. Trwy'r gydnabyddiaeth gynyddol yng ngwerth creu cynefinoedd, mae gweithio gyda chymunedau, ar bob cam o'r broses gynllunio, yn flaenllaw yn agenda newid mewn cynllunio. Mae'n rhaid i Gynllunio Cynefin - wedi ei ddiffinio fel proses barhaus a chydlynol, sydd wedi ei anelu at ymrwymo dinasyddion ymhob cam o wneud penderfyniadau sy'n berthynol i dir a'i ddefnydd - fynd law yn llaw â'r agenda Creu Cynefinoedd.

Ar gyfer pwy mae'r ymchwil?

Bwriedir yr ymchwil at ddefnydd Llywodraeth Cymru wrth iddynt lywio gweithgareddau sy'n berthynol i gynllunio yn y dyfodol, yn ogystal ag Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) a chymunedau yng Nghymru. Gobeithir y defnyddir yr adroddiad i gynyddu ymwybyddiaeth o werth ymgysylltiad, ac i weithredu fel catalydd i gydnabod ymarfer ymgysylltiad ystyrllon. Diffinnir ymarfer ymgysylltiad ystyrllon fel gweithgaredd ymgysylltiad sy'n ychwanegu gwerth i'r broses gynllunio a datblygu, trwy gynaeafu gwybodaeth na ellir cael gafael arni fel arall, yngyd â maethu cydlyniant cymunedol trwy sgwrs sy'n gyson ac yn ymestyn, mewn amser (o ran penderfyniadau sy'n effeithio ar dir dros gyfnod o amser) a gofod (ar draws dyraniadau penodol, a hefyd tu hwnt i ffiniau ACLI). Mae'r adroddiad hwn yn anelu at ysgogi rhaglen i gydgyssylltu, diweddarau a gwella'r ddarpariaeth, yr offer a'r gweithdrefnau sydd ar gael yn gyfredol.

Sut y rhennir y canlyniadau?

Rhennir canlyniadau'r ymchwil mewn dwy ffordd:

- 1) Cyfres o argymhellion a all hysbysu'r gwaith posibl yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru ynghylch ymgysylltiad yn y system gynllunio. Yn y rhain ceir awgrymiadau hir-dymor a thymor byr (gweler Pennod 4).
- 2) Cyfres o adnoddau ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol a rhanddalwyr eraill, i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd ymgysylltiad, ac i arddangos ei werth i gymunedau lleol, yn ogystal â chymunedau o ddiddordeb, yng Nghymru (ein hastudiaethau achos ym Mhennod 3).

Dyluniad yr Ymchwil

Mae'r ymchwil archwiliadol hwn yn cyfuno gwybodaeth ac ymarfer gyfredol, sydd wedi eu hymgorffori mewn llenyddiaeth academiaidd a phroffesiynol, gyda gwaith maes yn seiliedig ar fethodoleg gymysg sefydledig yn cynnwys:


- Arolwg archwiliadol, gyda sampl arwahanol (95 o ymatebwyr) sy'n fras yn cynrychioli'r amrywiaeth o randdalwyr sy'n weithredol mewn cynllunio yng Nghymru.
- Grŵp ffocws o 21 o hysbyswyr.
- Cyfweiliadau un-wrth-un (gyda 15 o hysbyswyr a ddetholwyd) er mwyn cyfuno profiadau uniongyrchol â phrosesau ymgysylltiad o amgylch Cymru.
- Cyfres o 6 astudiaeth achos Cymreig.

Dadansoddir y data gan ddefnyddio themâu, a nodir mewn llenyddiaeth sy'n bodoli, ynghyd â dadansoddiad o'r polisi perthnasol, er mwyn distyllu'r egwyddorion sy'n llunio'r argymhellion.

Strwythur yr Adroddiad

Mae strwythur yr adroddiad yn adlewyrchu'r dull ymchwil a ganlynwyd gennym. Ceir adolygiad byr o lenyddiaeth, polisi ac ymarfer ar ddechrau'r adroddiad er mwyn gosod y sefyllfa fel y mae, ac i alluogi'r ymchwil i dynnu ar wybodaeth bresennol. Yna cyflwynir data'r ymchwil yn y drefn y'i casglwyd, a dilyn hyn gan ei ddadansoddi a'i ddehongli. Yna mae'r dadansoddiad yn bwydo'r canlyniadau a'r argymhellion. Darperir cyfres o Adnoddau sydd wedi eu hanelu at ACLI a chymunedau, gan yr astudiaethau achos a ddadansoddir ym Mhennod 3.

Delwedd 1: Strwythur yr Adroddiad



Pennod 1: Adolygiad o Lenyddiaeth, Deddfwriaeth a Pholisi

Diben y bennod hon yw rhoi cyd-destun llawn y materion ynghylch ymarfer ymgysylltu yng Nghymru. Rhennir y bennod i ddwy adran:

- 1) Crynodeb o'r wybodaeth sefydledig ym maes yr ymchwil, fel mae wedi datblygu dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Oherwydd dyfnder ac ehangder yr ymchwil sy'n bodoli, mae'r adran hon yn fwriadol yn ddethol, ac yn canolbwyntio ar ddeunydd sy'n debygol o ysgogi meddwl yn wahanol ar y pwnc yng Nghymru.
- 2) Archwiliad o gyd-destun deddfwriaeth a pholisi'r system gynllunio Gymreig, a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ei hwynebu, yn dilyn y llwybr unigryw mae'r wlad wedi ei gymryd ers datganoli.

Roedd canlyniadau'r ddwy ran wedi achosi strwythuro'r gwaith maes, dadansoddiad yr astudiaethau achos a'r canlyniadau a'r argymhellion terfynol.

Adran 1: Beth mae llenyddiaeth yn ei ddweud am ymgysylltiad?

Cefndir

- Wrth archwilio SCOPUS gwelwyd bod bron i 500,000 o bapurau wedi eu cyhoeddi'n fyddang ar ymgysylltiad mewn cynllunio. Mae'r gwaith bron â boddi gan ddetholiad eang o astudiaethau achos sydd, er syndod efallai, yn gyffredino, yn arwain at ddadleuon, canlyniadau ac argymhellion tebyg. Dim ond ychydig iawn o bapurau sydd wedi eu cyhoeddi mewn perthynas â chynllunio yng Nghymru.
- Yn nodweddiadol mae'r astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar gyfnodau o ymgysylltu ac yn aml maent yn seiliedig ar werth, ac yn uchelgeisiol (barnu ymarfer ymgysylltu ar sail yr hyn yw dymuniad y cyfranogwyr, neu ar yr hyn y 'dylai' cynllunio fod yn ei gylch) neu'n canolbwyntio ar gwestiynau o gydymffurfio (e.e. wnaeth y system 'weithio', h.y. gwneud yr hyn y dylai ei wneud). Yn anaml y rhoddir yr astudiaethau o fewn sefyllfaoedd penodol economaidd-gymdeithasol a chyfreithiol, a phur anaml y defnyddir amser yn weithredol yn y dadansoddiad.
- Ymddengys na chynhaliwyd unrhyw adolygiad cynhwysfawr swyddogol o gyfranogaeth ac ymarfer ymgysylltu yn y DU ers iddynt gael eu cyflwyno fel gofyn statudol yn 1969 . Mae hyn yn rhyfeddol ag ystyried y llygaid craff sydd wedi bod yn gyson ar gynllunio yn y cyfnod, ac yn gynyddol, yn yr ugain mlynedd diwethaf.

Mae'r gwaith hwn a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn gynnig cyntaf i ddadansoddi arferion ymgysylltu yng Nghymru ('beth yw gwerth ymgysylltiad?') ac yn mynd ymhellach na llenyddiaeth gyfredol trwy archwilio'r gwerth cymdeithasol a gwleidyddol mae ymgysylltiad mewn cynllunio yn ei olygu mewn gweinyddiaeth ddatganoledig, sydd wedi ei gymeriadu'n gryf gan ffurf a defnydd ei dir, a thrwy'r cysylltiad agos rhwng strwythurau gweinyddol â'u pobl (beth yw pwrpas gwerth ymgysylltiad?) Mewn ymgais i symud y sylw ar ymgysylltiad tuag at ei ganlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol, mae'n cynnig mai diffiniad 'ymgysylltiad ystyrion' yw gweithgaredd ymgysylltiad sy'n ychwanegu gwerth i'r broses gynllunio a datblygu. Gellid defnyddio ymgysylltiad ystyrion fel gwerth canllaw i ddyfeisio prosesau ymgysylltiad sy'n gweddu a hefyd fel meincnod i asesu ymgysylltiad.

Mae'r adran hon yn agor yr adroddiad trwy archwilio sawl cwestiwn o amgylch gwreiddiau a natur ymgysylltiad yn y systemau cynllunio yn y DU.

Cyfranogaeth ac ymgysylltiad – y prif themâu sy’n dod i’r amlwg o lenyddiaeth academiaidd


Nid oes llawer o feysydd ymchwil wedi eu harchwilio’n fwy aml na chyfranogaeth ac ymgysylltiad mewn cynllunio. Mae’r llenyddiaeth yn amrywiol, yn eang yn nhermau cyrhaeddiad a ffocws daearyddol ond caiff rhai themâu amlwg eu trafod drosodd a thro. Mewn corff o lenyddiaeth sydd ran fwyaf yn normadol ei gynnwys, mae’r thema gyntaf yn delio â materion o hygyrchedd ac eglurder fel nodweddion dymunol mewn ymgysylltiad. Gall fod yn anodd canfod gwerth ymgysylltiad, ac fe’i bernir yn wahanol gan wahanol chwaraewyr yn y system gynllunio. Nid yw’r derminoleg wedi ei ddiffinio’n dda, a hefyd mae’n ymglyfnewidiol. Gall eglurder mewn terminoleg a phrosesau fynd yn bell tuag at gefnogi ymgysylltiad da, felly mae cyd-ddealltwriaeth o ganlyniadau ymgysylltiad yn angenrheidiol. Mae’r thema hon yn delio â’r angen am ddefnydd cyson o iaith blaen a hygyrch, am bolisi eglur a chyson a chanllawiau i’w cyhoeddi a’u diweddarau’n rheolaidd, am ymarfer gorau wedi ei rannu ymhell ac am ddatblygu dulliau priodol i hyrwyddo ac annog cyfranogaeth effeithiol amrywiaeth o wahanol unigolion a grwpiau.

Mae eglurder a hygyrchedd prosesau ymgysylltiad yn agos i ecwiti, a mynediad cyfartal i ymgysylltiad; thema sy’n delio â’r ffaith bod cyflawni mynediad cyfartal mewn cynllunio efallai’n golygu, mewn ymarfer, bod geometregau amrywiol yn nefnydd adnoddau’n cael eu mabwysiadu: bod yn rhaid treulio mwy o amser, ymdrech ac ymroddiad i gael grwpiau sy’n anos eu cyrraedd i gymryd rhan, yn fwy na grwpiau eraill. Er mwyn cyflawni mynediad cyfartal, mae’n rhaid ystyried costau, yn union fel dulliau creadigol, a chael gwybodaeth dda o’r amgylchedd gynllunio lleol, er mwyn gwneud y mwyaf o rwydweithiau sy’n bodoli ac adeiladu arnynt.

Thema arall yw - tra bo ymdrechion i resymoli prosesau datblygu yn tueddu i adrannu cyfnodau amrywiol - mae gan ddinasyddion ganfyddiad o’u hamgylchedd uniongyrchol sy’n gysylltiedig â’u hanes yn y gorffennol a’u bywydau bob dydd. Mae sylw preswylwyr a chymunedau ar eu cynefinoedd yn un o barhad, ble mae prosesau ynghylch defnydd a newid sy’n effeithio ar y tir yn cael eu gweld fel continwwm yn hytrach na chyfnod. Oherwydd hyn, er mwyn bod yn effeithiol, dylai cynllunio hefyd edrych ar ymgysylltiad fel proses barhaus, cydgyssylltiedig, ble cysylltir amryw gyfnodau (cynllunio a datblygiad), dolennu, ac i raddau, cydgyffwrdd mewn sgwrs leol barhaus rhwng y preswylwyr, y llywodraeth a’r diwydiant datblygu.

Thema a welir yn aml mewn llenyddiaeth academiaidd dros amser yw gwerth gwleidyddol ymgysylltiad, sy’n aml yn uchelgais a rwystrir mewn ymarfer, gan fod ymgysylltiad yn cael ei gynnwys o fewn gofynion technegol mewn amrywiaeth o weithdrefnau. Mae hyn yn enwedig o amlwg yn y DU, ble gwneir penderfyniadau mewn dau gyfnod (gwneud cynlluniau a rheoli datblygu) ble dosrennir y rolau yn eglur i aelodau etholedig a swyddogion. Yn gyfredol edrychir ar ymgysylltiad fel proses dechnegol yn unig, sy’n gallu rhwystro gwerth ychwanegol posibl a grëwyd gan berthynas agosach rhwng democratiaeth gynrychioliadol a chynrychiolaeth uniongyrchol. Mae sicrwydd yn thema troswaol y gellir rhoi llawer o’r ymchwil cynllunio oddi tani. Ynghylch ymgysylltiad yn benodol, rhoddir gwerth i sicrwydd o ran parch at y broses, gan fod sicrwydd proses (egllurder uchelgeisiau a chyrhaeddiad, amserlen benodol, tryloywder y broses ac ati) yn gweithredu fel gwarant i’r diwydiant datblygu, fel cymhelliant i gymunedau ac unigolion i ymgysylltu, ac ynddo’i hun fel nodwedd gadarnhaol i ACLI i faethu ymddiriedaeth. Tryloywder mewn gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd canlyniadau yw’r thema berthnasol olaf; mae gwerth i hyn o ran datblygiadau penodol ond mae’n dod o hyd i’w rôl ei hun yn natblygiad ymddiriedaeth a pharch hir-dymor ymysg rhanddalwyr mewn ardaloedd lleol.

Delwedd 2: Themâu sy'n dod i'r amlwg o'r llenyddiaeth



Beth yw ymgysylltiad?

Mae termau fel ‘ymgyngoriad’, ‘ymgysylltiad’ ac ‘ymrwymiad’ yn frith mewn llawer o’r llenyddiaeth ac mewn llawer o achosion fe’u defnyddir bron yn gyfnewidiol (ynghyd â ‘cydweithredol’, ‘ystyriol’ a ‘dialog’). Mae ansicrwydd ynghylch y termau ‘cymuned’ a ‘rhanddaliwr’ hefyd yn frith yn y llenyddiaeth.

Mae’r defnydd achlysurol ac ymgyfnewidiol o’r holl dermau o’u bath i’w gweld yn fwyaf cyffredin mewn canllawiau ymarferol, a defnydd bob dydd gan bawb - swyddogion cynllunio, datblygwyr a phobl leol - mewn cynlluniau a chynigion prosiectau, ond mae hefyd yn amlwg mewn llawer o lenyddiaeth academiaidd.

Nid oes unrhyw ddiffiniadau wedi eu cytuno arnynt eto - sy’n gyffredin ymysg yr holl rhanddalwyr - ar gyfer unrhyw un o’r termau hyn ond cafwyd lefel o gytundeb yn y blynyddoedd diweddar ymysg ymarferwyr rheolaidd ymgysylltiad, yn gyffredinol ac mewn perthynas ag agweddau o gynllunio.

Mae cyfres o ddiffiniadau’n dod i’r amlwg sy’n awgrymu bod cydrannau amrywiol i ymarfer yn bodoli, fel a ganlyn:

- **Hysbysu:** Gadael i bobl wybod bod cynllun neu brosiect ar ei ffordd, efallai bod y camau allweddol wedi eu cyrraedd neu fod fersiwn derfynol wedi ei gytuno. Er nad yw hyn yn cynnig cyfle i gymunedau / rhanddalwyr i gyfrannu, mae’n darparu’r wybodaeth angenrheidiol er mwyn gwneud hynny ar yr adeg fwyaf priodol. Y dulliau clasurol yw gwefannau, cylchlythyron, gwaith cysylltiadau cyhoeddus ac, erbyn heddiw - y cyfryngau cymdeithasol.
- **Ymgynghori:** Gwneir pob penderfyniad allweddol gan gychwynnwr y cynllun / prosiect ond rhoddir cyfleoedd i gymunedau / rhanddalwyr i roi sylwadau, i holi ar adegau penodol a / neu ar agweddau penodol yn ystod paratoad y cynllun / prosiect. Mae’r dulliau clasurol yn cynnwys arolygon, holiaduron, cyfarfodydd cyhoeddus.
- **Ymrwymo:** Er y gwneir yr holl benderfyniadau allweddol gan gychwynnwr y cynllun / prosiect, gall fod rhai camau ym mharatoad y cynllun / prosiect ble gall cymunedau / rhanddalwyr gael cyfle go iawn i drafod a datblygu syniadau, neu darperir y fath gyfleoedd ar agweddau penodol. Mae’r dulliau clasurol yn cynnwys grwpiau ffocws, digwyddiadau galw i mewn, gweithdai, paneli achlysurol i ddinasyddion.
- **Ymgysylltu:** Datblygir cynlluniau / prosiectau, neu agweddau ohonynt, fwy neu lai mewn partneriaeth â chymunedau / rhanddalwyr, gyda chyfleoedd llawn i unrhywun i herio, datblygu, awgrymu, gwerthuso, ac yn ddelfrydol, i gytuno ar y canlyniadau. Mae’r dulliau clasurol yn cynnwys gweithgору a phrosesau consensws, ond yn ganolog mae gwaith wyneb yn wyneb â phawb, a hwythau’n gyfartal – oherwydd hyn ceir y termau ‘ystyriol’ a ‘dialog’.

Nid oes goblygiadau gwerth o angenrheidrwydd i’r lefelau hyn; gall pob un ohonynt fod yn angenrheidiol ac yn briodol ar gyfer pob un neu rai o holl gamau cynllunio a rheolaeth datblygu, ac felly mae gan y gyfres hon y potensial i’w rhannu’n ehangach a’i phlannu’n fwy ffurfiol mewn ymarfer Cymreig.

Oherwydd amwysedd y termau 'cymuned' a 'rhanddaliwr', bydd yr adroddiad hwn yn defnyddio 'cymuned lle', 'cymuned o ddiddordeb' a 'rhanddaliwr'.

- **Cymuned lle:** Mae un diffiniad o gymuned yn datgan ei fod '*fel arfer yn cyfeirio at y rhai sy'n byw o fewn ardal ddaearyddol fach heb ei diffinio'n dynn*' ac a ellid eu heffeithio felly yn uniongyrchol gan gynllun neu brosiect. Mae'r 'cymuned lle' hwnnw'n awgrymu ei fod yn lle – thema ganolog ar gyfer cynllunio – sy'n clymu pobl â diddordebau a gwerthoedd amrywiol gyda'i gilydd.
- **Cymuned o ddiddordeb:** Mae diffiniad arall yn clymu cymuned gyda '*chymuned o ddiddordeb*' ble gall hyn olygu '*unrhyw grŵp o unigolion sy'n rhannu diddordebau*'.
- **Rhanddalwyr:** Mae 'rhanddalwyr' yn perthyn yn llac i'r ddau ddiffiniad o gymuned, yn ogystal â chynnwys unrhyw unigolyn, neu sefydliad o unigolion, â 'chyfran' mewn cynllun neu brosiect, hyd yn oed os nad ydynt yn byw yn ardal y cynllun neu'r prosiect, na bod ganddynt ddiddordeb penodol ynddynt. Gellid effeithio ar y bobl hyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu gallant fod yn rhywun na fydd yn cael eu heffeithio gan y cynllun neu'r prosiect ond bod dylanwad ganddynt, er enghraifft, Cyfoeth Naturiol Cymru neu ddatblygwr.


Gyda'r diffiniadau ychydig yn wahanol o 'gymuned leol', 'cymuned o ddiddordeb' a 'rhanddaliwr', fel yr amlinellwyd uchod, daw'n bosibl i weld sut a pham mae gwahanol lefelau o ymgysylltiad yn gallu bod yn briodol ar gyfer pob grŵp ar wahanol gyfnodau.

Beth yw gwreiddiau ymgysylltiad mewn cynllunio?

Gellir edrych yn ôl ar y ffordd mae systemau cynllunio wedi datblygu dros amser yn y DU er mwyn gweld y dulliau cyfredol sydd i ymgysylltiad mewn cynllunio:

- Rhagwelwyd cyfranogaeth y cyhoedd mewn cynllunio am y tro cyntaf yn *The Franks Report* fel modd i gydbwyso (ac i gyfyngu o bosib) rôl budd y cyhoedd gyda hawliau eiddo cyhoeddus¹. Ni ellid yn rhesymol gyfyngu ar fod yn agored, bod yn deg a bod yn ddiduedd i dirfeddianwyr yn unig ac agorodd hyn y ffordd i ymgysylltu'r cyhoedd.
- Yn *The Skeffington Report* (1969) cyflwynwyd y gofyn bod cyfranogaeth y cyhoedd yn statudol a chynllunio oedd y sector gyntaf mewn gwasanaeth cyhoeddus i gyflwyno'r angen i ymgysylltu â'r cyhoedd².
- O'r 60au hwyr ymlaen, cynigiodd *Ladder of Participation* (1969) gan Arnstein - safbwynt oedd yn boblogaidd ac a ddyfynnwyd yn eang - rywfaint o strwythur ynghylch yr hyn a oedd wedi ei ddeall yn wreiddiol fel ymgysylltiad ar yr adeg y'i cyflwynwyd gyntaf yn y DU, trwy ddiffinio hierarchaeth sydd ag amrediad yn ymledu o driniaeth ac ymlaen i reolaeth y dinesydd mewn datblygiad cymunedol³. Mae'r dull hwn, fel yn wir gyda'r term 'cyfranogaeth', wedi bod yn llai poblogaidd yn y DU, yn enwedig yn y blynyddoedd diweddar, o bosib oherwydd ei gyfyngiadau ynghylch ceisiadau ym maes cynllunio.

Ffigwr 3: Ysgol o gyfranogaeth dinasyddion, Arnstein (1969)



<http://lithgow-schmidt.dk/sherry-arnstein/ladder-of-citizen-participation.html>

- Yn y degawdau canlynol, awgrymodd astudiaethau (e.e. McAuslan, 1980) bod y system gynllunio yn y DU yn deillio o dair ideoleg gystadleuol, wedi eu haenu dros amser:
 - yr angen i ddiogelu eiddo preifat a busnesau a'i sefydliadau;
 - yr ymwithiad i symud diddordeb y cyhoedd ymlaen; a,
 - ceisio datblygu cyfranogaeth y cyhoedd ymhellach.


Mae pob un o'r rhain yn cyd-fynd â chwaraewyr penodol yn y broses ddatblygu: y Llywodraeth, y diwydiant datblygu a'r cyhoedd. Efallai mai'r tensiwn nas ddatryswyd rhwng y tair ideoleg yma yw achos (sydd wedi ei phlannu yn y system) llawer o'r dadrithiad mewn cynllunio hyd heddiw⁴.

Ble mae'r gwerth mewn ymgysylltiad a sut mae'n cael ei fesur?

Mewn astudiaeth ddiweddar meintiolwyd cost ymgysylltiad i ddatblygwyr - o brosiectau mawr yn Yr Alban - mewn ystod o £20k-100k, yn dibynnu ar raddfa'r prosiect a'r math a hyd y gweithgareddau ymgysylltu. Gwelwyd bod ymgynghoriad cyn-cais nodweddiadol yn costio tua 0.3% o werth gros y datblygiad ar geisiadau preswyl⁵.

Tu hwnt i'r meintioli ariannol prin a phenodol hwn, edrychir ar werth o sawl ongl. Mae llenyddiaeth academiaidd yn rhoi arwyddion o'r hyn y gall gwerth ymgysylltiad fod; mae'r hyn a ddeallir fel 'gwerth' yn amrywio yn ôl y sector yn unol â'r unigolion a'r grwpiau sydd ynghlwm â'r diwylliant ymgysylltiad lleol sydd wedi datblygu dros amser mewn cyd-destunau penodol:

Ffigwr 4: Gwerth a heriau ymgysylltiad



I'r Llywodraeth mae gwerth wedi ei gysylltu â bod yn gyfrifol am anghenion y cymunedau maent yn eu cynrychioli wrth wneud penderfyniadau, a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn y broses. Yn aml mae'r safbwyntiau'n rhanedig, ond yn gyffredinol, gall swyddogion cynllunio weld sut mae ymgysylltiad da yn adeiladu dealltwriaeth ac yn gwneud gweithdrefnau yn llyfnach⁶. Mae'r angen am fwy o adnoddau i alluogi ymgysylltiad cadarnhaol wedi ei ddogfennu'n dda ac mae gwerth wedi ei gysylltu ynghyd â chost. Mae metrigau perfformiad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd, a all effeithio'n negyddol ar foddhad yn y gwaith, gallu creadigol ac ansawdd datblygiad a lleoedd cyhoeddus⁷.

Mae'r diwydiant datblygu'n agor i fyny i ymgysylltiad, ble mae gwerth yn golygu sicrwydd a chyflymder canlyniadau. Mae cydnabyddiaeth bod defnyddio ymgysylltiad i lunio prosiectau yn

gallu gwneud y broses yn fwy llyfn a mwy rhagweladwy yn nhermau costau a chanlyniadau, ond nid o ran amser. Fodd bynnag, mae datblygwyr yn ddrwgdybus pan nad yw'n eglur sut bydd y canlyniadau'n effeithio ar y broses ddatblygu:

'roedd anesmwytho go iawn hefyd ymysg y datblygwyr ynghylch y defnydd o adolygiad barnwrol gan gymunedau yn erbyn cynigion a oedd, er yn unol â pholisi cynllunio a / neu â chytundeb drwy geisiadau cynllunio, yn gallu cael eu dal i fyny yn 'ddi-ben-draw' gan ddadleuon cyfreithiol technegol' (adroddiad Raynsford, TCPA. 2018:57-58).

I'r cyhoedd, mae gwerth ymgysylltiad ran fwyaf yn y potensial i ddarparu eglurder y broses a sicrwydd yng nghanlyniadau'r system gynllunio. Mae agweddau'r cyhoedd tuag at ddatblygu yn newid er gwell pan fônt yn cymryd rhan yn cyd-gynhyrchu gweledigaethau i'r dyfodol⁸. Fodd bynnag, mae diffyg ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr Awdurdodau Cynllunio Lleol, datblygwyr a thirfeddianwyr yn ddwfn ac eang.⁹ Awgryma adroddiad Raynsford bod:

'Adeiladu ymddiriedaeth mewn cynllunio ymysg yr holl sectorau'n amcan hanfodol ar gyfer diwygio cynllunio yn y dyfodol, gyda manteision lluosog i bawb (TCPA, 2018:58)

Y gwerth sylfaenol hanfodol i'r cyhoedd yw'r cyfle i chwarae rhan mewn gwneud dewisiadau go iawn trwy ymgysylltiad democrataidd¹⁰.

Yr un nodwedd mae'r holl chwaraewyr yn uno ag ef yw ynghylch yr hyn sy'n gwneud ymgysylltiad yn ystyrlon iddyn nhw: nodwedd gadarnhaol sy'n 'ychwanegu gwerth' i un ai prosesau cynllunio a datblygu (e.e. maethu ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng rhanddalwyr; darparu gwybodaeth ychwanegol trwy gydweithio ac ati), neu'r allbynnau materol ohono (e.e. ansawdd y datblygiadau a'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir ac ati), neu'r ddau.

Mae symudiad cyfredol wedi dod i'r amlwg mewn cynllunio yn ddiweddar er mwyn ail-alinio sut yr asesir gwerth tu hwnt i feintioli ariannol; mae'n debygol bydd yn chwarae rhan bwysig wrth fesur gwerth gweithgareddau ymgysylltu yn y dyfodol:

- Mae adroddiad y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RPTI) *Measuring What Matters* yn gosod fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso allbynnau ac effeithiau prosiectau, yn nhermau gwerth ehangach cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae hyn yn adeiladu ar yr offer '*Measuring what matters*' a gynhyrchwyd yng Nghymru fel '*offer syml ac ymarferol ar gyfer unrhywun sy'n ymgymryd â gwerthuso*'.¹¹
- Hefyd mae canllaw diweddar dan y teitl *Delivering Social Value: Measurement* a gynhyrchwyd gan UK Green Building Council (UKGBC) yn gosod fframwaith ar gyfer diffinio a chyflenwi gwerth cymdeithasol mewn prosiectau amgylchedd adeiledig. Yn bwysig, mae'r canllaw hwn yn nodi ymgysylltiad y cyhoedd fel rhywbeth allweddol i ddiffinio a chyflenwi gwerth cymdeithasol.¹²

Pa egwyddorion sy'n annog canlyniadau cadarnhaol mewn ymgysylltiad?

Dros yr hanner can mlynedd diwethaf mae adroddiadau drosodd a throsodd wedi gosod yr egwyddorion yngylch sut dylid ymgysylltu'r cyhoedd â'r broses gynllunio, ac adeiladu ar a datblygu'r rhai a gyflwynwyd yn wreiddiol yn 1969. Mae lefel ryfeddol o gysondeb rhwng yr hyn mae llawer o awduron yn eu gwyntyllu fel egwyddorion allweddol.

Yn dilyn dadansoddiad o adroddiadau proffesiynol niferus, canllawiau a llenyddiaeth, gellir distyllu'r egwyddorion allweddol er mwyn hwyluso ymgysylltiad effeithiol fel a ganlyn:

- i). Ar y cychwyn, dylid sefydlu **proses eglur** a gytunir rhwng y rhanddalwyr, ond a ddylunnir ac a reolir gydag annibyniaeth arddangosadwy.
- ii). Dylid sefydlu sgôp yr ymgysylltiad ar y cychwyn er mwyn **rheoli disgwyliadau'r** canlyniadau.
- iii). Dylai ymgysylltiad **gychwyn cyn gynted** â phosibl yn y broses gynllunio (ymhell cyn rheoli datblygu).
- iv). Mae **adeiladu ymddiriedaeth** rhwng y rhanddalwyr yn hanfodol a dylid ei sefydlu trwy onestrwydd a bod yn agored.
- v). Dylid cael **cyfnewid ar y cyd** o wybodaeth a dysgu rhwng y rhanddalwyr.
- vi). Dylid sefydlu **sail gyffredin** o wybodaeth sydd ar gael i'r holl rhanddalwyr.
- vii). Dylid ystyried **amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu** sy'n briodol i'r prosiect penodol a'r grwpiau a'r bobl ymgysylltiedig gyda'r bwriad o wneud y mwyaf o fod yn gynhwysol.
- viii). Dylai **adborth eglur** i gymunedau a rhanddalwyr fod yn broses barhaus.
- ix). Dylid cofnodi ac adrodd ar y broses, mewn modd sy'n hwyluso **tryloywder, gwerthuso ystyrion** ac sy'n **galluogi olrhain yr ymgysylltiad** o'r weledigaeth i gread y cynllun, rheoli datblygu ac uwch gynllunio.

Beth yw'r rhwystrau i ymgysylltiad effeithiol?

Gellir crynhoi achosion y diffyg ymddiriedaeth, agweddau negyddol a chyfranogaeth isel yn y system gynllunio fel:

- i). Diffyg **ymwybyddiaeth gyhoeddus** ynghylch sut y gallant gymryd rhan yn y broses gynllunio, yn enwedig o fewn cymunedau sydd dan fwy o anfanteision cymdeithasol¹³.
- ii). **Difaterwch y cyhoedd** sy'n golygu agwedd fel *'nid arweiniodd yr ymgynghoriad at unrhyw newid go iawn er gwell.'*^{Error! Bookmark not defined.}, a ellir ei barhau trwy beidio â chael adborth neu adborth annigonol.
- iii). **Tuedd negyddol y cyhoedd** yn eu syniad o beth yw diben ymgysylltiad cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer ceisiadau cynllunio penodol ble nad yw gallu'r cyhoedd i wrthwynebu'n cyd-fynd â'r gallu i gynnig cynigion amgen¹⁴.
- iv). Mae **tuedd proses dechnegol** yn y syniadaeth am ymgysylltiad ar draul cyfle gwleidyddol a democrataidd.¹⁵
- v). Yn Lloegr, mae diwygiadau un ar ôl y llall wedi rhannu'r broses gynllunio yn nhermau amser, graddfa a mater. Mae hyn yn golygu **ymarfer ymgysylltu digyswllt, cul a chyfyngedig**, yn aml yn canolbwyntio ar y raddfa leol. Archwilir y cyd-destun Cymreig yn yr adroddiad hwn.
- vi). Gall **canfyddiad negyddol gan aelod etholedig** adael cynghorwyr yn teimlo'u bod wedi dychryn gan ymgysylltiad o ran penderfyniadau penodol, a gallant wedyn gyfyngu ar eu hymrwymiad mewn gweithgareddau o'r fath. Disgrifir aelodau fel 'yn aml yn anweladwy ac yn ddiffygiol o ran arweinyddiaeth'¹⁶, yn enwedig pan fo materion yn ddadleuol.
- vii). Fel yr amlinellwyd uchod, byddai llawer o dermau o fewn cwrmpawd **ymgysylltiad yn elwa o eglurder pellach** ac fe'u defnyddir a'u camddefnyddio yn gyfnewidiol. Gallai hyn achosi diffyg ffocws mewn dealltwriaeth ac eglurder wrth weithredu o'r cychwyn cyntaf a chreu cyfle i gamddeall a chamddehongli - a all yn ei dro baratoi llwybr tuag at ddiffyg ymddiriedaeth.

Sut mae ymarfer ymgysylltu'n amrywio yn awdurdodaethau eraill y DU?

Deddfwriaeth a Pholisi

Lloegr

Yn dilyn y Ddeddf Gynllunio 2004 yn Lloegr, ynghyd â'i chanllawiau cysylltiol, cafwyd gofyn ffurfiol am ymgysylltiad wedi ei lywio trwy Ddatganiadau Ymrwymiad Cymunedol (DYC) (*Statements of Community Involvement (SCI)*). Roedd y rhain i'w cynhyrchu gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol fel rhan o'r Fframwaith Datblygu Lleol cyfan. Mae DYC nodweddiadol yn amlinellu pwy mae'r awdurdod yn bwriadu eu hymrwymo (neu ymgysylltu â hwy), sut maent yn bwriadu ymrwymo pobl a phryd i wneud hynny. Roedd hynny'n berthnasol ran fwyaf i gynlluniau statudol, ond mae pob DYC hefyd yn cynnwys adran fer ar ymrwymiad mewn ceisiadau cynllunio. Roedd rhai DYC mwy cymhleth yn cynnwys nifer fawr o fanylder ar yr agweddau uchod ac roedd rhai hefyd yn cynnwys egwyddorion ymrwymiad.

Yn nhermau cynlluniau, mae'n ofynnol cyflwyno Datganiad Ymgynghoriad (*Statement of Consultation*) (noder y newid term) ochr yn ochr â chynllun ar gyfer ei archwilio. Nid yw rhai Datganiadau wedi bod yn hwy na dwy dudalen oherwydd ni chynhaliwyd unrhyw ymgysylltiad, ond mae eraill wedi bod yn drwyadl a manwl. Ni wrthodwyd unrhyw gynllun na chais ar sail hyd yn oed yr ymgysylltiad lleiaf, ran fwyaf oherwydd nad oedd safonau eglur y gellid asesu'r gwaith ymgysylltu yn eu herbyn, yn rhannol oherwydd bod yr awdurdodau'n sôn am ddiffyg adnoddau i wneud mwy, ond hefyd oherwydd efallai nad oes gan yr Arolygwyr Cynllunio y canllawiau cywir, y gallu neu'r hyfforddiant i werthuso ymgysylltiad.

Mae DYC¹⁷ Cyngor Dinas Bryste yn un o'r rhai mwy heriol a thrwyadl, yn cynnwys ynghylch ceisiadau cynllunio. Mae'r math yma o DYC yn galluogi swyddogion i bwysu ar yr ymgeiswyr i gyd-fynd â'r rhestr safonau ac, er nad oes gofyn cyfreithiol i wneud hynny, mae ymchwil wedi dangos beth yw manteision cyflymder, sicrwydd a chydaddoldeb i'r diwydiant datblygu, y llywodraeth a'r cyhoedd pan gyrhaeddir y safonau.

Addawodd y *Localism Act* (2011) gam i fyny yn nhermau ymgysylltiad mewn cynllunio trwy wneud ymgysylltiad cyn-cais yn ofyn ffurfiol, ond ni phasiwyd y deddfwriaeth eilaidd. Mewn ymateb i hyn, a phrofiadau cadarnhaol awdurdodau megis Bryste, mae nifer o awdurdodau wedi bod yn pwysu i gyflwyno'r hyn a elwir yn Brotocolau Ymrwymiad Cymunedol Cyn-Cais. Cynhyrchodd un awdurdod (Stroud) Brotocol cydweithredol gyda chynrychiolwyr y diwydiant datblygu, swyddogion cynllunio, cynghorwyr a chynrychiolwyr Cynghorau Plwyf / Tref. Fe'i cynhwyswyd yn eu Cynllun Lleol cyntaf fel polisi. Er nad yw'n bosibl gwrthod cais ar sail na ddilynwyd y Protocol, ymddengys ei fod wedi helpu i symud ymgeiswyr tuag ymarfer ymgysylltiad gwell.

Hefyd cyflwynodd y *Localism Act* Gynlluniau Cymdogaeth ar draws Lloegr. Cynhyrchir y rhain ran fwyaf gan gymunedau lleol mewn ardaloedd Cynghorau Plwyf / Tref, er disgwylir y bydd y gwaith cynllunio o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan ryw fath ar Grŵp Llywio sy'n hanner-annibynnol oddi wrth y cyngor lleol (ac mae'r fath grwpiau yn aml yn cyflogi ymgynghorwyr i'w cynorthwyo). Mewn ardaloedd trefol di-blwyf, mae'n rhaid creu 'Fforwm' a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr awdurdod lleol i arwain y Cynlluniau Cymdogaeth. Mae'n rhaid i Gynlluniau

Cymdogaeth fynd drwy nifer o gamau ffurfiol, cyfreithiol yn cynnwys archwiliad ac yna refferendwm lleol yn ardal y cynllun cyn eu 'gwneud', a'r pryd hynny mae ganddynt yr un statws â'r Cynllun Lleol. Yn bwysig, mae Protocolau Cymunedol, fel y'u disgrifiwyd eisoes, hefyd wedi eu cyflwyno mewn nifer o Gynlluniau Cymdogaeth.

Dan y ddeddfwriaeth mae'n ofynnol bod unrhyw Gynllun Cymdogaeth yn 'weledigaeth a rennir' ac, o'i gymharu â'r profiad gyda Chynlluniau Lleol, heriwyd sawl un ar y sail honno gan archwilwyr, a hyd yn oed gan drigolion oedd yn teimlo'u bod wedi eu heithrio. Mewn ychydig o achosion, gwrthodwyd cynlluniau a gyflwynwyd oherwydd ymgysylltiad annigonol. Yn gyffredinol - ac efallai oherwydd y nifer fach o bobl oedd ynghlwm â'r mynediad i gymorth grant - mae paratoi'r Cynlluniau Cymdogaeth yn seiliedig ar ymgysylltiad mwy amrywiol a mwy dylanwadol na Chynlluniau Lleol. Ar yr un pryd, maent yn codi cwestiynau pwysig am ddemocratiaeth leol (efallai nad yw cynghorwyr awdurdod lleol yn cymryd rhan o gwbl) ac mae ymchwil yn awgrymu eu bod yn cael eu gwneud gan gymunedau cyfoethocach, sy'n gallu mynegi eu hunain yn well mewn trefi a phentrefi tua de Lloegr - y rhai sydd yn cyfrannu'n fwyaf cyffredinol i ymarfer ymgysylltu. Er bod y dystiolaeth yn gyfyngedig, mewn rhai achosion, ymddengys bod Cynlluniau Cymdogaeth wedi bod yn llwyddiannus yn ymrwngthod heriau gan ddatblygwyr, ac mae statws eu 'gweledigaethau a rennir' ambell waith wedi ei ddefnyddio gan Arolygwyr er mwyn gwrthod apeliadau.

Croesawyd y rôl fwy gweithredol hon i'r cyhoedd gan arsylwyr, a'i ddefnyddio mewn llawer o ardaloedd¹⁸, a gwelwyd bod canlyniadau wedi ychwanegu gwerth i randdalwyr lluosog¹⁹. Fodd bynnag, credir bod y system yn feichus. Gall greu lefelau ychwanegol, yn hytrach na lefelau amgen, o atebolrwydd democrataidd, ac fe dueddir i'w gwneud yn yr ardaloedd sydd ag amser, arbenigedd a strwythurau cymunedol yn eu lle i'w paratoi. Nis derbyniwyd hwy gymaint mewn ardaloedd trefol a rhanbarthau gogleddol Lloegr²⁰. Mae ffocws ar y lleol hefyd yn cuddio gwneud penderfyniadau mwy strategol sy'n parhau i fod ymhell o gyrraedd cymunedau, gan ddenu beirniadaeth o boblyddiaeth ynghylch y dull Seisnig.

Yr Alban

Mae ymgysylltiad cyhoeddus yn ganolog mewn tair adran rhyngberthnasol yn Yr Alban: diwygio cynllunio, diwygio tir a grymuso cymunedol²¹, sy'n canolbwyntio ar ailadeiladu ymddiriedaeth â chymunedau. Mae Llywodraeth Yr Alban yn pwysleisio galluogi cymunedau i gael 'dylanwad ystyrlon a chadarnhaol ar ddatblygiadau'r dyfodol yn eu hardal'.²², a gofynnir am safbwyntiau'r cyhoedd ar bob lefel. Hefyd mae'n rhaid paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol gydag ymrwymiad penodol plant a phobl ifanc. Yn nodedig, mae Llywodraeth Yr Alban wedi paratoi Nodyn Cyngor ar Gynllunio ar ymgysylltiad cymunedol.²³

Darperir atebolrwydd democrataidd cynrychioladol a gwneud penderfyniadau ar bob lefel, gyda chynlluniau rhanbarthol awdurdodau lleol (pob un â'u cynrychiolwyr etholedig) yn cydweithio. Hefyd mae cyfarwyddiadau eglur i lywio gwaith arolygwyr cynllunio mewn perthynas ag ymrwymiad y cyhoedd yn Yr Alban: mae'n rhaid i Arolygwyr asesu'r broses ynghylch y sylwadau a dderbyniwyd a chyfeirio'r mater yn ôl i'r Gweinidogion os oes tystiolaeth bod sylwadau heb eu datrys²⁴. Mae hyn yn caniatáu integreiddio democratiaeth uniongyrchol gyda strwythurau traddodiadol o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar

ddemocratiaeth gynrychioladol, a chyflawni ymgais gynhwysfawr, ar y cyd, i gydlynu adrannau deddfwriaethol gwahanol, gydag ymgysylltiad ar y blaen²⁵.

Gogledd Iwerddon

Yn Ebrill 2015, dan system newydd, a arweiniwyd gan gynlluniau, datganolwyd sawl swyddogaeth cynllunio i un ar ddeg o gynghorau lleol newydd. Mae'n ofynnol dan y system Cynllun Datblygu Lleol newydd i gael cysylltiad cryf â Chynllun Cymunedol pob Cyngor ac mae rôl aelodau etholedig a chynllunwyr wedi newid o ganlyniad i'r datganoli, gan ofyn am osod strategaeth â ffocws ac atebolrwydd ar lefel leol.²⁶ Daeth rownd gyntaf y Cynlluniau Datblygu Lleol drafft i'r amlwg bob yn dipyn yn 2019.

Mae effaith yr anghytundeb gwleidyddol llwyr a'r oedi canlynol i ffurfioli'r pumed Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar ymarfer ymgysylltu yn aneglur, ond mae Partneriaeth Ymgysylltu â Chynllunio (*Planning Engagement Partnership*) newydd wedi ei sefydlu bellach gan Adran Seilwaith Gogledd Iwerddon (a rhanddalwyr eraill) i weithredu fel fforwm i rannu profiad, ymarfer da a dysgu. Rôl allweddol y Bartneriaeth fydd archwilio cyfleoedd i 'wella ansawdd a dyfnder ymarfer ymgysylltu' ar bob lefel²⁷. Mae'r ffordd y bydd y Bartneriaeth yn ei chymryd yn aneglur ar hyn o bryd a gall tensiynau cyfredol ôl-Brexit beryglu arafu symud ymlaen ymhellach yn hyn, ac mewn adrannau polisi eraill, yng Ngogledd Iwerddon.

Offer, Methodau a Dulliau

Methodau cyffredin

Tra bo amrywiaeth enfawr o offer, methodau a dulliau ymgysylltiad ar gael (145 wedi eu rhestru gan un sefydliad yn unig²⁸), mae ymgysylltiad a gyfyngir gan broses statudol yn parhau i ddibynnu ar nifer fach o fethodau cyffredin: ymgynghoriadau ysgrifenedig / arolygon, gweithdai i randdalwyr ac arddangosfeydd / digwyddiadau cyhoeddus 'galw i mewn', gan ddiystyru'r math o gynulleidfa a'r cyfnod y cynhelir yr ymgysylltiad ynddo. Gall yr adran hon, yn enwedig, fod yn berthnasol i Lywodraeth Cymru weithredu arni yn y cyfnod canolig, trwy ddefnyddio'r llenyddiaeth a darparu opsiynau manwl a gytunir arnynt gan yr holl randdalwyr – a chanllaw perthynol – ynghylch pa fethodau a ellid eu mabwysiadu'n fwy priodol ar ba gyfnodau.

Ymgysylltiad Digidol

Yn ddiweddar daeth llawer o offer digidol, sy'n hwyluso ymgysylltiad, i'r amlwg o safleoedd masnachol ac academiaidd. Amcangyfrifir bod y nifer o lwyfannau sydd ar gael rhwng 113-450²⁹. Mae'r offer yn amrywio'n fawr yn eu defnydd, argaeledd daearyddol a'r math o ymgysylltiad maent yn ei hwyluso. Amcangyfrifir mai dim ond chwarter o'r llwyfannau hyn sydd â'r posibilrwydd o hwyluso cyd-gynhyrchiad effeithiol rhwng y llywodraeth a'r cyhoedd.²⁹

Mae adroddiad gan Grayling Engage a'r RTPi (2020) yn adleisio llawer o'r llenyddiaeth yn ei argymhellion i ddefnyddio mwy o'r llwyfannau ymgysylltiad digidol.³⁰ Wrth i'r defnydd o offer digidol mewn ymgysylltiad ddatblygu, bydd yn bwysig i gymryd yr egwyddorion hyn ymlaen, ynghyd ag egwyddorion mwy cyffredinol, ar gyfer ymgysylltiad effeithiol a nodwyd yn gynharach. Yn benodol, dylid cymryd gofal i osgoi offer digidol sy'n disodli ymgysylltiad wyneb yn wyneb, serch y cyfleustra a gynigir. Yng Nghymru, bydd yn rhaid meddwl yn ddwys

ynghylch ble, sut a phryd i ddefnyddio offer digidol yn fwy gweithredol mewn cynllunio, gan mai Cymru yw un o'r rhanbarthau a effeithir fwyaf gan y 'rhaniad digidol' - gyda 42% y boblogaeth wedi eu heffeithio gan fynediad anodd neu amhosibl, o ganlyniad i amddifadedd cymdeithasol, lleoliad neu gymysgedd o'r ddau (Good Things Foundation, 2020 Digital Nation 2020 Report) – ffenomenon sydd wedi cynyddu'n fawr o ganlyniad i galedi ac yn fwy diweddar, COVID.

Canllaw a Hyfforddiant

Nid oes prinder o ganllawiau ar ymarfer ymgysylltu: mae rhai ynghylch ymgysylltiad yn gyffredinol, nid ynghylch cynllunio yn unig. Er enghraifft, *'The Facilitator's Guide to Participatory Decision-making'*³¹ a *'Planning under Pressure'*.³² Mae rhai yn benodol ynghylch cynllunio, ond ynghylch agweddau penodol yn unig megis creu cynlluniau. Er enghraifft, *'Good Practice Guide to Public Engagement'*³³ ac *'Effective Involvement and the Local Development Framework'*³⁴.

Mae rhai'n tueddu i ganolbwyntio'n drwm ar fethodau, sy'n fwy perthnasol i brosiectau (serch dewis da o fethod a defnydd sy'n un yn unig o'r egwyddorion cyffredinol a restrir uchod). Er enghraifft, *'The Community Planning Handbook'*³⁵ ac *'English Partnership's Approach to Engagement'*.

Mae i rai gefnogaeth y llywodraeth er enghraifft, *'Making Plans'* a chyfres o ganllawiau wedi eu cynhyrchu yn dilyn y Ddeddf Gynllunio 2004 yn Lloegr. Mae gan un o leiaf – *'The Craft of Collaborative Planning'*³⁶ – gefnogaeth sefydliad proffesiynol, gan yr RTPI yn yr achos hwn.

Ar hyn o bryd, ymddengys mai dim ond un sydd wedi cael cytundeb y diwydiant cyfan – y *'Ten Commitments for Effective Pre-application Engagement'*³⁷, a gynhyrchwyd ar y cyd gan y British Property Federation, Home Builders Federation, Federation of Master Builders, Cymdeithas Llywodraeth Leol, yr RTPI, y Gwasanaeth Cynghori Cynllunio, y Planning Officers Society and Locality. Fodd bynnag, fel mae'r enw'n awgrymu, dim ond â phrosiectau datblygu mae'n delio, nid creu cynlluniau.

Tra bo bron gormod o ganllawiau ar ymgysylltiad - ac ni all canllawiau'n unig newid ymarfer - nid oes fawr o hyfforddiant ar ymgysylltiad. Cynhaliwyd rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer cynllunwyr, cynghorwyr a chynrychiolwyr cymunedau am gyfnod byr yn Lloegr yn dilyn y Ddeddf Gynllunio 2004. Dilynwyd hyn gan ychydig o gyrsiau eraill ar gyfer aelodau awdurdodau cynllunio. Mae Cymorth Cynllunio Cymru (ac i raddau llai Planning Aid England) wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer cynllunwyr a Chynghorwyr Cymuned. Nid yw'n ymddangos bod hyfforddiant wedi ei gynnig ar gyfer datblygwyr, er bod ymgynghorwyr cynllunio sy'n gweithredu drostynt wedi mynychu digwyddiadau ar brydiau yn Lloegr.

Mae'n anodd dychmygu sut gellir cael datblygiad go iawn heb ganllawiau amlsector a gytunir arnynt, a dilyn hyn gan raglenni hyfforddi ledled Cymru sy'n delio ag ymgysylltiad mewn (yn fras) creu cynlluniau ac ymgysylltiad mewn prosiectau datblygiad fel continwrm.

Mae'n rhaid nodi'r rôl a berfformir yn gynyddol gan asiantaethau Cysylltiadau Cyhoeddus ym maes cynllunio sy'n cynhyrchu digwyddiadau a deunyddiau llawn gwybodaeth, ond mae ystyrlondeb yr ymgysylltiad a gynhaliwyd eto i'w werthuso'n annibynnol. Dylid cynnal mwy o

ymchwil mewn perthynas â gwaith y cwmnïau hyn a'i heffaith ar adeiladu ymddiriedaeth mewn cynllunio yng Nghymru.

Effaith caledi

Mae toriadau yn y sector gyhoeddus wedi effeithio ar holl agweddau'r gwasanaethau cynllunio ar draws y DU yn nhermau adnoddau a sgiliau, yn ogystal â system datblygiad y sector breifat. Mae hyn wedi cael canlyniadau pellach i'r cyhoedd ac yn aml wedi golygu llai a llai o gyfleoedd arwyddocaol i ymgysylltu, i gyflawni gofynion lleiafswm ac yn gyffredinol wedi cyfrannu at amgylchedd sy'n llai ymatebol.

Mae'r effaith yma'n waeth mewn ardaloedd difreintiedig (yn aml gyda dwysedd poblogaeth uwch), ardaloedd â darpariaeth wael o wasanaethau ac ardaloedd ble nad oes fawr o ddiddordeb gan y diwydiant datblygu.³⁸ Gall y duedd yma barhau'n hawdd a gwaethygu oherwydd COVID-19 a Brexit pe bai cyllid yn cael ei leihau ymhellach yng Nghymru.

Mewn canlyniad, mae llenyddiaeth lwyd ac academiaidd a ddadansoddwyd yn yr adrannau blaenorol yn awgrymu:

- Nid oes diffiniad y cytunwyd arno o'r hyn yw ymgysylltiad; fodd bynnag, mae cytundeb yn dod i'r amlwg ymysg ymarferwyr ymgysylltu ei fod yn ymarfer sy'n anelu at gynnwys - i raddau amrywiol - dinasyddion a chymunedau, mewn gwneud penderfyniadau sy'n berthnasol i dir a'i ddefnydd, sy'n golygu bod amrywiaeth o gydrannau (hysbysu, ymgynghori, ymrwymo, ymgysylltu) yn cael eu mabwysiadu mewn amrywiol ffyrdd ar gyfnodau gwahanol y broses gynllunio a datblygu. Mae'r ymarfer hwn yn seiliedig ar egwyddorion derbyniol, wedi ei strwythuro o amgylch cyfres o offer a dulliau derbyniol; a bod ei fabwysiadu effeithiol, yn gyfredol, wedi ei gyfyngu gan rwystrau penodol;
- Mae chwe thema berthnasol ble y dylid edrych ar a gwerthuso ymgysylltiad:
 - T1 - Eglurder a hygyrchedd
 - T2 - Ymgysylltiad fel proses barhaus
 - T3 - Ymgysylltiad fel moment technegol a gwleidyddol
 - T4 - Tryloywder mewn gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd canlyniadau
 - T5 - Sicrwydd y broses
 - T6 - Costau ac ecwiti
- gwerthfawrogi ymgysylltiad mewn cynllunio. Er bod chwaraewyr gwahanol yn ei werthfawrogi am wahanol resymau, mae'r rhan fwyaf o'r chwaraewyr yn gwerthfawrogi ymgysylltiad ystyrllon pan welir bod y broses ymgysylltu yn ychwanegu at (yn hytrach na thynnu i ffwrdd) werth i un ai brosesau cynllunio a datblygu, neu ganlyniadau, neu'r ddau;
- gall datblygu dull parhaus o ymgysylltiad, fel nodwedd sy'n ychwanegu gwerth i'r prosesau cynllunio, ddarparu cyfle i Gymru i gryfhau ei agenda Creu Cynefinoedd.

Adran 2. Sut edrychir ar ymgysylltiad yng Nghymru? Y Gyfraith a datblygu polisi

Mae'r adran hon yn archwilio gwerth, mewn perthynas â pha nodweddion systemig a all arwain at anafdlonrwydd o fewn ymgysylltiad mewn cynllunio, ac yn ceisio atebion i gwestiwn allweddol: Ydy'r cyd-destun a ddarperir gan y system gynllunio yn ffafriol i ymgysylltiad ystyrlon?

Gwneir hyn drwy (i) gyflwyno theorïau newid sefydliadol a datblygiadau polisi cyfredol yng Nghymru a (ii) mynd trwy'r system sy'n bodoli o ongl 'ymgysylltiad' ac enghreifftio ei eirfa trwy ddefnydd ymarferol mewn dau fraslun archwiliadol desg-seiliedig.

Y system gynllunio yng Nghymru: haenu a newid.


Gyda rhai eithriadau, mae cynllunio erbyn hyn wedi ei ddatganoli bron yn llwyr i Gymru. Gosodir y cefndir cyfreithiol gan y llysoedd, Arolwg Barnwrol yn arbennig, a chyfarwyddir apeliadau at yr Arolygiaeth Gynllunio a fydd yn dod yn wasanaeth annibynnol Cymreig yn 2021.

Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn ganlyniad i haenu darpariaethau canlynol gan greu'r hyn sydd yn ei le heddiw, sef cyfuniad o ddeunydd deddfwriaethol a gynhyrchwyd cyn ac ar ôl datganoli (*gweler tabl 1, atodiad B*) wedi'i alinio i'r flaenoriaeth o ddatblygiad cynaliadwy ac yn hyn mae Cymru wedi bod yn flaengar yn y DU.

Hyd yn hyn, nid yw Cymru wedi dilyn Lloegr wrth fabwysiadu diwygiadau cynllunio mentrus, ond poblogaidd o bosibl, (e.e. Cynlluniau Cymdogaeth) ac mae wedi cadw llygad barcud ar y symudiadau mwy radical yn Yr Alban. Fodd bynnag, aethpwyd ar ôl dull nodedig o gynllunio, sy'n gwneud y mwyaf o adnoddau a phobl Cymru, trwy ddilyn prosesau trwyadl sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r fframwaith gynllunio i Gymru a ddeilliwyd o hyn wedi ei grynhoi yn y diagram isod (nid yw'r ffigwr yn dangos rôl yr Arolygiaeth Gynllunio mewn penderfynu ar apeliadau, a rôl feirniadol Gweinidogion Cymru).

Ffig 1: Y system gynllunio yng Nghymru (ffynhonnell: PPW11)

Figure 1: The Planning Framework



Mae systemau cynllunio ymhob man yn datblygu trwy'r amser ac yn aml yn ganlyniad i newidiadau i'r rheolau sy'n tywys datblygiad tir dros amser³⁹. Mae newid yn ganlyniad i haenu, trosi, drifft a dadleoli polisi, ac ar brydiau mae canlyniadau go iawn yn gallu bod mor fwriadol ag ydynt weithiau'n anfwriadol⁴⁰.

Yn gyffredinol mewn cynllunio mae'r penderfyniadau'n seiliedig ar bolisi neu gynseiliau - felly mae'r system wedi ei dylunio i atgyfnerthu'r *status quo* a chefnogi sicrwydd, ond mae hefyd yn sensitif i ddehongliadau a newidiadau cyd-destunol⁴¹. Mae amser yn ddimensiwn pwysig mewn setlo Sefydliadau ac mae'r symud i agenda sy'n canolbwyntio ar gynefinoedd, a chreu cynefinoedd, yn gyfle delfrydol i gryfhau a pharatoi ar gyfer y dyfodol fel ffocws ar ansawdd anrhydeddau lle, wedi ei yrru gan ddinasyddion, a chanlyniadau gan ddefnyddwyr yn gymaint â phrosesau. Mae adolygiad o ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru (Tabl 4, atodiad B) yn dangos drafftio gofalus sydd wedi cynhyrchu corff cydlynol mewn perthynas ag agweddau canolog y system gynllunio.

Ond sut mae ymgysylltiad wedi ei ystyried? A oes eglurder mewn perthynas â diffiniadau 'cymuned', 'rhanddaliwr' ac 'ymgysylltiad'? A ystyriwyd ymuno ar gyfer yr ymgysylltiad sy'n cymryd lle ar wahanol gamau'r broses ddatblygu? Mae'r adrannau canlynol yn darparu cyfrif o sut mae ymgysylltiad yn cymryd ei le o fewn y system gynllunio Gymreig trwy adolygu darpariaethau mewn polisi a dau botread bychan dadansoddol archwiliadol; un yn canolbwyntio ar y defnydd ymarferol o derminoleg, a'r llall ar lefel cysylltu rhwng gwahanol benodau o ymarfer ymgysylltu sy'n effeithio ar un ardal dros amser.

Sut y darperir ar gyfer ymgysylltiad ym mholisi cynllunio yng Nghymru?

Mae dadansoddiad o'r system gynllunio Gymreig yn datgelu'r cyfleoedd a'r rhwystrau i ymgysylltiad fel y'i hymgorfforir o fewn polisi cynllunio Cymreig⁴². Ceir crynodeb o'r casgliadau fel a ganlyn:

- Y prif fecanwaith statudol y gwahoddir y cyhoedd trwyddi i ymgysylltu yw trwy (a) gyfnodau o ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLL) a (b) rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio.
- Mae diffyg cydlyniant rhwng gweithgareddau ymgysylltiad gwahanol, yn ogystal â diffyg adborth ar gael i'r cyhoedd, neu adborth hygyrch, neu adrodd ar weithgareddau ymgysylltiad blaenorol.
- Mae ymgynghoriad cyn-cais (h.y. ymgysylltiad cynnar yn berthynol i (b) uchod heb unrhyw gyswllt i CDLL h.y. (a) uchod sy'n digwydd ar foment benodol mewn amser, 28 diwrnod cyn cyflwyno cais. Hyd yma mae'n aneglur a oes unrhyw newidiadau ystyrlon i ddatblygiad yn digwydd o ganlyniad. Gall hyn atgyfnerthu'r canfyddiad o weithgareddau ymgysylltiad fel gofyn technegol, sy'n cyfyngu ar eu potensial. Tra bo hyn tu hwnt i sgôp yr ymchwil hwn, efallai dylid cael adolygiad systemig o'r fath ymarferion, y newidiadau a wneir a'r adroddiadau ymgynghoriad cyn-cais.
- Rhoddir cyfleoedd i'r cyhoedd i ymgynghori â hwy ond nid oes ganddynt bwerau sylweddol i lunio datblygiad, a arweinir yn fras gan benderfyniadau a wneir gan aelodau etholedig.
- Ymddengys bod gwneud penderfyniadau mewn cynllunio yn taflu democratiaeth (dirprwyedig) yn erbyn democratiaeth gyfranogol (ystyriol) ar ffurf ymgysylltiad cyhoeddus.
- Mae grym hawliau eiddo yn creu amgylchedd ble mae'n anodd i'r cyhoedd eiriol dros, a deddfu, newid.
- Mae gan Gynghorau Cymuned a Thref rôl gyfyngedig iawn a dim dylanwad dros faterion cynllunio, ac maent yn cael eu dal yn ôl gan eu gallu a'r sgiliau cynllunio angenrheidiol. Mae Cynlluniau Cynefin yn rhoi cyfle i gymunedau gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu polisi cynllunio, a all fod â ffocws ar ofod ac yn lleol. Yn hollbwysig, gallant ddod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol ond nid oes cyllid ar gael i'w paratoi ac mae'r sgiliau cymunedol angenrheidiol yn gyfyngedig. Gall hyn esbonio'r derbyn araf cyfredol, ond dylid cael archwiliad pellach o'r rhwystrau posibl.

- Mae Cynlluniau Cynnwys Cymunedau ac adroddiadau ymgynghoriad cysylltiol ar Gynlluniau Adnau yn rhan o'r broses paratoi polisi ond gellir gweld cyfleoedd coll i gyflawni gweithgareddau ymgysylltiad ystyrlon (archwilir ymhellach isod).

Ydy'r system gynllunio yng Nghymru yn hwyluso ymgysylltiad eglur a chyson?

Yn yr adran hon cyflwynir dau ymarfer archwiliadol sy'n enghreifftio ymhellach safle ymgysylltiad yn y system gynllunio Gymreig:

- 1) Archwilir a yw system gynllunio Gymreig yn mynd tu hwnt i'r ansicrwydd yn nefnydd y derminoleg o amgylch ymgysylltiad, a sefydlwyd yn Adran 1, trwy ddadansoddi geiriau a ddefnyddir mewn sampl o ddogfennau allweddol; ac
- 2) Yn dilyn canlyniadau o'r adran uchod, byddwn yn dilyn sut y gwelwyd, trin a delio ag ymgysylltiad mewn un lleoliad, gan ei ddilyn trwy amser o'r Cynllun Cynnwys Cymunedau trwy Gynllun Datblygu Lleol i gais cynllunio.

Ydy'r derminoleg yn eglur?

Cyflwynir isod ddadansoddiad o ba mor aml ac, efallai'n bwysicach, ym mha ffordd y defnyddiwyd y termau 'Ymgynghoriad', 'Cyfranogaeth', 'Rhaddaliwr', 'Ymgysylltiad' ac 'Ymrwymiad' o fewn sampl o ddogfennau cynllunio ar holl lefelau'r system gynllunio (gweler yr atodiad am restr lawn o'r dogfennau a adolygwyd):

Tabl 1: Amllder defnydd y geiriau ar draws sampl o ddogfennau cynllunio

Math o Ddogfen	Amllder y defnydd o eiriau (nifer yr enghreifftiau)					
	'Ymgynghoriad'	'Cyfranogaeth'	'Rhaddaliwr'	'Cymuned'	'Ymgysylltiad'	'Ymrwymiad'
Deddfwriaeth	43	4	0	6	0	0
Polisi Cenedlaethol	183	9	53	287	11	27
Llawlyfrau Cynllunio	0	4	80	103	6	71
Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI)	93	3	34	538	10	17
Arfarniadau Cynaliadwyedd CDLI	182	17	22	525	15	23
Adroddiadau Arolygydd CDLI	40	0	6	101	5	7
Ceisiadau Cynllunio	10	0	0	13	0	0
Apeliadau Cynllunio S.78	0	1	0	24	0	0
Canllaw PINS	17	1	1	3	2	3

Fel yr amlinellwyd yn Adran 1, yn aml nid yw terminoleg ymgysylltiad wedi ei ddiffinio'n eglur a defnyddir rhai termau'n gyfnewidiol; mae geiriau tebyg neu wahanol yn aml yn cyfleu, yn hytrach nag esbonio, y lefelau gwahanol o fewn y system gynllunio. Er enghraifft, mae'r *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Development Plans Manual)* yn awgrymu '3.5 Neges allweddol yw un o ymrwymiad yn hytrach nag ymgynghoriad', ond nid yw'n disgrifio sut gellir ystyried, barnu, gwella ymrwymiad o fewn y broses.

Tra cydnabyddir nad rôl Llywodraeth Cymru yw bod yn rhagnodol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar y ffyrdd penodol y dylent ymrwymo eu cymunedau, gall llunio arwyddion o sut mae ymrwymiad yn wahanol i ymgynghoriad, ac enghreifftiau o sut gellir llunio datganiadau bwriad i fod yn ymrwymadau go iawn, fod o fudd, un ai trwy ganllawiau neu ailadrodd y fath ganllawiau yn y dyfodol.

Mae'n bosibl bod diffyg eglurder a defnydd cyfnewidiol o derminoleg ar lefelau gwahanol y system gynllunio yn cael rhywfaint o ddylanwad ar ganfyddiad o weithgaredd ymgysylltu fel cam technegol yn y broses sy'n debyg i lawer o rai eraill (e.e. dilysu); mae'n swyddogaeth sy'n rhaid ei berfformio ond nid oes fawr i ddangos bod ei gynnwys, proses a chanlyniadau yn gyfystyr â ffocws, neu a gaiff ei farnu o fewn y system. Yn fwy na hyn, nid yw cysondeb defnydd i'w weld yn lleol ac yn llai fyth ar draws ffiniau gweinyddol. Mae edrych ar ymgysylltiad yn unig fel tasg dechnegol yn rhwystro'r nodweddion cadarnhaol yn ei werth gwleidyddol.

Gan eu bod o werth archwiliadol, ni ellir cael canlyniadau terfynol o'r porteadau bychain, ond mae'r cyflwyniad byr uchod yn awgrymu y dylid cynnal gwaith pellach i dynnu allan y defnydd, yr ystyr a'r ddealltwriaeth o derminoleg sy'n gysylltiedig ag ymgysylltiad.

Ydy ymgysylltiad yn cael ei gysylltu a'i ddilyn yn gyson trwy gydol y broses gynllunio?

Mae'r ail bortread bychan yn mapio sut mae ymgysylltiad wedi ei blannu o fewn polisi a dogfennau ategol, trwy'r broses creu polisiâu, mewn un Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru, o'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, trwy'r penderfyniad ar adroddiad yr Arolygydd ar Gynllun Datblygu Lleol. Mae wedyn yn edrych i weld sut, a ph'un ai ydy'r egwyddorion hyn wedi gweithio eu ffordd trwy'r broses reolaeth datblygu.

Y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)

- Yma gosodir yn eglur yr hyn ydyw a phwy ddylid ymgynghori â hwy. Mae'n ceisio 'defnyddio prosesau ymrwymiad effeithiol' ac yn cydnabod 'nad yw un dull yn gweddu i bawb'. Mae'r dulliau o ymgysylltu a restrir yn cynnwys arddangosfeydd, taflenni un tudalen a gwybodaeth ar wefannau. Ni ddarperir fawr ddim o fanylion ar ddulliau mentrus, neu'r egwyddorion cyffredinol dros ddefnyddio dulliau arloesol, er mwyn cyflawni ymgysylltiad mwy ystyrion, ac nid oes unrhyw fanylion ar ddulliau eraill i ymgysylltu â grwpiau ieuenctid neu grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.
- Mae'r CCC yn datgan yn eglur bod 'Y broses CDLL yn cynnwys camau eglur er mwyn adrodd yn ôl i'r gymuned'. Mae hyn yn gadarnhaol, yn cyfeirio at adroddiadau sydd ar gael ar-lein neu yn y Ganolfan Ddinesig. Amcan y CCC yw cael 'cysylltiad ag ymarferion ymgynghori sy'n bodoli eisoes, megis y rhai a ymgymeryd mewn perthynas â'r Cynllun

Cymuned, a thrwy hynny gwneud y defnydd gorau o adnoddau presennol a lleihau'r potensial am flinder ymgynghori ymysg y gymuned'.

Yr Adroddiad Ymgynghori ar y Cynllun Adnau ac Arfarniad Cynaliadwyedd

Mae'r Adroddiad Ymgynghori ar y Cynllun Adnau yn gosod pa ymgysylltu a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch y CDLL adnau a'r amserlenni:

- Mae'r adroddiad yn ei gwneud yn eglur y cynhaliwyd 16 o sesiynau ymgysylltu mewn lleoliadau ar draws y Sir. Fodd bynnag, arddangosfeydd oedd y digwyddiadau hyn gydag esboniadau o bolisiâu drafft a chanllawiau ar sut i ymateb yn ysgrifenedig. Er bod hyn yn cydymffurfio â'r CCC, mae'n broses fwy adweithiol, yn hytrach nag ymgysylltu â chymunedau ynghylch yr hyn yr hoffent ei weld, a chaniatáu mewnbwn ar faterion o'r fath.
- O ganlyniad, ymddengys bod yr ymatebion yn debygol o wrthwynebu neu gefnogi, yn hytrach na chael safbwyntiau mwy adeiladol ar yr hyn yr hoffai'r gymuned hyrwyddo. Mae'r adroddiad yn sôn am ymgynghoriad cychwynnol ond yn canolbwyntio ar ymgynghoriad ar y cynllun adnau ac erbyn y cam hwnnw mae'n anodd edrych am fwy nag ymateb i bolisiâu. Efallai y dylid cael mwy o ymchwil ar faint o ddylanwad sydd gan gymunedau ar gamau cyntaf paratoi cynllun a sut mae wedi dylanwadu ar y Cynllun Adnau.
- Canlynodd yr Arfarniad Cynaliadwyedd broses debyg ond oherwydd natur dechnegol y ddogfen nid oedd hyn mor annisgwyl. Nodir nas addaswyd yr adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd o ganlyniad i'r ymgynghoriad Adnau.

Adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio ar CDLL

Ni fanylodd yr Arolygydd yn sylweddol ar y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Ei brif ffordd oedd ystyried a oedd yn cyflawni'r hyn a ddywedwyd yn y cytundeb cyflenwi ac ystyriwyd y Cynllun Cynnwys Cymunedau dan asesiad gofynion gweithdrefnol. Mae'r cyfeiriadau penodol fel a ganlyn:

- Ymddengys bod yr adroddiad yn ystyried pwy a beth a ymgynghorwyd yn hytrach na sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad na'i ansawdd.
- Mae'r adroddiad yn cydnabod bod y CDLL adnau yn destun i Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn cyflawni gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rheoli Datblygu

Rydym wedi defnyddio enghraifft o gais go fawr a benderfynwyd arno yn dilyn mabwysiadu'r CDLL yma. Roedd y cais a adolygwyd gennym wedi rhoi cyfle i ni i ystyried sut y deliwyd ag ymgysylltiad gyda gwaith cyn-cais, yr adroddiad gan y pwyllgor cynllunio ar y cais a phenderfyniad yr Arolygydd Cynllunio wedi hynny ar apêl S78.

- Yn yr adroddiad Cyn-Cais cafwyd cyfeiriad eglur at ofynion y ddeddfwriaeth berthnasol⁴³ a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Nid oedd gofyn i gyfeirio at CCC y CDLL ac felly ni chyfeiriwyd ato⁴⁴. Yn yr adroddiad Cyn-Cais cafwyd manylion ynghylch pwy a ymgynghorwyd a sut y deliwyd â'r ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd.

- Cymerodd adroddiad y pwyllgor cynllunio ddull tebyg, a chyfeiriwyd at bwy a ymgynghorwyd fel rhan o'r cais cynllunio, a chafwyd crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd. Deliodd adran arfarniad cynllunio yr adroddiad â'r ymatebion hyn. Cyfeiriodd penderfyniad apêl S.78 at ymatebion yr ymgynghoriad, yn enwedig at ymatebion trydydd parti. Fodd bynnag, yn ôl y disgwyl, roedd penderfyniad yr apêl wedi canolbwyntio ar y prif faterion yn yr apêl ac nid ar y broses ymgeisio.

Mae hyn yn ei gwneud yn eglur nad oedd proses ymgysylltu y CDLL wedi cysylltu na symud ymlaen i'r broses rheolaeth datblygu. Nid oes rhaid i'r ymgeisydd, yr Awdurdod Cynllunio Lleol na'r Arolygiaeth osod dulliau neu brosesau ymgysylltiad; y cwbl sydd ei angen yw eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar ymgynghoriad.

Canlyniadau

Fwy na dim mae'r broses ymgysylltiad yn adweithiol h.y. mae'n ymateb i ymgynghoriadau amrywiol, yn arwain at ddull 'gwrthwynebu yn erbyn cefnogi'. Yn ein hastudiaeth archwiliadol, ymddangosai fod y pwyslais ar 'wneud' ymgynghoriad yn unig yn hytrach nag edrych am awgrymiadau ystyrion trwy ddulliau amgen o ymgysylltu. Ymddengys bod ffocws ymgysylltiad ymhellach i lawr y broses (yn hytrach nag ar y cam strategaeth a ffefrir neu adnau); ac ar y cam hwn dim ond cyfle cyfyngedig sydd i ymgysylltu a darparu mewnbwn ystyrion ynghylch dewisiadau pwysig o leoliad a defnydd. Cyfyngir hyn ymhellach gan amserlenni (ar gyfer gweithgaredd ymgysylltu ac o fewn sgôp y gwaith hwn). Yng nghwmpawd yr astudiaeth hon, nid yw wedi bod yn bosibl i ganfod os a sut mae ymgysylltiad yn cysylltu, o leiaf ynghylch yr un darn o dir, oherwydd nid yw wedi bod yn bosibl i ddod o hyd i storfeydd hygyrch o ddogfennau ymgysylltiad; dylid cael archwiliad pellach i sefydlu a yw hyn yn gyfle coll fel rhan o ymgysylltiad cynnar neu'n ddiffyg gwybodaeth gyhoeddedig. Byddai hefyd o fudd, mewn gwaith ychwanegol, i nodi sut yr adroddwyd yn ôl i gyfranogwyr.

Yn ymarferol, ymddengys bod diffyg cysondeb, tryloywder a gwerthusiad o weithgareddau ymgysylltiad, a fawr ddim o gof sefydliadol ynghylch gwerth ymgysylltiad fel proses barhaus. Dylid cynnal ymchwiliad pellach ar yr ail bortread bychan yma er mwyn canfod beth yw'r *status quo* yng Nghymru heddiw.

Casgliad

Sut gyrhaeddod ni yma?

Yng Nghymru a mannau eraill, gall y tensiynau rhwng hawliau eiddo preifat, hybu budd y cyhoedd, a symud achos cyfranogaeth y cyhoedd yn ei flaen, fod yn achosi llawer o'r dadrithiad yn y system gynllunio⁴⁵ ac mae'n debygol, trwy wella cysondeb, tryloywder ac ymuno ag ymgysylltiad, y bydd yr holl agwedd tuag at gynllunio yn aeddfedu, ac o hyn ceir ymddiriedaeth ddyfnach.

Yn draddodiadol cynhwysir y cyhoedd yn seiliedig yn 'yr egwyddorion mwy haniaethol o ddemocratiaeth a chyfiawnder'⁴⁶, sy'n cyflwyno mwy o ansicrwydd yn y broses datblygu tir ac yn gwadu i unrhyw synnwyr o 'berchnogaeth' gyhoeddus (*ynghylch 'prynu i mewn' neu 'synnwyr o falchder dinesig'*) safle arbennig wrth y bwrdd trafod. Mae'r tensiynau hyn yn dal yn weladwy yng ngwaith cynllunio yng Nghymru, fel mae'n hastudiaeth archwiliadol yn awgrymu, ynghyd â'r hyn sy'n eglur yn yr adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru ar effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru⁴⁷ (gweler isod).

Yn fyd-eang, bu cynnydd yn y defnydd o offer is-gyfreithiol (e.e. adroddiadau technegol) ac uwch-gyfreithiol (e.e. refferenda a phleidleisiau / trafodaethau poblogaidd) er mwyn cefnogi atebolrwydd mewn gwneud penderfyniadau, er mwyn cryfhau grym democrataidd gwleidyddol dirprwyedig yn y degawdau diweddar⁴⁸; bellach mae'n gyffredin gweld adroddiadau technegol gan wyddonwyr a pheirianwyr yn cael eu defnyddio i gefnogi penderfyniadau gwleidyddol anodd, a throi at ddulliau o ymgysylltiad er mwyn darganfod ffyrdd allan o benderfyniadau dadleuol. Y broblem gyda hyn yw bod y mesurau hyn yn aml wedi eu cyflwyno ar hap yn hytrach na mewn ffordd gydlynol, gyda'r ddau berygl o anghysonderau gweithdrefnol yn digwydd mewn amser a lle, ac o redeg 'yn gyfochrog' â, yn hytrach na mewn modd cyflenwol gyda systemau atebolrwydd democrataidd presennol.

Mae gwyddonwyr gwleidyddol yn awgrymu ein bod ar drobwynt wrth ddiffinio'r llwybr ar gyfer atebolrwydd democrataidd, yn enwedig yn y DU ble mae gweinyddiaethau datganoledig yn mynd ar lwybrau gwahanol. Mae'n bwysig diffinio agwedd Cymru tuag at gefnogi atebolrwydd democrataidd ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ei thir a'i hadnoddau, ar gyfer unigolion a chymunedau'r presennol a'r dyfodol, oherwydd bydd hyn yn cryfhau dealltwriaeth ac ymddiriedaeth mewn cynllunio, yn ogystal â'r strwythurau gweinyddol ehangach, mewn gwlad sydd wedi rhoi tir a chynaliadwydd yn y lle blaen o ran gwneud polisiau.

Dylai ymgysylltiad â chymuned fod yn weithred wleidyddol oherwydd gall fod, ar y gorau, yn ffurf o gydweithio ystyrion rhwng gwladwriaeth / llywodraeth a'i dinasyddion (democratiaeth gyfranogol). Ar hyn o bryd, ymddengys ei fod ar wahân yn gynyddol o'r dimensiwn gwleidyddol o wneud penderfyniadau a gyflawnir gan aelodau etholedig (democratiaeth gynrychioladol). Yng Nghymru, fel yn y DU gyfan, (gweler Parsons a Rumbul, 2021) gallai hyn waethygu trwy amharodrwydd eang ymddangosiadol yr aelodau etholedig i ymgysylltu â thrigolion sy'n mynegi teimladau cryf ynghylch datblygiadau penodol, yn enwedig os ydy'r aelodau'n eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio.

Dim ond ychydig iawn o eithriadau nodedig sydd yn y byd ble cafwyd ymgais i ddod â democratiaeth gyfranogol a chynrychioladol at ei gilydd, ynghylch agweddau cyfyngedig gwneud penderfyniadau. Yr enghraifft fwyaf perthnasol mewn cynllunio yw'r Cynulladau Dinasyddion sy'n goruchwyllo defnydd tir a rheolaeth datblygu yng Nghanada⁴⁹. Efallai bydd yn rhaid cynnal gwaith ychwanegol i nodi enghreifftiau cadarnhaol trosglwyddadwy o'r achos hwn, ac achosion rhyngwladol eraill, sy'n ymddangos eu bod wedi lleihau neu waredu tensiynau'n gysylltiedig ag ymsuddo ymgysylltiad fel rhywbeth technegol o fewn ymarfer cynllunio, ac asesu pa nodweddion o'r enghreifftiau hynny a allai fod yn berthnasol i gyddestun Cymru gyda'r newid graddol lleiaf.

Yr agwedd Gymreig: heriau a chyfleoedd o'n blaenau

Yn ddiweddar cynhyrchwyd dwy ddogfen a all ddarparu sbring fwrdd i lunio'r system gynllunio ymhellach yng Nghymru, yn enwedig o ran ymgysylltiad.

Y cyntaf o'r dogfennau hyn yw adroddiad Archwilio Cymru ar 'Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru'. Mae'r adroddiad yn 'ystyried datblygiad awdurdodau cynllunio lleol wrth gyflenwi eu cyfrifoldebau newydd, a'r raddfa y maent yn gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy sydd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (tud.8). Mae eu prif ganlyniadau fel a ganlyn:

- Serch y gydnabyddiaeth o'r adnoddau cyfyngedig mae llywodraeth ar bob lefel yn delio â nhw, mae'r canlyniadau yn yr adroddiad yn ddamniol ynghylch ymgysylltiad.
- Mae'r cyhoedd yn disgrifio cynllunwyr fel pobl sy'n poeni fwy am geisiadau unigol nag *'annog a chefnogi creu cymunedau mwy bywiog a chynaliadwy'* (tud.23).
- Mae effeithiolrwydd ymgysylltiad yn cael ei gwestiynu er bod y cyhoedd yn dangos parodrwydd i gymryd rhan mewn penderfyniadau strategol ar gyfer eu hardal, yn gymaint â gyda chynlluniau cynefin a chreu cynefinoedd.
- Ystyrir bod cyfathrebu yn wael, fel mae'r wybodaeth, ynghylch beth mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei wneud: 'drosodd a thro dywedodd ymatebwyr i'n harolwg eu bod yn ystyried na ellid cael gafael ar y wybodaeth ac nad oedd yn ddefnyddiol' (tud.9).

Ymddengys bod yr argymhellion yn ddilys ac yn werth mynd ar eu hôl ar unwaith ond byddai'n anodd i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i gynnal arolwg heb ganllaw sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r argymhelliad i ddefnyddio 'Cynlluniau Cynefin fel modd i ymgysylltu ac ymrwymo cymunedau a dinasyddion mewn dewisiadau cynllunio a gwneud penderfyniadau' (tud.12) yn iawn, ond y perygl yw bod canolbwytio ar ymgysylltiad ar y lefel hon yn unig yn gallu rhwystro cysylltu ymgysylltiad â lefelau amrywiol, er mwyn cefnogi potensial y cymunedau i lywio prosesau gofodol cadarnhaol ar raddfeydd amrywiol (o greu strategaeth i greu cynefinoedd trwy gynlluniau cynefin). Mae hyn yn enwedig o bwysig ers cyflwyno'r 'lefel' newydd o gynllunio strategol ers comisiynu'r adroddiad hwn. (h.y. Sut mae ymgysylltiad yn mynd i ddod i ben mewn gwneud penderfyniadau a wneir ar lefel heb gynrychioliadau etholedig? A sut mae ymgysylltiad ar y lefel honno yn cyd-fynd ag ymgysylltiad a drefnir gan lefelau llywodraethol eraill sy'n effeithio ar yr un maes?)

Mae'n rhaid i'r canlyniadau fwydo i mewn i ystyriaeth o weithdrefnau ymgysylltiad ar gyfer y system gynllunio, yn bennaf ar lefel Llywodraeth Cymru ac yn ail trwy Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Mae canllawiau pwrpasol, sy'n ymwybodol o ofod, ar ymgysylltiad cynllunio gan Lywodraeth Cymru yn holl bwysig i gefnogi prosesau ymgysylltu sy'n barhaus, yn gydgyssylltiedig, gyda llawer o chwaraewyr ac yn ryng-sgalar.

Yr ail ddogfen berthnasol yw *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf)* ynghyd ag adroddiad dilynol diweddar gan y Comisiynydd ar y datblygiadau i'w gweithredu. Mae sgôp y Ddeddf yn eang ac yn plannu'n effeithiol Uchelgeisiau Datblygiad Cynaliadwy Y Cenhedloedd Unedig o fewn gwaith y llywodraeth yng Nghymru.

Yn berthnasol iawn yng nghyd-destun y prosiect ymchwil hwn yw '*egwyddor datblygiad cynaliadwy*' (Rhan 2, 5) y Ddeddf a ddylai danategu gwaith pob rhan o lywodraeth, ar bob lefel, yng Nghymru. Yn benodol, rhan (c) sy'n ail-fframio'n sylweddol yr angen bod ymgysylltiad yn cynnwys unrhywun '*â diddordeb mewn cyflawni uchelgeisiau llesiant*' gan ddiystyru eu rôl yn y broses, ac i sicrhau amrywiaeth yn y rhai a ymgysylltir. Ymddengys bod hyn yn cyfeirio at bwysigrwydd cynnwys 'cymunedau lleol' a 'chymunedau o ddiddordeb' ochr yn ochr â 'rhanddalwyr'. Bydd sefydlu diffiniadau eglur i'r chwaraewyr hyn yn paratoi'r ffordd i gyflwyno dulliau arloesol sy'n berthnasol i geometrau amrywiol i weddu i natur a chymhlethdod pob sefyllfa ac arena lleol.

Cydnabuwyd bod plannu uchelgeisiau'r Ddeddf o fewn sefydliadau sefydledig yn heriol ac yn cymryd llawer o amser ac ymdrech⁵⁰. Awgrymir bod y Ddeddf yn nodi moment ble mae Cymru'n symud o ddatganoli i Gymru i ddatganoli o fewn Cymru ac yn allweddol y bydd y gallu i ddatganoli pwerau ymhellach, fel bod pob tasg gan y llywodraeth wedi ei dylunio, ei chyflenwi a'i gorfodi ar y lefel isaf posibl er mwyn bod yn effeithiol. Gall hyn awgrymu bod yn rhaid ailystyried y cwestiwn: Pa ymgysylltiad, i bwy, ar ba gyfnod? Ac felly'n caniatáu geometrau amrywiol sy'n 'gweddu' yn lleol ac yn pontio'n effeithiol rhwng creu strategaeth a chreu cynefin.

Serch amlygu cynllunio, creu cynefinoedd, trafndiaeth a thai fel meysydd y bydd y Comisiynydd yn canolbwyntio arnynt, mae'r sylw yn dal i fod ar feysydd gwasanaethau ac offer polisi, yn hytrach na phrosesau sy'n tanategu datblygiad mewn cynllunio a meysydd perthnasol – a sylwedd y rhain. Ymddengys felly bod sgôp i ddatblygu uchelgeisiau'r Ddeddf yn nhermau gofodol.

Mae'r Ddeddf yn darparu'r holl danategu cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer adrannau gwleidyddol a gweinyddol Llywodraeth Cymru i gynhyrchu polisi, canllawiau, datganiadau'r Gweinidogion, fframweithiau, amserlenni a chylch gorchwyl i esbonio sut mae egwyddor datblygu cynaliadwy yn berthnasol i gynllunio, yn ogystal â pholisi a deddfwriaeth cynllunio bresennol, ac felly byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach ar ymgysylltiad mewn cynllunio.

Mae'r Adroddiad Archwilio a'r Ddeddf, fel ei gilydd, yn darparu cyfleoedd i'n gwlad ymwthio i ddatblygu dull Cymreig unigryw o ymgysylltu, ac o bosib, dull sy'n llwyddo i osgoi'r peryglon a welir mewn mannau eraill. Tra gellir gweld cynllunio cymdogaeth yn Lloegr fel cynllunio sy'n tueddu at agwedd boblyddiaeth, a gweld cynllunio cymunedol yn Yr Alban fel ymarfer gynhwysfawr gostus, gall y sefyllfa yng Nghymru alluogi cysylltiad agosach rhwng

safbwyntiau'r cyhoedd, gwneud penderfyniadau a chyflenwi gwasanaethau, a darparu cyfle i ddod ag elfennau democratiaeth gyfranogol a chynrychioladol at ei gilydd, o fewn y broses gynllunio, trwy raglen eglur, yn cynnwys gweithredu hir a byr dymor, er mwyn creu hyn, a gallai hyn gynrychioli'r agenda cynllunio cynefin i gyd-fynd â chreu cynefinoedd.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru wedi cyhoeddi Siarter Creu Cynefinoedd Cymru a gwahoddir sefydliadau yng Nghymru i ymrwmo i'w hegwyddorion. Mae un o'r chwe egwyddor yn cyfeirio'n benodol at rôl pobl a chymunedau; y dylent gymryd rhan yn natblygiad yr holl gynigion, ac y rhoddir ystyriaeth i'w anghenion, uchelgeisiau, iechyd a llesiant o'r cychwyn⁵¹. Dim ond i raddau y delir â hyn yn yr agenda creu cynefinoedd ar hyn o bryd. Gellid datblygu cynllunio cynefin ymhellach i gysylltu ymgysylltiad dinasyddion a chymunedau ar draws pob lefel gynrychioladol a gweinyddol mewn cynllunio yng Nghymru; wrth wneud hyn ceir cryfhau ymddiriedaeth a dealltwriaeth yn y system gynllunio trwy brosesau a werthfawrogi, yn ogystal â'u canlyniadau materol gwerthfawr.

Ystyriaeth olaf ond pwysig yw sut mae uchelgeisiau'r iaith Gymraeg yn cael eu lle a'u hintegreiddio mewn creu cynefinoedd a'r agenda creu cynefinoedd ehangach⁵².

Ag ystyried popeth, ymddengys bod y ffordd ar agor i alluogi newid diwylliannol effeithiol ynghylch ymgysylltiad mewn cynllunio a all gynnwys: adolygiad o'r derminoleg a ddefnyddir; ymdrech i wnïo'r lleoedd sydd gennym ar gyfer ymgysylltiad i broses gydlynol sy'n cysylltu techneg a gwleidyddyddiaeth yn effeithiol, a chynhyrchu canllawiau eglur i bob defnyddiwr posibl; cyfresi pwrpasol cyson i alluogi a chefnogi defnydd effeithiol o'r system newydd. Fodd bynnag, mae angen cael mwy o feddwl gofodol i ehangu ac eglurhau y nodweddion cynllunio unigryw o ymgysylltiad sy'n effeithio ar y tir a'i ddefnydd, ac i ddiffinio'r gwahaniaethau a'r cysylltiadau rhwng yr hyn sy'n agenda hanfodol i gynllunio cynefinoedd (continwrm mewn amser a lle) a'r agenda creu cynefinoedd sy'n datblygu (dwfn a lleol) ble mae gwahanol asiantaethau yn chwarae rôl.

Pennod 2: Dyluniad a chanlyniadau'r ymchwil

Yn y bennod hon ceir crynodeb o'r dull a ddetholwyd a'r canlyniadau allweddol yn y prif ymchwil a ymgwymerwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru yn ystod y prosiect. Bydd y canlyniadau yn yr adran hon yn helpu llunio dadansoddiad data a hysbysu canlyniadau ac argymhellion hyfyw tymor byr, canolig a hir.

Dyluniad yr ymchwil

Dyluniwyd yr ymchwil o amgylch tri chwestiwn allweddol:

- i). Beth yw ymgysylltiad?
- ii). Gwerth beth i bwy?
- iii). Sut i wneud i ymgysylltiad ystyrlon ddigwydd?

Roedd y cwestiynau hyn wedi helpu tywys y llenyddiaeth desg a'r adolygiad polisi (a gyflwynwyd yn y bennod flaenorol) a'r camau gwaith maes dilynol. Trefnwyd y gwaith maes mewn dau gyfnod olynol: Cyfnod 1 tanysgrifio holiadur sgopio a chyfarfodydd grŵp ffocws cyfranogwyr dethol; Cyfnod 2 cyfweiliadau wedi eu strwythuro'n rhannol ac ymchwil astudiaeth achos.

Tabl 2: Dyluniad yr Ymchwil

Cwestiwn Ymchwil	Adolygiad llenyddiaeth, polisi a deddfwriaeth		Dulliau Gwaith Maes	Cyfnod
	Llenyddiaeth (Academaidd a phroffesiynol)	Polisi a Deddfwriaeth		
Beth yw ymgysylltiad?	Adolygiad o ffynonellau dethol -> byddai diffiniadau eglurach o fudd.	Adolygiad o gynllunio -> defnyddir gwahanol dermau yn gyfnewidiol yn ddi-dor (portread bychan 1 – gweler tudalen 24) mewn gwahanol lefelau o'r system gynllunio.	Holiadur sgopio -> + Grŵp Ffocws ->	1
Gwerth beth i bwy?	Adolygiad o ffynonellau dethol -> Gormod ynghylch beth sy'n creu gwerth yn y broses ymgysylltu	Adolygiad polisi -> dadansoddiad o sut mae ymgysylltiad yn cael ei weld a'i drin mewn un proses penodol (portread bychan 2 - gweler tudalen 25)	Grŵp Ffocws -> + Cyfweiliadau -> + Astudiaethau achos ->	1 a 2
Sut i wneud i ymgysylltiad ystyrlon ddigwydd?	Adolygiad o ffynonellau dethol -> Gormod ynghylch beth sy'n cefnogi ymgysylltiad cadarnhaol	Dadansoddiad o Bolisi Beirniadol a Deddfwriaeth -> heriau o'n blaen + newid diwylliannol (gweler tudalen 28)	Cyfweiliadau -> + Astudiaethau achos ->	2

Dethol hysbysydd

Nodwyd yr hysbyswyr a'u dethol o nifer o ffynonellau oedd yn cynnwys Llywodraeth Cymru a rhestrau cysylltiadau rhanddalwyr Cymorth Cynllunio Cymru, er mwyn cynnwys cynrychiolwyr o:

1. Awdurdodau Cynllunio Lleol
2. Cynrychiolwyr o'r diwydiant datblygu.
3. Ystod eang o sefydliadau'r drydedd sector gyda diddordeb yn yr amgylchedd adeiledig (cymunedau o ddiddordeb).
4. Cynghorau Cymuned a Thref (cymunedau lleol).
5. Aelodau'r cyhoedd sydd wedi mynd at Gymorth Cynllunio Cymru am gyngor yn y gorffennol.

Hefyd hysbysebwyd y cyfle i gymryd rhan yn yr ymchwil ar wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymorth Cynllunio Cymru. Ceir rhestr lawn o'r sefydliadau a gymerodd ran yn yr ymchwil yn Atodiad A.

Cyfnod 1: Arolwg sgopio a grŵp ffocws

Arolwg Sgopio

Dyluniwyd holiadur gyda'r amcan o archwilio safbwyntiau cynnar ar werth ymgysylltiad gan yr hysbyswyr sy'n chwarae gwahanol rannau yn y system gynllunio yng Nghymru.

Strwythurwyd yr holiadur fel a ganlyn:

1. Cyfres o gwestiynau agored yn gwahodd yr hysbyswyr i rannu eu profiadau o broses ymgysylltiad y buont yn rhan ohoni, eu rôl, y pethau cadarnhaol a negyddol, a beth fyddai wedi gwella'r ymarfer.
2. Cyfres o gwestiynau ar bynciau sy'n dod i'r amlwg o'r llenyddiaeth a oedd yn cyseinio â phrofiadau'r ymchwilwyr o ymarfer yng Nghymru. Roedd y cwestiynau'n gwahodd y cyfranogwyr i raddio pa mor gryf roeddent yn cytuno / anghytuno ar raddfa Likert 5-pwynt, gyda nifer o ddatganiadau'n berthynol i'r pynciau canlynol:
 - a. Manteision ymgysylltiad da
 - b. Agweddau negyddol / anfanteision ymgysylltiad
 - c. Ardaloedd ble gellir gwella ymarfer ymgysylltiad.

Dilynwyd pob cwestiwn i'w raddio gan gwestiwn agored oedd yn gwahodd hysbyswyr i gynnig eu safbwyntiau eu hunain ar y pwnc.

Roedd y canlyniadau o'r arolwg wedi hysbysu dyluniad y grŵp ffocws a dethol yr achosion ar gyfer cyfweiliadau olynol yng Nghyfnod 2. Ceir copi o'r templad holiadur llawn yn Atodiad C.

Grŵp Ffocws

Cynhaliwyd grŵp ffocws rhanddalwyr i ddod â rhanddalwyr allweddol at ei gilydd i adolygu'r canlyniadau o'r holiadur ac ystyried argymhellion posibl i lunio ymarfer ymgysylltiad y dyfodol yn well ar draws Cymru. Fe'i gwnaed yn eglur y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei anfon at yr holl gyfranogwyr a'i ystyried gan adran Gynllunio Llywodraeth Cymru.

Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, daeth y grŵp ffocws at ei gilydd mewn un cyfarfod ar-lein oedd yn cynnwys yr holl gyfranogwyr oedd wedi cytuno. Dyluniwyd y cyfarfod yn bennaf i fod yn drafodaeth agored, a oedd, oherwydd nifer y cyfranogwyr, wedi ei strwythuro o amgylch y cwestiynau canlynol:

1. Ddylem ni fod yn gwneud hyn?
2. Sut mae ymgysylltiad ystyrion yn edrych?
3. Beth ddylai ddigwydd i wneud i ymgysylltiad ystyrion ddigwydd?

Y cwestiwn sylfaenol a archwiliwyd yn y grŵp ffocws oedd 'Beth sy'n rhaid ei wneud, gan bwy, a sut i sicrhau bod ymgysylltiad yn y dyfodol, ar gynlluniau a phrosiectau, yn cael ei wneud, a'i fod o ansawdd uchel er mwyn cyflawni'r safonau a gytunwyd arnynt?'

Cyfnod 2: Cyfweiliadau a datblygiad astudiaeth achos

Cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau wedi eu strwythuro'n rhannol trwy ddefnyddio apps cyfathrebu ar-lein (Skype a Zoom) i archwilio profiadau ymgysylltiad yng Nghymru ac astudiaethau achos yn fwy dwfn; ac i nodi'r heriau a'r ymarfer gorau o fewn polisi cynllunio, canllawiau cynllunio atodol, paratoi Cynlluniau Cynefin a datblygiad rheolaeth, i weddu i agenda Cynllunio Cynefin. Deliwyd â chreu cynefinoedd pan oedd yn berthnasol. Detholwyd y rhai a gyfwelwyd, ac a oedd yn barod i gymryd rhan ychwanegol, i sicrhau cynrychiolaeth o dair agwedd wahanol (awdurdodau cynllunio lleol, sector breifat / datblygwyr a chymunedau) a phan fo'n bosibl, i gynrychioli lefelau gwahanol o weithgareddau ymgysylltu (dyluniad cynllun trwy reolaeth datblygu, paratoi CDLL a gwaith ar Gynlluniau Cynefin).

Defnyddiwyd canlyniadau'r trafodaethau i ddatblygu astudiaethau achos (isod) ac i hysbysu'r dadansoddiad ym Mhennod 3.

Moeseg a diogelu data

Ystyriwyd preifatrwydd unigolion a chadw data personol ar bob cam o'r ymchwil yng nghydestun y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol:

1. Casglwyd data personol a'i gadw ar wahân i ymatebion i'r holiadur.
2. Paratowyd datganiad preifatrwydd llawn a gofynnwyd am ganiatâd uniongyrchol i storio'r data.

Yn ogystal â'r uchod, mynegodd sawl cyfranogwr ddymuniad i fod yn anhysbys yn yr adroddiad, ac felly cadwyd enwau, swyddi a sefydliadau unigolion yn anhysbys a chyflwynwyd gwybodaeth ganddynt mewn modd na ellid eu hadnabod.

Dadansoddiad y Data

Mae'n gysur i ddweud bod y gwaith maes wedi cydsynio'n fras â'r canlyniadau o'n hadolygiad: mae cytundeb a chefnogaeth eang dros egwyddorion ymgysylltiad mewn cynllunio. Fodd bynnag, mae hefyd fewnwelediadau newydd sy'n haeddu ymchwiliad pellach ar sut y cyflawnir yr egwyddorion hyn trwy ymarfer cynllunio Cymreig.

Amlygodd yr adolygiad llenyddiaeth a pholisi sawl thema:

- T1. **Eglurder a hygyrchedd** - gall canfod gwerth ymgysylltiad fod yn anodd ac fe'i bernir yn wahanol gan chwaraewyr gwahanol yn y system gynllunio. Mae'r derminoleg yn gyfnewidiol ac wedi ei ddiffinio'n wael. Gall eglurder mewn terminoleg a phrosesau fynd yn bell tuag at gefnogi ymgysylltiad da, felly mae rhannu dealltwriaeth o ganlyniadau ymgysylltiad yn angenrheidiol.
- T2. **Ymgysylltiad fel proses barhaus** - mae ymgysylltiad yn ddigyswllt dros amser a hefyd ar lefelau gwahanol y system gynllunio. Mae'n debygol y byddai ymgysylltiad cynnar â mwy o werth, fel y byddai modd cysylltiedig o weld ymgysylltiad fel continwwm.
- T3. **Ymgysylltiad fel gweithgaredd technegol a gwleidyddol** - gellir gweld ymgysylltiad fel cyfres o gamau a all rwystro perthynas ystyrlon rhwng democratiaeth gynrychioliadol a chyfranogaeth uniongyrchol.
- T4. **Tryloywder mewn gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd canlyniadau** - nid yw'n eglur yn aml i'r holl randdalwyr beth yw'r effaith posibl y gall ymgysylltiad gael ar ganlyniadau penderfyniadau cynllunio.
- T5. **Sicrwydd y broses** - mae'r dymuniad i gyflawni sicrwydd proses (os nad y canlyniadau) o fewn y broses gynllunio yn werth mynd ar ei ôl ar gyfer yr holl randdalwyr.
- T6. **Cost ac ecwiti** - Gall y defnydd effeithlon o adnoddau fod yn groes i degwch, yn enwedig ynghylch y rhai sy'n anodd eu cyrraedd. Dylid ystyried geometrau amrywiol o ymgysylltiad er mwyn cydbwysu costau a chynyddu mynediad cydradd i ymgysylltiad.

Roedd y data ansoddol o waith maes wedi ei grynhofi i faterion, neu 'godau', a'u cynnwys o fewn y themâu uchod i helpu trefnu a dadansoddi'r canlyniadau gyda'r bwriad o strwythuro argymhellion. Cyflwynir canlyniadau'r ymarfer mewn chwe adran ym Mhennod 3, gan gyflwyno dadansoddiad data, a defnyddio astudiaethau achos i ddatblygu esiamplau pan fo angen. Cyn symud ymlaen at y dadansoddiad, cyflwynir crynodeb o'r data a gasglwyd yng Nghyfnod 1 a Chyfnod 2, yn eu trefn isod.

Cyfnod 1: Canlyniadau'r holiadur

Trosolwg

Dechreuodd 95 hysbyswr yr arolwg a chwblhaodd 84 yr arolwg yn llawn. Gwelir dosraniad yr hysbyswyr yn ôl eu sector yn Siart 1. Roedd cyfran fwy o hysbyswyr o Gyngorau Cymuned oherwydd mai Cyngorau Cymuned yw prif gynulleidfa Cymorth Cynllunio Cymru.

Roedd perswadio cynulleidfaoedd targed i gwblhau'r arolwg yn heriol; dim ond 6.7% o'r rhai a wahoddwyd a gwblhaodd yr arolwg. Roedd rhai sectorau'n fwy amharod i gymryd rhan, Datblygwyr / ymgynghorwyr yn arbennig, a rhai ohonynt yn dweud nad oedd ganddynt ddigon o amser i gymryd rhan. Ar y cyfan, mae'r nifer o ymatebion yn golygu na ellir cymryd y canlyniadau fel rhai diffiniol, ond mae cyfraddau ymateb isel yn cynrychioli canlyniadau cryf ynddynt eu hunain, ac o bosibl yn arwydd o'r flaenoriaeth isel a roddir i ymgysylltiad, yn enwedig gan rai grwpiau o randdalwyr. Serch y diffyg nifer, roedd y tueddiadau cryfach yn darparu mewnwelediad cychwynnol dilys i'r pwnc.


Profiadau ymgysylltiad

Rhannodd 85 cyfranogwr eu profiadau o weithgareddau ymgysylltu arwahanol. Rhoddir sampl o'r ymatebion a chrynodeb o'r materion a godwyd fel a ganlyn:

Tabl 3: Sampl o'r materion o godwyd yn yr arolwg

Sector yn hysbysu	Esiamlau o brofiadau
Cyngor Cymuned	Cyngor cymuned bach yn arwain yn y gymuned wrth ddelio â rhwystredigaeth adnoddau cyfyngedig
Datblygwr / Ymgynghorwr	Roedd ymgysylltiad rhyngweithiol cyn yr ymgynghoriad cyn-cais, gan ddefnyddio offer ar-lein, yn fanteisiol ond yn gyfyngedig, o'i gymharu â gweithgaredd wyneb yn wyneb.
Datblygwr / Ymgynghorwr	'Absenoldeb', ac anhawster mewn sicrhau digon o fanylion gan gyfranogwyr mewn digwyddiadau i randdalwyr.
Awdurdod Cynllunio Lleol	Mae gwaith ymgysylltu rhyngweithiol yn dod â chanlyniadau cadarnhaol ac yn gwella'r berthynas gyda'r gymuned ond mae'n heriol i gyflenwi ar wahanol lefelau.
Grŵp Cymuned	Roedd cyflenwi gweithgaredd ymgysylltu yn ddysgu gwerthfawr ac yn ddatblygiad i'r grŵp ond roeddent yn ei gweld yn anodd cyrraedd cynulleidfa gynrychioliadol.

Siart 1: Hysbyswyr yr holiadur yn ôl eu sector




Defnyddiwyd pob ymateb i'r cwestiwn er mwyn dethol pobl i gael eu cyfweld, ac ar gyfer datblygu astudiaeth achos; ond dylid nodi mai dim ond 35% o'r cyfranogwyr a gytunodd i gael eu gofyn i gymryd rhan ymhellach.

Buddiannau / manteision ymgysylltiad da

Ffig. 7: Buddion / manteision ymgysylltiad da – sgoriau cyfartalog yr holl ymatebwyr


Gall ymgysylltiad cymunedol da...

- Gwella ansawdd / natur cyflawni y cynllun neu'r prosiect terfynol.
- Arbed adnoddau ar y cyfan o 'ddiwrnod 1' i bawb.
- Arbed amser ar y cyfan o 'ddiwrnod 1' i'r cynllun neu'r prosiect terfynol.
- Helpu sicrhau cytundeb y gymuned i gynllun neu brosiect.
- Helpu sicrhau cytundeb y gymuned i gynllun.
- Cyflwyno gwybodaeth gymunedol.
- Gyflwyno syniadau, pryderon a dyheadau cymunedol.



Mae'r canlyniadau'n enghreifftio cytundeb eang ar fuddiannau ymgysylltiad, ar draws yr holl sectorau, er efallai'n llai o ran cost (adnoddau) ac amser. Roedd cytundeb yn gryfach ymysg rhanddalwyr ynghylch y syniad bod ymgysylltiad yn elwa'r broses ddatblygu trwy gyflwyno gwybodaeth a hysbysiad cymunedol, yn ogystal ag uchelgeisiau, syniadau a phryderon.

Ffig. 8: Amrywiaethau nodedig o fewn y grwpiau – Datblygwr / Ymgynghorydd yn erbyn yr Awdurdod Cynllunio Lleol



Teimlai'r ACLL bod gwerth i ymgysylltiad wrth arbed amser ac adnoddau o fewn y broses ddatblygu. Fodd bynnag, mae hyn yn cyferbynnu â safbwynt datblygwyr ac ymgynghorwyr a oedd yn llai tebygol o gytuno â'r syniad hwn. Syndod efallai yw bod datblygwyr yn fwy

cadarnhaol ynghylch ansawdd canlyniad, dealltwriaeth o gynllunio a chyfraniadau'r gymuned o wybodaeth a syniadau.


Manteision / Buddion / Sylwadau Eraill (holl ymatebwyr):

Darperir crynodeb isod o sylwadau eraill ar fuddion ymgysylltiad fel y cafwyd fel adborth gan gyfranogwyr (wedi eu graddio gan nifer o ymatebion tebyg):

- Gorau po gyntaf y dechreuir ar ymgysylltiad – hyd yn oed cyn yr ymgynghoriad cyn-cais a sefydlu canlyniadau'r ymarferion ymgysylltiad o'r cychwyn (7).
- Mae'n maethu perchnogaeth / cyfrifoldeb cymunedol ac yn lleihau'r ofn o ddatblygu (5).
- Cyfle i nodi safbwyntiau ehangach y rhanddalwyr tu hwnt i'r mater cyfredol (3).
- Mesur blaenoriaethau, ofnau a hoffterau presennol er mwyn teilwra darpariaeth (3).
- Rhaid i bobl ddeall pwysigrwydd ymgysylltiad cynnar ar CDLL / strategaeth (3).
- Byddai canllaw ar gynnal arolygon cymuned o gymorth mawr (2).
- Gall fod yn anodd mesur a yw amser ac adnoddau wedi eu harbed (2).
- Angen dealltwriaeth eglurach o'r gwahaniaeth rhwng gwybodaeth gymunedol ac ymgysylltiad (2).
- Dylid cydnabod a chymryd sylw o gyfyngiadau amser (2).

Anfanteision ymgysylltiad


Fig. 9: Anfasnteision ymgysylltiad – sgoriau cyfartalog yr holl ymatebwyr



Yn gyffredinol, cafwyd y lefel lleiaf o gytundeb ar y datganiadau negyddol, a gwrthodwyd 50% ohonynt ar draws yr holl grwpiau. Mae cytundeb ar yr agweddau cadarnhaol yn fwy o lawer nag ar agweddau negyddol ymgysylltiad; y cytundeb cryfaf oedd bod blinder gydag ymateb i ymgynghoriadau lluosog, nad oedd yn ymddangos eu bod yn gysylltiedig, ddim yn arwain at newid, nac yn darparu adborth i'r cyfranogwyr.

Yr amrywiaethau mwyaf diddorol rhwng y sectorau oedd rhwng grwpiau cymunedol a chynghorau cymuned; roedd grwpiau cymunedol yn llai awyddus i gytuno â'r datganiadau a roddwyd ar agweddau negyddol ymgysylltiad nag oedd y cynghorau cymuned, gyda llawer o wahaniaeth mewn safbwyntiau ar draws yr ymatebion:

Ffig. 10: Cyngor Cymuned yn erbyn Grŵp Cymuned



Yn fras, mae'r cytundeb cryfach ar y datganiadau negyddol yn nodi bod cynghorau cymuned efallai'n fwy synicaidd am y broses. Gan eu bod yn ymgynghoreion efallai bod ganddynt lawer mwy o brofiad o ymateb i faterion cynllunio. Fodd bynnag, gall natur a gwreiddiau grwpiau cymunedol hefyd fod yn berthnasol; efallai iddynt gael eu ffurfio ar gyfer diben penodol rhyngweithiol. Yr hyn nad yw'r canlyniadau'n archwilio yw lefel dealltwriaeth natur a sgôp ymgysylltiad yn y system gynllunio, a all fod yn ffactor sy'n dylanwadu ar gryfder barn. Er enghraifft, mae pobl dan hyfforddiant gyda Cymorth Cynllunio Cymru o fewn Cynghorau Cymuned a Thref yn awgrymu'n gyson eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i ddylanwadu'n gynyddol ar ôl cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi Cymorth Cynllunio Cymru. Ar y cyfan roedd grwpiau cymunedol yn anghytuno'n gryf â'r datganiad nad oedd pobl yn deall digon i gyfrannu'n ddefnyddiol.

Fodd bynnag, roedd y ddau grŵp yn cytuno i anghytuno ei bod yn amhosibl cael consensws trwy ymgysylltiad, a bod safbwyntiau'r gymuned yn blwyfol neu'n hunanol. Anghytunodd grwpiau cymunedol â'r awgrym na ddylai safbwyntiau'r gymuned gael blaenoriaeth dros uchelgeisiau ehangach, yn wahanol i Gynghorau Cymuned a Thref, gan nodi bod yn rhaid cael dealltwriaeth wahanol o 'gymuned' yn lleol er mwyn dylunio prosesau ymgysylltiad effeithiol.

Anfanteision / Sylwadau Eraill (grŵp cyfan):

- Ceir mwyafrif tawel sydd ddim yn ymgysylltu (4).
- Mae ymgysylltu â phobl all-lein (rhywsut), yn enwedig yn ystod y pandemig yn hanfodol (4).
- Gall y derminoleg a ddefnyddir fod yn eglurach (3).
- Ffactorau cost ac amser (3).
- Nid yw cymunedau yn gwybod sut i ymgysylltu'n llawn; dylai timau cynllunio helpu (2).
- Mae pobl yn cael eu dadurthio pan fo pobl yn gwneud yr un pethau heb newid; mae gormod o ymgynghoriadau (2).
- Mae disgwyliadau ffals yn arwain at siomedigaeth (2).
- Safbwyntiau wedi eu ffurfio ar wybodaeth anghywir / ail law nid ffeithiau (2).


Gwella ymarfer ymgysylltu

Fig 11: Gwella ymarfer ymgysylltu – sgoriau cyfartalog yr holl ymatebwyr

Sgoriau cyfartalog yr holl ymatebwyr...

Cynhyrchu a rhannu adroddiad terfynol i ddangos bod cyfraniadau wedi eu defnyddio.
Cynnig opsiynau dilys (neu esbonio pam nad yw eraill yn bosibl).
Cynnig mwy nag un neu ddau o gyfleoedd i gyfrannu.
Defnyddio ystod o ddulliau ac amserau sy'n galluogi pawb i gyfrannu.
Sicrhau nad yw'r 'bobl arferol' yn dominyddu'r broses.
Sicrhau cysylltu ac ymgysylltu â'r holl grwpiau ac unigolion allweddol.
Rhannu gwybodaeth sy'n ddealladwy i bobl nad ydynt yn arbenigwyr.
Gwneud yn eglur beth ellir a na ellir ei newid o ganlyniad i ymgysylltiad.
Dechrau'n gynnar, ar 'ddiwrnod 1'; nid pan fo'r cynllun wedi ei ddrafftio, neu'r prosiect wedi ei ddylunio.

Anghytuno'n gruf Anghytuno Niwtral Cytuno Cytuno'n gruf



Roedd y cytundeb cryfaf ymysg yr holl grwpiau ar ddatganiadau yn ymwneud â chyfleoedd i wella ymarfer. Yr awgrymiadau cryfaf a gytunwyd arnynt oedd defnyddio ystod (ehangach) o ddulliau, i ymrwymo pob grŵp posibl ac i gynhyrchu a rhannu adroddiad terfynol i ddangos sut y defnyddiwyd y cyfraniadau. Ar draws yr ymatebion, roedd y grwpiau cymunedol yn cytuno'n gryfach â'r egwyddorion hyn na'r datblygwyr a'r ymgynghorwyr, ac eithrio un.


Roedd y datblygwyr a'r ymgynghorwyr yn teimlo'n gryfach y dylai ymgysylltiad sicrhau nad yw'r rhai sydd dan amheuaeth arferol yn dominyddu'r broses, ac roedd y grwpiau cymunedol yn cytuno â hyn.

Roedd cytundeb eang bod yr holl egwyddorion a awgrymwyd yn bwysig er mwyn cefnogi ymgysylltiad effeithiol.

Ffig 12: Gwella ymarfer ymgysylltiad – Datblygwyr / Ymgynghorwyr yn erbyn grwpiau cymuned

Cynhyrchu a rhannu adroddiad terfynol i ddangos bod cyfraniadau wedi eu defnyddio.
Cynnig opsiynau dilys (neu esbonio pam nad yw eraill yn bosibl).
Cynnig mwy nag un neu ddau o gyfleoedd i gyfrannu.
Defnyddio ystod o ddulliau ac amserau sy'n galluogi pawb i gyfrannu.
Sicrhau nad yw'r 'bobl arferol' yn dominyddu'r broses.
Sicrhau cysylltu ac ymgysylltu â'r holl grwpiau ac unigolion allweddol.
Rhannu gwybodaeth sy'n ddealladwy i bobl nad ydynt yn arbenigwyr.
Gwneud yn eglur beth ellir a na ellir ei newid o ganlyniad i ymgysylltiad.
Dechrau'n gynnar, ar 'ddiwrnod 1'; nid pan fo'r cynllun wedi ei ddrafftio, neu'r prosiect wedi ei ddylunio.

■ Datblygwyr / Ymgynghorwyr ■ Grwp Cymuned



Gwelliannau Eraill a Awgrymwyd / Sylwadau (holl ymatebwyr):

- Defnyddio cymysgedd o dechnegau, ar-lein ac all-lein. Amseru'r digwyddiadau i gynnwys pobl mewn gwaith ac yn ddi-waith (11).
- Adroddiad terfynol sy'n eglur a hawdd ei ddeall (3).
- Addasu i'r pandemig ond ei gadw'n ystyrlon (3).
- Bod yn eglur ynghylch yr hyn sy'n cael ei gyflenwi a pham, er mwyn peidio â rhoi addewidion ffug (3).
- Cael mwy o gydbwysedd trwy ymgysylltu â'r rhai sy'n anodd eu cyrraedd (2)
- Ymrwymo rhanddalwyr mewn ymgysylltiad e.e. eu cymryd i safleoedd / eu hymrwymo mewn prosiectau i ddangos yr hyn sy'n ceisio cael ei gyflawni (2)
- Defnyddio'r dulliau cywir a gofyn y cwestiynau cywir ar yr adeg a'r lle cywir (2).
- Mae cynghorau cymuned yn wirfoddol a heb yr adnoddau i gael gafael ar nifer fawr o drigolion.
- Mae gwir ymgysylltiad yn golygu proses gynllunio haws a chyflymach ac yn golygu llai o wrthwynebiadau gan fod llawer o'r materion wedi eu datrys cyn cyflwyno'r cais cynllunio.
- Peidiwch â'i chymryd yn ganiataol na fydd pobl yn deall.

Cyfnod 1: Canlyniadau grŵp ffocws

O ganlyniad i'r logisteg yn gysylltiedig â'r pandemig, a maint y sampl a ellid ei gyrraedd, casglwyd data'r grŵp ffocws trwy un cyfarfod ar-lein am ddwy awr, gyda 21 cyfranogwr yno a phob un wedi cwblhau'r holiadur. Roedd canran fwy o bobl broffesiynol yn y digwyddiad nag yn yr arolwg, yn cynnwys Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, RTPI, Cymdeithas Penseiri Brenhinol Cymru, Ffederasiwn Adeiladu Tai a Senedd Ieuenctid.

Roedd canran hysbyswyr o'r sector ddatblygu a gymerodd ran yn y grŵp ffocws yn llawer uwch na'r rhai oedd wedi ymgysylltu yn yr holiadur; efallai bod hyn yn dangos ffafriaeth tuag at y math hwn o ymgysylltiad ymysg y sector yna, neu i'r gwrthwyneb, yn dangos llai o hoffter gan grwpiau cymunedol a Chynghorau Cymuned a Thref i gymryd rhan mewn fforwm o'r fath. Hefyd dylid nodi efallai bod yr amser a gynhaliwyd y grŵp yn ffactor oherwydd cynhaliwyd y cyfarfod yn y bore ar ddiwrnod gwaith.


1. Ddylem ni fod yn gwneud hyn?

Y cwestiwn cyntaf i'r cyfranogwyr oedd ynghylch a yw ymgysylltiad mewn cynllunio ynddo'i hun yn 'beth da'. Cytunwyd ei fod yn faes pwysig, ac roedd y sylwadau'n amlygu ei werth ar gyfer creu cynlluniau a phrosiectau datblygu. Teimlwyd hefyd bod y diwylliant cyffredinol yn newid, ac y dylid cynnal ymgysylltiad yn fwy aml ac yn fwy trwyadl. Mae'n rhaid i ymgysylltiad fod yn ystyrlon er mwyn darparu ymgysylltiad adeiladol o ansawdd dda, a mynd tu hwnt i ymarfer 'ticio blwch', ar gyfer yr ymgeiswyr, y swyddogion cynllunio ac yn bendant ar gyfer y cymunedau. Mae'r manteision a'r anfanteision a godwyd yn gyffredinol yn gysylltiedig â'r rhai sy'n deillio o'r arolwg sgopio:

Tabl 4: Grŵp Ffocws - Manteision ac anfanteision ymgysylltiad

Manteision ymgysylltiad	Anfanteision ymgysylltiad
Cyflwyno gwybodaeth leol.	Adnoddau (amser a chostau), ar gyfer gwneuthurwyr cynlluniau, datblygwyr ond hefyd ar gyfer yr amser gwirfoddol i gymunedau.
Osgoi gwrthwynebiadau a bradu amser a chostau nes ymlaen.	Dim tystiolaeth eglur o'i werth na hyd yn oed o arbedion amser / cost.
Symud ymlaen yn haws trwy'r system pan fo pobl yn cytuno.	Diffyg canllawiau eglur, safonau a gorfodi ymgysylltiad.
Gall pawb gael llais.	Deinamig elw'r diwydiant datblygu.

Fig. 13: Cyfranogwyr grŵp ffocws yn ôl eu sector.



Cytunodd y cyfranogwyr, er mwyn bod yn ystyrlon ac i ychwanegu gwerth, mae'n rhaid i ymgysylltiad fod wedi ei ddylunio'n hyblyg ac yn sensitif i gyd-destun; mae angen cael gwahanol ddulliau ar gyfer gwahanol brosiectau yn nhermau math, maint, lleoliad ac amseru.

2. Beth allai fod yn ymgysylltiad ystyrlon?

Cefnogwyd y pwysigrwydd o ddechrau ar 'y diwrnod cyntaf'. Ymddengys mai hwn yw'r egwyddor bwysicaf oherwydd, os na fydd yn digwydd, mae'n anodd cyflawni'r egwyddorion eraill. Mae'r pwyslais ar ddechrau'n gynnar yn hanfodol ond mae'n codi cwestiynau ynghylch beth yw 'diwrnod 1' yn y broses (h.y. 'diwrnod 1' o ddechrau creu'r cynllun neu 'diwrnod 1' o ddechrau'r broses ddatblygu?).

Amlygodd rhai yr angen i wahaniaethu rhwng ymgynghoriad ac ymgysylltiad, ond - yn cydfynd â llenyddiaeth - cydnabuwyd bod angen cael gwahanol lefelau o hysbysu, ymgynghori, ymrwymo ac ymgysylltu sy'n briodol ar gyfer gwahanol ymgynghoreion, yn yr hyn fyddai geometreg amrywiol wrth ddylunio prosesau ymgysylltu i 'weddu' i gyd-destun, yn gymaint â math o ddatblygu penodol. Er mwyn bod yn llwyr gynhwysol, nodwyd gan eraill bod yn rhaid cynnwys rhanddalwyr fel asiantaethau ac awdurdodau, sydd tu hwnt i'r 'gymuned leol' a 'chymunedau o ddiddordeb', e.e. yr heddlu. Gall y grwpiau hyn ychwanegu gwerth at y broses trwy ddod â gwybodaeth, materion a syniadau ychwanegol pwysig i'r broses.

Mae rheoli disgwyliadau a bod yn eglur ynghylch sgôp yn bwysig i'r cyfranogwyr. Hefyd credir bod adborth yn bwysig iawn, yn ystod (mae'n helpu cadw diddordeb pobl ac maent yn credu bod rhywun yn gwrando arnyn nhw) ac ar ddiwedd y broses ymgysylltu. Cytunodd y rhan fwyaf bod darganfod ffyrdd i wneud gweithgareddau ymgysylltiad yn fwy mesuradwy hefyd o fudd.

3. Gwneud iddo ddigwydd

Cytunodd y cyfranogwyr ar y chwe phrif adran o weithredu yn y dyfodol. Ceir disgrifiad isod. Cytunwyd mai cam arwyddocaol ymlaen i ddatblygu ymgysylltiad ystyrlon fyddai i (a) sicrhau cysondeb go iawn rhyngddynt i gyd yn nhermau buddion, egwyddorion, dulliau ac ati a (b) ei gwneud yn eglur bod gan bopeth gefnogaeth amlsector er mwyn maethu proses gyda'r amcan o ychwanegu gwerth ar gyfer pawb.

1. Canllaw

Cafwyd ymateb cyfyngedig pan ofynnwyd i'r rhanddalwyr pa ganllaw roeddent yn ei ddefnyddio. Soniwyd am Genedlaethau'r Dyfodol, egwyddorion Cyfranogaeth Cymru a'r Siarter Creu Lleodedd; ond roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod y rhain ag amcan ehangach, felly mae angen cael canllaw 'cynllunio' arbennig sy'n gallu darganfod a datblygu sylw gofodol ar ymgysylltiad. Nid oedd unrhywun yn ymwybodol o'r adroddiad '*10 Commitments for effective pre-application engagement*', ond soniwyd am '*Statement of Community Involvement*' o Fryste. Dylid datblygu adnoddau o'r fath i Gymru a'u dosbarthu i bob cynulleidfa, ynghyd â hyfforddiant perthynol a chefnogaeth. Byddai adroddiad ar arddull '*10 Commitments*' i Gymru gyfan o fudd, a byddai'n rhaid i wahanol grwpiau / sectorau gael canllawiau sy'n fwy penodol i'w sector.

Soniwyd am Lawlyfr Cynlluniau Datblygu a'r Llawlyfr Rheoli Datblygu, er dywedwyd nad oedd y naill na'r llall yn darparu canllawiau defnyddiol, eglur a phenodol ar ymgysylltiad ac nid oeddent wedi eu teilwra'n bwrpasol i'r amrywiaeth o randdalwyr a ymgysylltir â nhw; cytunodd

y gynulleidfa y dylai'r llawlyfrau wneud hyn. Cytunodd pawb y dylid delio ag un mater pwysig sef bod rhai cynghorwyr yn meddwl bod yn rhaid iddynt gadw draw o unrhyw ymgysylltiad, yn enwedig ar geisiadau, rhag bod pobl yn eu drwgdybio o rag derfynu. Mae'n rhaid gwaredu'r fath agwedd, er ei fod yn ddealladwy mewn sefyllfa heb fframwaith ffurfiol ar ymgysylltu, a dylid cael canllawiau a rhannu ymarfer da a chael rhyngweithio clir rhwng democratiaeth ddemocratig ac ystyriol parthed cynllunio cynefinoedd yng Nghymru.

2. Hyfforddiant

Yn gyffredino, cytunwyd ar bwysigrwydd hyfforddiant i aelodau etholedig a'r holl sectorau oedd yn bresennol. Gall hyfforddiant sy'n dod â'r gwahanol sectorau at ei gilydd fod yn enwedig o effeithiol, ond dim ond at ryw bwynt y gall hyfforddiant helpu pobl. Cynigiodd rhai y byddai o fudd i gael canllawiau / hyfforddiant ar gyfer Arolygwyr Cynllunio ar asesu ansawdd ymarfer ymgysylltu.

3. Astudiaethau Achos

Roedd y gynulleidfa'n unfryd bod datblygu a rhannu enghreifftiau o ymarfer ymgysylltu da, yn ddelfrydol o Gymru, yn hanfodol.

4. Gwasanaeth Cefnogi

Cytunwyd y byddai o fudd i gael gwasanaeth cefnogi i ddarparu cyngor a chanllawiau ar faterion ymgysylltu.

5. Gwobrwyon

Awgrymwyd y byddai cael cynllun ledled Cymru i wobrwyo ymgysylltiad da yn werthfawr ynddo'i hun, ac er mwyn darganfod astudiaethau achos da. Gall prosiectau cynllunio ynghylch ymgysylltiad ennill gwobrau RTPI, er nid oes (eto) categori penodol ar gyfer gwaith ymgysylltu i sicrhau y cydnabyddir hyn yn iawn. Pe bai hyn yn cael ei gyflwyno, dylid ond derbyn cyflwyniadau gydag ardystiad gan eraill (datblygwr, cymuned ac ati) a dylai fod ar gyfer dau categori: (a) cynlluniau a (b) prosiectau. Efallai y byddai cynllun gwobrau aml-sector hefyd o fudd.

6. Arweinyddiaeth

Cytunwyd bod angen cael rhyw fath o ymgyrch i ddarparu arweinyddiaeth gynhwysfawr a hyrwyddo ymgysylltiad gwell a mwy ohono. Dylai hynny ddod o awdurdodaeth Llywodraeth Cymru ond hefyd oddi wrth yr holl chwaraewyr eraill a gynrychiolwyd gan yr hysbyswyr yn y grŵp ffocws. Gallai hefyd gael ei hybu ar lefel leol gan grwpiau fel Cymdeithasau Dinesig. Er mwyn cefnogi hyrwyddo ymhellach gellid cyflwyno Pencampwyr cenedlaethol a lleol. Cydnabuwyd, er mwyn i hyn ddigwydd, byddai'n rhaid cael canllawiau eglur a chyson yn eu lle.

Sylwadau eraill

Gwnaeth sawl un y sylw bod cyfathrebu 'cynllunio' i bobl yn heriol ac yn anodd iawn ac yn gofyn am ddulliau creadigol iawn, fel y mae unrhyw ymgysylltiad.

Dywedodd yr hwyluswyr bod Llywodraeth Cymru wedi nodi y gellid ond cyflenwi newid deddfwriaethol os y'i hystyriwyd yn angenrheidiol yn y tymor canolig i hir, ac un o amcanion y

prosiect hwn oedd i gal enillion cyflym ac atebion tymor byr i ganolig. Cydnabuwyd hyn gan y gynulleidfa. Fodd bynnag, mae'r nifer o sylwadau a wnaed yn awgrymu nad yw'r gofynion cyfreithiol cyfredol ynghylch ymgysylltiad cyn-cais, ychydig cyn cyflwyno unrhyw geisiadau ar brosiectau mawrion, o gymorth; efallai eu bod yn niweidiol, ac yn bendant nid ydynt yn cyflawni'r egwyddorion a gytunwyd fel rhai hanfodol, os nad ydynt wedi eu clymu (yn ffurfiol yn ogystal ag yn nhermau cynnwys) gydag unrhyw ymgysylltiad ac ymgynghoriad sy'n effeithio ar y tir hwnnw, a oedd eisoes wedi digwydd yn ystod creu cynlluniau.

Awgrymwyd y byddai dod â'r syniadau gorau at ei gilydd i raglen gydlynol yn gallu helpu creu newid arwyddocaol mewn ymarfer. Dylai hyn ddefnyddio diffiniadau eglurach ac egwyddorion cyson, amlinellu dulliau priodol mewn cyd-destun ac ymrwymo cefnogaeth yr amryw sectorau. Fodd bynnag, mae angen cael ychwanegiadau newydd megis ymgyrch arweinyddiaeth genedlaethol.

Cyfnod 2: Canlyniadau'r cyfweiliadau a datblygu Astudiaethau Achos

Er mwyn deall y materion a archwiliwyd yn yr arolwg ac a drafodwyd yn y grwpiau ffocws yn well, cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau dwfn, hanner strwythurol gyda 15 hysbyswr o ystod o wahanol sectorau a chanddynt agweddau gwahanol ar ymgysylltiad.

Isod, cyflwynir crynodebau byr o'r canlyniadau cyntaf; ystyriwyd y cwbl yn y dadansoddiad sy'n dilyn a datblygwyd rhai ymhellach a'u cyflwyno fel astudiaethau achos pan oedd hynny'n briodol yn y bennod nesaf.

Cadwyd hunaniaeth unigolion a lleoedd gwaith yn anhysbys pan yn bosibl ac ar gais.

Tabl 5: Crynodeb o ganlyniadau'r cyfweiliadau

Y rhai a gyfwelwyd	Materion allweddol a drafodwyd
ACLI	Gwrthdaro ar sawl ffurf rhwng dymuniadau lleol ac uchelgeisiau datblygiad strategol. Gall ymgynghoriad fod yn 'dicio blychau'. Cynlluniau Cynefin, adnoddau a'u gweithredu i mewn i ddatblygiad strategol.
Datblygwr / Ymgynghorydd / Pensaer	Enghraifft o ddull cam-cynnar trwyadl tuag at ymgysylltiad mewn adeiladu cymuned. Trigolion lleol yn allweddol i hyrwyddo'r prosiect i rwydweithiau cymunedol, ac i yrru ymgysylltiad cynnar ac adeiladu lefel o ymddiriedaeth gyda'r ACLI. Nid oedd cefnogaeth ac arian yn gyffredin i alluogi'r lefel hon o ymgysylltiad.
Cyngor Tref	Datblygu Cynllun Cynefin. Heriau mewn datblygu ond buddion enfawr wedi eu nodi eisoes, yn cynnwys symud tuag at fuddsoddiad mewnol ar gryfder y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y paratoi.

Awdurdod Cynllunio Lleol	Heriau mewn cyflawni ymgysylltiad ystyrllon – cyfranogaeth isel mewn digwyddiadau ymgysylltiad cynnar pan nad oes unrhyw fater dadleuol. Anhawster ymgysylltu yn ystod COVID-19, heriau mewn nodi offer ymgysylltu ar-lein priodol. Dim llawer o ddiddordeb mewn datblygu Cynllun Cynefin mewn ardaloedd heb gynghorau cymuned.
Ymgynghorydd/ Ymgynghorwyr Cynllunio	Agwedd ymgynghorwyr ar brosiect seilwaith gwyrdd, gweithio gyda'r cyngor a'r parc cenedlaethol. Llawer o randdalwyr / partïon dan sylw â disgwyliadau cam. Amcan y prosiect heb ei wneud yn eglur. Yn gweld buddion offer ymgysylltiad ar-lein ond yn ymwybodol bod gan ddulliau eraill le allweddol. Yr amser gorau i ymgysylltu'n dibynnu ar beth yw amcan yr ymgysylltiad. Gwybodaeth leol yn werthfawr yn gynyddol gan nad yw swyddogion cynllunio mor gyfarwydd â'u 'darn o dir'.
Awdurdod Cynllunio Lleol a Chyngor y Dref.	Paratoi Cynlluniau Cynefin o agweddau gwahanol. Pwyslais ar ddull 'o'r gwaelod i fyny' o'r cychwyn; fodd bynnag, roedd hyn yn codi problemau pan oedd dymuniadau / blaenoriaethau a nodwyd yn anodd eu rhoi mewn categori yn nhermau cynllunio a chyd-fynd ag uchelgeisiau datblygu strategol. Prif ffactor momentwm cynnar a llwyddiant oedd bod yn rhagweithiol, a hefyd roedd Clerc y Dref â phrofiad o ymgysylltiad.
Awdurdod Cynllunio Lleol.	Cael gafael ar Swyddog Datblygu Cymuned a Chynlluniau Cynefin, un o'r unig swyddogion o'r fath yng Nghymru. Trafodaethau ynghylch manteision a heriau ymgysylltiad a buddion sy'n deillio o gael y fath rôl yn y tîm cynllunio.
Ymgynghorydd / Arbenigwr Ymgysylltu'r Gymuned.	Diddordeb enfawr ac ymrwymiad o bob sector i ymgysylltu trwy gelf mewn prosiectau amgylchedd adeiledig.
Cyngor Cymuned	Digwyddiad Ymgynghoriad Cyn-Cais (YCC) i'r cyhoedd - nid oedd y broses YCC yn llwyddiannus yn creu ymgysylltiad lleol cadarnhaol, serch y digwyddiad ymgynghoriad oedd wedi mynd yn dda ym marn y datblygwr. Ran fwyaf oherwydd canfyddiad y cyhoedd bod eu mewnbwn yn cael ei anwybyddu ac nad oeddent yn y cylch gwybodaeth. I raddau, achubwyd y toriad mewn perthynas rhwng y cyhoedd a'r datblygwr trwy gynnal digwyddiad wyneb yn wyneb (ar-lein) pan oedd y datblygwr yn gallu esbonio ei safbwynt.
Ymgynghorydd / Arbenigwr Ymgysylltu'r Gymuned.	Cefnogi cleient i gyflawni cymuned gynaliadwy newydd, gweithio gyda chymdogion sy'n arbenigwyr ar eu hardal leol. Gwerth ymgysylltiad cynnar, heriau mewn dosbarthu a datblygu gweithgareddau. Trafodaeth ar ymchwil pellach ar rôl aelodau etholedig mewn cynllunio, yn cael ei gyflenwi gan y cwmni (tu allan i'r achos a nodwyd).

Pennod 3: Cwestiynu ymarfer cyfredol (Dadansoddiad ac Astudiaethau Achos)

Mae'r bennod hon yn nodi a threfnu'r holl ddata a gasglwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, adolygiad polisi a'r gwaith maes, i nodi materion côd cyffredin er mwyn llywio symud ymlaen i wella ymgysylltiad ac enghreifftio'r berthynas rhyngddynt. Cysylltir y codau hyn wedyn â'r themâu perthnasol a ddaeth i'r amlwg o'r adran adolygu (gweler Pennod 1, tudalen 18):

Thema 1 – Eglurder a hygyrchedd

Thema 2 – Ymgysylltiad fel proses barhaus


Thema 3 – Ymgysylltiad fel gweithgaredd technegol a gwleidyddol

Thema 4 – Tryloywder mewn gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd canlyniadau

Thema 5 – Sicrwydd y broses

Thema 6 – Costau ac ecwiti

Ffig. 14. Data codio i gysylltu â themâu o'r llenyddiaeth




Materion allweddol o'r gwaith maes

Nodwyd cyfres o 43 côd (neu faterion) yn seiliedig ar y data a gasglwyd trwy'r holl ddulliau a ddefnyddiwyd yn y gwaith maes, a chofnodwyd y nifer o weithiau y soniwyd am bob mater allweddol. Yna cysylltwyd y materion allweddol hyn â'r dull roeddent wedi deillio ohono yn y prosiect, sef yr holiadur, y grŵp ffocws a'r cyfweiliad. Enghreifftir nifer y digwyddodd y materion hyn yn y tair ffynhonnell yn y siart isod:

Amllder y codau (materion) ansoddol a godwyd ar draws dulliau ymchwil gwahanol.

Ffig. 15: Amllder y codau ansoddol (materion) a godwyd ar draws dulliau ymchwil gwahanol.



Roedd y materion allweddol a ddigwyddodd yn fwyaf aml yn yr holl weithgareddau yn cynnwys: angen i fod yn gynhwysol, dechrau'n gynnar, adeiladu ymddiriedaeth yn y broses a chyfnewid gwybodaeth. Roedd rhai materion allweddol yn digwydd yn fwy aml ond, yn nodedig, ynghylch y data a gasglwyd trwy ddull penodol: er enghraifft, soniwyd yn aml am 'gwaelod-i'r-top yn erbyn top-i'r-gwaelod' ac 'Adran 106' yn y cyfweiliadau ond ddim o gwbl yn rhannau eraill y gwaith. Roedd materion allweddol eraill megis 'ymddiriedaeth' wedi dod i'r amlwg yn gyffredin yn y data a gasglwyd trwy wahanol ddulliau. Serch cryfder rhai safbwyntiau a gyflwynwyd ar onestrwydd, amseru a deddfwriaeth, digwyddodd y materion hyn yn lleiaf aml ar draws y gwaith maes. Yn ddiddorol, dim ond yn anaml y soniwyd am effaith COVID-19. Enghreifftir yr holl faterion allweddol yn yr adroddiad hwn - sef darn o waith archwiliadol sy'n dibynnu rhan fwyaf ar ddata ansoddol - fel bod amllder o fawr bwys. Y bumed elfen fwyaf aml yn gyffredinol oedd yr angen am gyfathrebu eglur a pharhaus, ac felly rhoddwyd ymarfer cyfathrebu, yn cynnwys y defnydd o iaith, efo'i gilydd a'u trafod fel un grŵp. Mae gweddill y bennod yn trefnu a thrafod canlyniadau'r codau dan y themâu a nodwyd yn adolygiad y llenyddiaeth.

Thema 1: Eglurder y Broses

1.1 Bod yn eglur ynghylch beth yw ymgysylltiad.

Materion perthnasol: Cyfathrebu, ystod o ddulliau

Canlyniadau allweddol: Nid yw terminoleg mewn cyfraith, polisi ac ymarfer yng Nghymru yn eglur, ac adlewyrchir hyn yn safbwyntiau'r hysbyswr.

Nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth nad yw termau cynllunio ar gyfer 'ymgysylltiad', 'ymgyngoriad', 'ymrwymiad' a thermau tebyg eraill wedi eu diffinio'n dda ac fe'u defnyddir yn gyfnewidiol ar wahanol lefelau'r system gynllunio. Adlewyrchwyd hyn yn ein hastudiaeth ddesg o bolisi a gyflwynwyd yn y portreadau bychain (Pennod 2) yn ogystal ag yn ein gwaith maes, ble daeth amrywiaeth o safbwyntiau i'r amlwg yn nhermau beth oedd ymgysylltiad yn ei olygu i wahanol randdalwyr. Felly byddai o fudd cael canllawiau pellach ar ymgysylltiad yn y system gynllunio er mwyn darparu diffiniadau gwell.

Archwiliodd yr adolygiad polisi Cynllun Cynnwys Cymunedau, a datgan yn gywir y dylai ymgysylltiad fod yn sensitif i'w gyd-destun, ond roedd gweddill y broses CDLL yn dibynnu ar nifer gyfyngedig o weithgareddau ymgynghoriad generig / arddull hysbysu. Yn nodweddiadol mewn gwaith maes, roedd y rhan fwyaf o randdalwyr yn cytuno y dylai ymgysylltiad fod yn weithgaredd sy'n ychwanegu gwerth, er enghraifft trwy alluogi dal mewn gwybodaeth leol a fyddai fel arall wedi ei anwybyddu: *'cyfle i gynnwys safbwyntiau pobl eraill mewn ffordd ystyrlon'*.

Fodd bynnag, awgrymodd un swyddog ACLL bod ymgysylltiad yn ffordd o gyfathrebu a hyrwyddo prosiect, yn debyg i hysbysu. Dywedodd hysbyswr arall am ei anfodlonrwydd ag ymarferion sydd â'r bwriad o hysbysu yn unig oherwydd roedd hyn yn is na'u disgwyliadau. Awgrymodd ymgynghorydd cynllunio ei bod yn bwysig iawn, i gael llwyddiant mewn unrhyw ymarfer, i'w gwneud yn eglur a ydynt yn hysbysu neu'n cyfnewid ddwyffordd. Aeth hysbyswr

cyngor tref ymhellach i awgrymu y dylid diffinio'r gwahaniaeth rhwng ymgynghori ac ymgysylltu mewn deddfwriaeth.

Cydnabyddir mai archwiliadol yw'r ymchwil yma; efallai gall ymchwil pellach sefydlu cysylltiadau achosol rhwng terminoleg ac ymarfer ymgysylltiad. Efallai gall y fath ymchwil nodi cyfleoedd i ddiffinio'n well ac i ddefnyddio hierarchiaeth o dermau ymgysylltiad mewn polisi cenedlaethol, polisi lleol a lefelau rheoli datblygu, heb fod yn rhagnodol ynghylch methodau neu ddulliau ymgysylltiad. Serch hynny, bydd bod yn eglur ynghylch gweithgaredd ymgysylltiad ar unrhyw bwynt o'r cychwyn yn helpu rheoli disgwyliadau ar gyfer yr holl raddallwyr, a lleihau'n fawr rai o'r rhwystredigaethau ynghylch y prosesau presennol roedd yr hysbyswyr wedi sôn amdanynt.

1.2 Canllawiau eglurach ar ymgysylltiad

Materion perthnasol: Polisi a chanllawiau darniog, creu dealltwriaeth, sail gwybodaeth gyffredin, cyfathrebu, ymddiriedaeth, amseru.

Canlyniadau allweddol: Mae'r polisi a'r canllawiau ar ymgysylltiad yn ddarniog ac yn fregus i ragdybiaethau ynghylch ymgysylltiad.

Nododd y canlyniadau o'r ymchwil hwn bod rhai rhanddallwyr yn teimlo y byddai canllawiau eglur o fudd, yn enwedig mewn perthynas â rôl y cyhoedd yn y broses gynllunio.

Amlygodd hysbyswyr o gymunedau lleol a chymunedau o ddiddordeb y mater hwn yn benodol, a dangos bod rhai o'r amryw gamau o ymrwymiad yn edrych fel 'dyblygu'. Hefyd, gall argaeledd deunydd cefnogol gwahanol o lawer o wahanol sefydliadau achosi dryswch i gyfranogwyr llewg mewn ymgysylltiad cynllunio. Mae'r darnio yma'n enwedig o amlwg pan fo ymgynghoriadau gwahanol, sy'n berthynol i gynllunio, yn cymryd lle ar yr un pryd, neu pan fo chwaraewyr gwahanol yn hyrwyddo a rhedeg ymarferion ymgynghori dros amser.

1.3 Defnyddio dulliau ymgysylltiad priodol yn briodol.

Materion perthnasol: Ystod o ddulliau, dyfnder ymgysylltiad, diddordeb isel, cyfathrebu, eglurder y broses

Canlyniadau allweddol: Dulliau ymgysylltiad amrywiol i weddu i'r cyd-destun, math o brosiect, cynulleidfa a cham cynllunio / datblygu yn hanfodol. Dylai ymarferion ymgysylltiad fod yn hygyrch ac osgoi defnyddio iaith sy'n benodol i gynllunio er mwyn cynyddu hygyrchedd. Angen mwy o gefnogaeth i ACLL.

Nodwyd ym Mhennod 1 bod gormod o ddibyniaeth ar ystod gyfyngedig o weithgareddau ymgysylltiad traddodiadol megis ymgynghoriadau, sesiynau galw i mewn a gweithdai, er bod ystod enfawr o ddulliau ac offer a ellid eu defnyddio. Os oes rhaid i ymgysylltiad frwydro i ychwanegu gwerth, mae cynnwys cynifer o bobl berthnasol â phosibl yn sicrhau bod y

canlyniadau yn cynrychioli anghenion y cyhoedd, tra hefyd yn cynyddu'r cyfle i blethu gwybodaeth leol gydag arbenigedd proffesiynol mewn dyfeisio atebion gofodol. Er mwyn cyflawni hyn, dylid defnyddio ystod o ddulliau ymgysylltu i weddu i wahanol grwpiau o bobl, gwahanol gyd-destunau a mathau o brosiectau a chmau cynllunio gwahanol. Gall hyn gynnwys digwyddiadau digidol a rhai wyneb yn wyneb traddodiadol.

O'r gwaith maes cafwyd yr argraff mai dim ond llond llaw o ddulliau a ddefnyddir yng Nghymru ond hefyd bod rhai o'r rhain yn cael eu defnyddio fel y rhai diofyn (*default*) heb lawer o feddwl ar briodolrwydd a 'ffit' y dulliau a ddefnyddir ynghylch cyd-destun, poblogaeth, math o brosiect a cham cynllunio pob ymarfer.

Dyweddodd sawl swyddog ACLL bod ceisio ymgysylltu ar 'dudalen wag' yn anodd ac yn anghynhyrchiol, ond hefyd felly mae celu penderfyniad, sydd eisoes wedi ei wneud, ar ffurf 'ymgysylltiad'. Roedd rhai sylwadau'n dangos anawsterau'n deillio o ddiffyg cynefindra'r swyddogion â chyfoeth dulliau ymgysylltiad. Tra bo'r rhan fwyaf o swyddogion yn ymddangos yn ymwybodol o ddulliau amrywiol ac yn ofalus ynghylch gwaith sensitif, roedd ymwybyddiaeth y gallai nifer o ffactorau arwain at ddigwyddiadau a ddyluniwyd yn debyg, yn troi'n negyddol, oherwydd natur y mater a sut mae mater yn cael ei gyfathrebu.

Roedd pobl yn wiliadwrus hefyd wrth dderbyn geometrau amrywiol ymgysylltiad: ymddengys y'i cydnabyddir yn eang bod offer a dulliau ymgysylltiad amrywiol â goblygiadau amser a chost ac amlygodd llawer o'r hysbyswyr yr angen am ganllaw ynghylch pa fath o ymgysylltiad i'w ddefnyddio pryd, oherwydd ni all 'un maint weddu i bawb'.

Yn ogystal â dylunio ymarferion ymgysylltiad sy'n 'gweddu', dylid rhoi gofal hefyd i'r iaith a ddefnyddir i sicrhau ei fod yn ddealladwy i bobl sydd ddim yn gynllunwyr ac er mwyn i'r cyhoedd ymgysylltu'n effeithiol. Awgrymodd 2 swyddog ACLL y byddai'r defnydd o jargon yn atal pobl rhag ymgysylltu, oherwydd ei fod yn gweithredu fel rhwystr i ddealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn sydd yn y fantol. Awgrymodd Swyddog arall nad iaith dechnegol yn unig yw'r rhwystr ond y ffaith bod rhai dogfennau cynllunio â gormod o eiriau. Aeth pedwerydd Swyddog ymlaen i awgrymu mai eu cyfrifoldeb hwy yw cynhyrchu fersiynau eglur a chryno (ond ddim yn nawddoglyd) o wybodaeth i'r cyhoedd.

Mae'r canlyniadau o'r gwaith maes yn awgrymu y gellid darparu mwy o gefnogaeth i'r ACLL i ddyfeisio ymarferion ymgysylltu sy'n gweddu ac yn hygyrch i'r gynulleidfa berthnasol. Mae perchnogaeth gan yr ACLL yn bwysig gan mai hwy sydd yn y lle gorau i wybod eu cyd-destun a'r cyhoedd, ac yn y pen draw dan ddyletswydd i ymgysylltu. Mae angen amrywiaeth o

"Roedd y digwyddiad anstrwythruol hwn wedi caniatáu trafodaeth a buddion i'r cyhoedd, oherwydd roeddent yn gallu trafod materion gyda chynllunwyr, hefyd roedd cyfle i'r cynllunwyr ddeall materion efallai na fyddent wedi eu gweld ar ffurflen neu mewn cyflwyniad ysgrifendig."
(Swyddog ACLL)

yn erbyn.

"roedd y sesiwn galw i mewn yn debycach i ymgynghoriad nag ymgysylltiad – 'dyma'r hyn rydym ni'n feddwl, beth ydych chi'n feddwl o hyn?' yn hytrach na 'beth ydych chi'n feddwl?'" (Yr un swyddog)

gefnogaeth ar yr ACLL i gychwyn ymgysylltiad ystyrlon sy'n ychwanegu gwerth i'r prosesau cynllunio maent yn eu cynnal.

Dylai ymarfer gorau o'r achosion yn yr astudiaeth hon ddarparu ffordd gyntaf i fynd ar ôl y broblem. Tu hwnt i hynny, gall canllawiau eu cyflwyno ynghylch manteision ac anfanteision offer amrywiol. Dylid darparu hyfforddiant priodol byr i hir dymor a dylid darparu cefnogaeth i swyddogion y rheng flaen sy'n gweithio i amserlenni tynn iawn, ac yn ymddangos eu bod yn ddiffygiol o ran adnoddau a hyder; hefyd byddai canllawiau ar gyfer aelodau etholedig sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau o fudd, fel y byddai maethu mentrau ymwybyddiaeth y cyhoedd gan ddefnyddio cyfryngau arloesol i gyrraedd mathau amrywiol o ddinasyddion a grwpiau.

1.4 Hysbysebu'n eglur, hyrwyddo'n eang ac annog yn effeithiol.

Materion perthnasol:

Hybu gweithgareddau, cyfathrebu, creu dealltwriaeth, jargon, tryloywder, ystod o ddulliau, ymddiriedaeth, tuedd negyddol.

Canlyniadau allweddol:

Er mwyn goresgyn diddordeb isel a chyrraedd y mwyafrif tawel, gall defnyddio iaith leyg a dulliau sy'n nes at fywydau pobl wella cyrhaeddiad hysbysebu. Byddai'r defnydd arloesol o bethau gweledol yn hybu digwyddiadau'n well. Daw anogaeth dros amser drwy ymddiriedaeth.

Hyrwyddir gweithgareddau ymgysylltiad statudol, megis Ymgynghoriad Cyn-Cais a hysbysiadau rheolaeth datblygu, trwy ddefnyddio iaith sy'n benodol i gynllunio a defnyddio dulliau cyfathrebu sy'n bell o fywydau cyffredin pobl. Mae hyn wrth wraidd yr argraff gyffredinol bod ACLL a datblygwyr yn wael wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Gall yr iaith a'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir fod mewn cydberthynas â'r gweithgareddau ymgysylltiad gan ddenu fawr ddim o ddiddordeb. Daeth eglurder i'r amlwg fel nodwedd sylfaenol i ymgysylltu'n ystyrlon.

Dengys data bod cytundeb draws-data yn dweud bod gweithgareddau ymgysylltiad presennol yn denu lefelau isel o ddiddordeb, ac felly'n ei gwneud yn heriol i annog cyfranogaeth effeithiol a chyflawni gwerth ychwanegol. Awgrymodd un Swyddog ACLL nad yw'r term 'ymgynghoriad' yn denu pobl wrth hyrwyddo gweithgareddau ymgysylltu, a chytunodd ACLL yn gyffredinol bod hybu buddion ymgysylltiad mewn cynllunio i'r cyhoedd yn heriol.

"Edrychodd un CDLL ar eu hystadegau ymgysylltiad – a dim ond 0.01% o'r boblogaeth oedd wedi ymateb ac roedd y rhain ran fwyaf yn ddynion dros 60 oed!"
(Ymgynghorydd Cynllunio)

Yn nhermau hybu ymarferion ymgysylltu, yn ofalus yr aethpwyd yn ôl at gyfryngau traddodiadol, a dywedodd un Swyddog ACLL nad yw'r wasg yn gynorthwyol bob tro mewn cyfathrebu gwybodaeth ynghylch paratoi CDLL, sy'n achosi pryder diangen a gwaith ychwanegol. Awgrymodd datblygwr bod dulliau amrywiol o wasgaru taflenni i hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn effeithiol mewn ymarferion gwahanol. Defnyddiodd datblygwr arall dull tebyg, gan ddefnyddio technegau amrywiol ar-lein ac all-lein ar wahanol gyfnodau, gyda chanlyniadau cadarnhaol. Ymddengys bod defnyddio sianeli cyfathrebu lluosog mewn dull synergaid yn cynhyrchu canlyniadau da. Yn gyffredinol, ymddengys nad oes gan y rhai sy'n trefnu digwyddiadau ymgysylltiad

ystod eang o ddulliau effeithiol a fyddai'n gweddu i hysbysebu, hyrwyddo ac annog ymgysylltiad: e.e. dywedodd un datblygwr bod gwybodaeth wedi ei ddosbarthu i dai cyfagos fel modd o ymgynghoriad ac awgrymodd ei bod yn 'anodd i ganfod beth yn fwy a ellid fod wedi ei wneud'. Roedd yr awgrymiadau a gafwyd gan hysbyswyr er mwyn ehangu hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltiad cynllunio yn cynnwys

- Dylid anfon lluniadau i'r eiddo a effeithir arnynt cyn cyflwyno cais.
- Gallai hysbysiadau safle gynnwys cynlluniau a delweddiadau.
- Gall dulliau gweledol, fideo yn enwedig, fod yn fwy effeithiol i helpu pobl i ddeall yr hyn a gynigir.
- Amlygwyd y defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel modd o hyrwyddo gweithgareddau ymgysylltiad fel maes a ddylid ei archwilio ymhellach.
- Mae unigolion sy'n gweithredu fel 'pencampwyr lleol' yn ffordd effeithiol o hyrwyddo gweithgareddau ymgysylltiad.

Er gwaethaf y diffyg arloesedd, a'r diddordeb yn hynny, roedd yr holl gynulleidfaoedd yn cytuno bod yn rhaid cael hysbysebu effeithiol gan ddefnyddio ystod o sianeli (ar-lein ac all-lein) gyda'i gilydd ac ar yr un pryd, er mwyn denu mwy o bobl i gymryd rhan ac i adeiladu ymddiriedaeth. Tra bo datblygwyr yn ddiweddar wedi dechrau defnyddio cwmnïau Cysylltiadau Cyhoeddus gyda chanlyniadau da o ran hysbysebu digwyddiadau, efallai bydd angen cefnogaeth ar ACLL i ddatblygu strategaethau cyfathrebu effeithiol ar gyfer materion cynllunio sy'n sicrhau cysondeb a thryloywder dros amser. Gellid cyfoethogi hyrwyddo trwy ddefnyddio graffeg a chyfathrebu sy'n gyfoethocach yn weledol yn gyffredinol, p'un ai ar-lein neu wyneb yn wyneb. Gellid cefnogi anogaeth yn y pen draw trwy gynyddu ymddiriedaeth a ddatblygir yn lleol dros amser ar sgôr o gofnod da o ymgysylltiad ystyrlon.

1.5 Rhannu ymarfer da a chanllawiau.

Materion perthnasol:

Canllaw, rhannu ymarfer da, sail gwybodaeth gyffredin, defnyddio rhwydweithiau cyfredol, adnoddau ACLL, hybu gweithgareddau ymgysylltiad, rhannu gwybodaeth.

Canlyniadau allweddol:

Dylid dathlu ymarfer ymgysylltiad da a'i rannu'n systematig i helpu adeiladu dealltwriaeth.

Yn ogystal â datblygu canllawiau sy'n fwy sensitif i'w cyd-destun, a hyfforddiant ar gyfer ystod o randdalwyr ar ymgysylltiad mewn cynllunio, cytunodd pob sector y gellid gwneud mwy yn systemig i rannu a hybu canllawiau ac astudiaethau achos ar y pwnc.

Dywedodd y grŵp ffocws bod angen gwell arweinyddiaeth yn nhermau canllawiau, a byddai aelodau etholedig ar bob lefel yn cael budd o hyfforddiant ar y broses ymgysylltu a fyddai'n creu dealltwriaeth a brwdfrydedd. Dywedodd datblygwr y byddent yn

elwa o gael canllaw ar ba fath o dechnegau ymgysylltiad i'w defnyddio ar wahanol gamau, a byddai hyfforddiant gyda rhanddalwyr eraill wedi ychwanegu gwerth. Awgrymodd Cyngor Cymuned a Thref y gellid hyfforddi'r cyhoedd ar faterion cynllunio yn uniongyrchol. Gellid defnyddio cynnwys yr adroddiad hwn fel catalydd i hyrwyddo gwerth ymgysylltiad yn well, a byddai galwadau arferol am rannu astudiaethau achos yn helpu codi proffil y gweithgaredd; byddai gwobrau blynyddol hefyd yn fecanwaith delfrydol i rannu ymarfer gorau.

'Defnyddiwyd ein prosiect fel model gan gymunedau sy'n dymuno cyflenwi cyfleuster tebyg.'

(Cyngor Cymuned)

Astudiaeth achos: Cynllunio Cynefin yn Aberystwyth



Cefndir

Pan fentrodd Tîm Adnewyddu Cyngor Sir Ceredigion i ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddechrau proses Cynllun Cynefin ar draws y Sir – penderfynodd Cyngor Tref Aberystwyth, ynghyd â 5 Tref arall, i gynhyrchu eu Cynlluniau Cynefin eu hunain. Ar adeg y cyfweiliad, roedd Cyngor Ceredigion yn dal i weithio gyda threfi ar draws y Sir i ddatblygu cynlluniau cynefin fel cyfres o Gynlluniau Cynefin i fynd dros yr holl sir. Bu oedi symud ymlaen oherwydd y pandemig COVID-19.

Amcanion y prosiect

Roedd Cyngor Tref Aberystwyth yn dymuno ymgysylltu â'u cymuned leol i ddatblygu gweledigaeth ac i gynhyrchu Cynllun Cynefin defnydd tir – ond roeddent hefyd yn dymuno ymgymryd ymgysylltiad eang i gael darlun o'r hyn roedd y bobl yn ei ddymuno yn y dref a sut roeddent am i'r dref edrych yn y dyfodol.

Sut wnaethon nhw hyn?

Y man cychwyn i'r cyngor Tref oedd trefnu cyfarfod cychwynnol i **Randdalwyr** yn 2018 oedd wedi denu'r bobl â diddordeb er mwyn sefydlu Gweithgor. Roedd sawl un â diddordeb yn y gweithgor, yn cynnwys cynghorau cymuned cyfagos, busnesau â diddordeb a'r brifysgol. Trefnwyd gweithdy a daeth 40 o bobl o bob sector yn y dref. Gan ddefnyddio **techneg ymgysylltu** nodyn 'Post-it' roedd gan bawb y cyfle i ysgrifennu cryfderau a gwendidau y dref a beth oedd eu huchelgeisiau a'u gweledigaeth am ddyfodol Aberystwyth.

Cafodd pawb y cyfle i roi eu nodiadau 'post-it' mewn themâu a'r hyn a esblygodd oedd themâu sgerbwdd i'w cymryd ymlaen o fewn y Cynllun Cynefin. Dywedodd Gweneira Raw Rees (Clerc y Dref) bod *"y gweithdy wedi cynhyrchu gwybodaeth werthfawr - roedd yn*

fecanwaith syml a gweithiodd yn dda". Ychwanegodd hefyd bod "y gweithdy yn llwyddiant sy'n arddangos cymaint o amser / adnoddau gweinyddol sy'n ofynnol er mwyn i brosiect o'r natur yma i lwyddo". Yn dilyn y gweithdy, dosbarthwyd holiaduron ar draws y dref i gael syniad o farn a safbwyntiau lleol.

Ar ôl coladu'r dystiolaeth gychwynnol – cynorthwywyd y broses gan Ymgynghorydd Cynllunio (a ariannwyd gan y Cyngor). Uchelgais y Cyngor yw cael 5 Cynllun Cynefin ar draws y Sir. Nodwyd gan y Grŵp Llywio ei bod yn anodd ar y dechrau i gael y gynulleidfa ehangach i ddeall cysyniad Cynllun Cynefin. Nodwyd bod yr ymgynghorwyr wedi dod i mewn yng nghyfnodau diweddar y prosesau, ar ôl y camau cychwynnol i gasglu tystiolaeth. O edrych yn ôl - byddai cymorth gan gynllunwyr proffesiynol / Cynllunwyr ACLL o'r cychwyn wedi bod o gymorth.

Beth sydd o Werth?

Mae'r prosiect wedi arwain at odi sawl prosiect diddorol. Mae cysyniad Cynllun Cynefin wedi galluogi cymunedau i gymryd rhan mewn prosiect "cynllunio" heb orfod edrych ar faterion perthnasol i gynllunio o'r cychwyn. Roedd arddull sgwrs "agored" yr ymgysylltiad wedi denu mwy o bobl i gymryd rhan ac wedi "*caniatáu trafodaeth agored ar ystod o bynciau a themâu*" (Gweithgor Aberystwyth). Mynychwyd y gweithdy gan groesdoriad eang o'r gymuned gan ymgysylltu ag arolygon ac ysgogi'r rhai oedd ynghlwm. Mae nodi Pencampwyr Cymunedau wedi bod yn werthfawr iawn, a dywedodd Alain Haird o Gyngor Ceredigion bod Trefi "*oedd â phencampwr yn golygu bod y prosiect yn fwy tebygol o lwyddo*". Mae'r Cyngor Sir wedi cadarnhau bod canlyniadau'r rhaglen ymgysylltiad ar draws Ceredigion wedi bod yn amhrisiadwy ar gyfer rhaglenni eraill fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi ei ddefnyddio'n fewnol gan y Cyngor.

Crynodeb

Mae cymunedau wedi dod at ei gilydd yng Ngheredigion i gynhyrchu Cynlluniau Cynefin ar gyfer eu hardaloedd eu hunain; arweiniwyd y dull o gynnwys yr ardal gyfan gan Dîm Adnewyddu Cyngor Ceredigion gyda Chyngor Tref Aberystwyth yn un o'r 6 tref oedd ynghlwm. Mae'r cynlluniau terfynol eto i'w dosbarthu ac o ystyried y Pandemig mae'n rhaid defnyddio "lens Covid-19" i asesu argymhellion a'r polisiau yn y dyfodol.

Y gwersi a ddysgwyd:

- Sefydlu Gweithgor yn gynnar yn y broses - nodi Pencampwyr Tref - cysylltiad allweddol i symud y broses yn ei blaen.
- Peidio labelu fel "Ymgynghoriad Cyhoeddus" – yn aml cysylltir hyn â chanfyddiadau negyddol. Rhaid i ymgysylltiad cyhoeddus fod yn "sgwrs" – defnyddio technegau arloesol i annog y gymuned i gymryd rhan.
- Hwylusydd gyda phrofiad o ymgysylltiad a Chynllunio yn amhrisiadwy i gymryd prosiectau yn eu blaen. Er yr anogir dull "gwaelod i'r top" - mae cymunedau angen

eu “harwain” o hyd a’u cynorthwyo gyda chanllawiau, hyfforddiant ac arbenigedd cynllunio.

- Swyddogion Polisi ACLL a Chynghorwyr i gymryd rhan o’r cychwyn – mae hyn yn hanfodol er mwyn cynorthwyo’r broses, er mwyn i bawb ddeall y goblygiadau cynllunio wrth fynd ymlaen ac er mwyn i’r Cynllun Cynefin fynd ymlaen i’w fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol.
- Arbenigwyr ag arbenigedd cynllunio i gymryd rhan er mwyn i’r gymuned ddeall sut mae Cynllun Cynefin yn ffitio i mewn efo proses CDLL – helpu i lywio’r broses.
- Dylai hyfforddiant Cynllun Cynefin gynnwys pawb o’r cychwyn - Cynghorau Cymuned a Thref, Gweithgorau, Cynghorwyr Sir.
- Wrth weithio ar Gynllun cynefin mae’n bwysig i ganolbwyntio ar ardal ddaearyddol benodol - bydd nodi hyn ar y cychwyn yn galluogi mwy o ddealltwriaeth.

Am fwy o wybodaeth:

Cyngor Tref Aberystwyth <https://www.aberystwyth.gov.uk/en/>

Tîm Adnewyddu Ceredigion: <https://www.ceredigion.gov.uk/>

Cyfwelwyd ar gyfer yr Astudiaeth Achos:

- Tîm Adnewyddu Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Tref Aberystwyth
- Grŵp Llywio Cynllun Cynefin Aberystwyth

Thema 2: Ymgysylltiad fel proses barhaus

2.1 Dechrau'n gynnar.

Materion perthnasol:

Dechrau'n gynnar, proses lefn, amseru, ymddiriedaeth, dyfnder ymgysylltiad.

Canlyniadau allweddol:

Po gynharaf mae ymgysylltiad ystyrion yn cymryd lle yn y broses gynllunio a pho fwyaf mae'n cysylltu â chynllunio Cynefin, y gorau fydd y canlyniadau tebygol i'r holl raddallwyr.

Roedd yr adolygiad llenyddiaeth a'r gwaith maes o'r un farn bod ymgysylltiad cynnar mewn cynllunio yn adeiladu synnwyr o wethfawrogi mewnbwn y cyfranogwyr, oherwydd y gellir ei ystyried yn natblygiad y cynigion, o'i gyferbynnu ag ymrwymiad nes ymlaen a ellir ei weld yn symbolaidd, unwaith ei bod yn ymddanogs bod cynigion wedi eu datblygu.

"Os yw'r gymuned ynghlwm o'r cychwyn byddant yn cymryd y prosiect drwodd mewn modd gadarnhaol."

(Cyngor Cymuned)

I ddatblygwr mae ymgysylltiad cynnar yn helpu nodi materion dadleuol posibl cyn ymrwymo adnoddau, ac felly gellir hwyluso proses ddatblygu fwy cadarnhaol, yn ogystal â darparu cyfle cyffredinol i gynnwys gwybodaeth a syniadau a ddaeth gan bobl leol i mewn i'r cynnig. Gall dechrau cynnar hefyd helpu sefydlu perthynas waith rhwng rhanddalwyr amrywiol oherwydd eu bod yn deall eu cynefin.

I ACLL, ymddengys bod y ffocws wedi symud i ymgysylltu â phobl yn gynnar wrth greu cynllun, yn gynharach nag ar ddechrau'r cylch datblygu (h.y. yn llawer cynharach na'r cam cyn-cais neu'r cais cynllunio) er mwyn hyrwyddo perthynas mwy cadarnhaol a rhyngweithiol rhwng y cyhoedd a'r broses gynllunio. Gall anogaeth fwy gweithredol o dderbyn Cynlluniau Cynefin ac amseru helpu gyda hyn. Awgrymodd un cynrychiolydd ACLL y dylai safleoedd cais ddod ar ôl y cam ymgynghoriad o'r strategaeth a ffefrir mewn CDLL, gan fod y cyntaf yn tueddu i ddargyfeirio ymgynghoreion oddi wrth y materion mwy strategol. Gallai paratoad Cynllun Cynefin effeithiol, wedi ei amseru'n dda, faethu'r fath ddull.

Soniwyd bod Ymgynghoriad Cyn-Cais (YCC) wedi cyfrannu at ddechrau'n gynnar ond gellir effeithio ar ei effeithiolrwydd os bydd yn cael ei drin fel 'ymarfer ticio blychau'. Awgrymodd sawl ymatebwr ar draws y sectorau y syniad o ymgynghoriad 'cyn-ymgynghoriad cyn-cais' fel ymarfer wedi ei anelu at ychwanegu gwerth. Gallai hyn eto gael ei gysylltu â chynllunio cynefin.

Amlygodd Gyngor Cymuned ei bod yn bwysig bod yr holl rhanddalwyr, nid y rhai yn y sector gyhoeddus yn unig, wedi ymrwymo o'r cychwyn e.e. yr holl adrannau perthnasol o fewn llywodraeth ar bob lefel yn ogystal â'r sector breifat berthnasol a chymunedau. Ategwyd y syniad yma gan gynrychiolydd awdurdod lleol ar yr un prosiect, ac ymgynghorydd ar brosiect ar wahân.

Fodd bynnag, dywedodd ymgynghorydd cynllunio bod yn rhaid i ymgysylltiad gymryd lle ar amser sy'n briodol i'w amcanion. Tra ystyrir dechrau cynnar yn fuddiol, gall fod adegau pan nad yw hyn yn berthnasol, ac felly gall greu heriau wrth reoli disgwyliadau. Ymddengys bod y sylw yma'n mynd yn ôl at gwestiwn o ymgysylltiad ystyrion sy'n gallu ychwanegu gwerth.

Ar y cyfan, ymddengys bod dechrau cynnar (yn cyd-fynd â'r camau creu cynlluniau) yn werthfawr oherwydd ei fod yn ymgysylltu'r holl bobl berthnasol (er mewn geometreg wahanol yn y camau amrywiol) ar bob pwynt mewn amser, mewn rhyw ffordd, ac mae wedi ei gysylltu'n dda â chynllunio Cynefin. Efallai bydd yn rhaid eglurhau hyn ymhellach mewn polisi ac efallai bydd hyfforddiant ychwanegol yn angenrheidiol i wneud y penderfyniadau o'r math yma'n wybodus.

2.2 Gwneud ymgysylltiad yn broses barhaus gysylltiedig.

Materion perthnasol: dulliau ymgysylltu priodol, cyfathrebu, rôl yr ACLL, ymddiriedaeth, grymuso cymunedau, cynhwysiant, adborth ac adrodd.

Canlyniadau allweddol: Mae ymgysylltiad yn fwy ystyrion pan y'i gwelir fel ymarfer parhaus yn cynnwys cyfres o gamau cysylltiedig (yn hytrach nag ymarferion ymgynghoriad un tro ar wahân).

Er cymaint y canmolir 'cychwyn cynnar' yng ngwaith maes, mae blinder cyfranogi a diffyg dealltwriaeth o sgôp ac uchelgais ymgysylltiad ar bob cam yn gallu achosi rhwystredigaeth ac efallai bod yn wrthgynhyrchiol dros amser.

Roedd cytundeb traws-sector y dylai ymgysylltiad fod yn barhaus ac ymrwymo'r holl randdalwyr, fwy neu lai, dros gyfnod y camau cynllunio a rheoli datblygu er mwyn ychwanegu gwerth. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o ymgysylltiad yn digwydd ar sail prosiect neu weithgaredd, mewn Cynllun Datblygu Lleol neu Ymgynghoriad Cyn-Cais unigol. Nid oes synnwyr ar hyn o bryd bod ymarfer yn dilyn yr un blaenorol ynghylch yr un darn o dir. Yn ogystal, mae'n anodd iawn dilyn adborth y gymuned dros amser neu ar draws gwahanol brosiectau. Mae hyn yn cynhyrchu syniad o ddryswch mewn cyfranogwyr, yn maethu camddealltwriaeth a cham-gymhariad yn nhermau disgwyliadau ac yn achosi rhwystredigaeth mewn cymunedau sy'n ychwanegu at y synnwyr o syrffed ymgynghori.

"Dylid annog cynllunwyr i wrando ar grwpiau bach y cyhoedd ar bob cam o'r broses a pharhau i ymgysylltu ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus orffen."

(Cyngor Cymuned)

Amlygodd un ymgynghorydd cynllunio bod cael 'llofnod terfynol' ar ddyluniad terfynol cyn i adeiladu ddechrau yn gam pwysig, a dywedodd datblygwr bod ymgysylltiad parhaus wedi bod yn fuddiol yn nhermau'r gymuned leol yn 'prynu i mewn' i'r cynllun. O leiaf dylai fod adborth ar ganlyniad gweithgaredd ymgysylltiad, ond gall ailymweld â phwnc ddod â mwy o wybodaeth leol a helpu creu ymddiriedaeth ac ymrwymiad pellach. Nodwyd gan ymgynghorydd cynllunio bod buddion parhaus mewn parhau i rannu gwybodaeth â chymunedau. Mae ein portreadau bychain yn dangos yn eglur pa mor anodd ydy hi (i gynllunwyr) i ddod o hyd i wybodaeth am ymarferion yn y gorffennol ynghylch darnau o dir sy'n cael eu datblygu'n gyfredol.

Tra gall parhau i gysylltu â grwpiau fod yn anodd (yn enwedig pan fo hyrwyddwyr gwahanol yn trefnu ymgysylltiad h.y. gwahanol adrannau o ACLI, datblygwyr ac ymgynghorwyr cynllunio), gall fod yn fuddio cael rhyw ddull o gofnodi, archifo, cael gafael ar wybodaeth ar weithgareddau'r gorffennol mewn modd cyson a hygyrch. Cydnabyddir y gall dialog parhaus fod yn anodd yng nghyd-destun adnoddau, ond mae enghreifftiau ble digwyddodd hyn trwy swyddog ymroddedig a bu'n fuddiol (gweler astudiaeth achos Conwy). Gall cael unigolion, sydd ar gael yn gyson, yn y math hwn o rôl hwyluso adeiladu ymddiriedaeth a pherthnasau cryfach dros amser. Ochr yn ochr â swyddogion ymroddedig, gellid archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu a mabwysiadu storffeydd hygyrch ar-lein i archifo'n gyson ganlyniadau ymarferion ymgysylltiad ar safleoedd dros amser. O leiaf, byddai'n fuddiol cynnal cofnod digidol canolog o weithgareddau ymgysylltiad.

2.3 Creu sgysiau'n parhau dros amser, nid cyflawni consensws.

Materion perthnasol: dulliau ymgysylltiad priodol, tuedd negyddol, dyfnder ymgysylltiad, cynhwysiant, proses lefn, tryloywder

Canlyniadau allweddol: Nid amcan gweithgareddau ymgysylltiad yw cyrraedd consensws ar bob mater ond i ddangos safbwyntiau pobl eraill a chreu dealltwriaeth gyffredin sy'n ychwanegu gwerth i brosiectau penodol / canlyniadau cynllunio yn ogystal â phrosesau cynllunio ac ymddiriedaeth leol yn y system gynllunio a gweinyddiaeth gyhoeddus.

Mae data'n awgrymu bod gweithgareddau ymgynghori, fel y'u cynhelir heddiw, yn gallu creu synnwyr bod 'enillwyr' a 'chollwyr' yn y broses, a chreu tuedd negyddol tuag at gyfranogi mewn ardal leol. Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn gyson wedi darganfod bod esbonio cyd-destun mater, clywed beth sydd gan bobl i'w ddweud a rhoi adborth iddynt, hyd yn oed os nad yw'r penderfyniad yn mynd eu ffordd nhw, yn llawer mwy cadarnhaol i gynnal perthynas na cheisio plesio'r mwyafrif. Cefnogwyd hyn gan ganlyniadau yn ein grŵp ffocws.

Yn y gwaith maes, nododd un Swyddog ACLI bod dod at gonsensws mewn materion cynllunio yn heriol iawn ac yn yr un modd nododd ymgynghorydd cynllunio hyn trwy ddatgan 'nad ydych yn gallu plesio pawb'.

Fodd bynnag roedd sawl hysbyswr yn rhannu'r safbwynt nad consensws, o anghenraid, yw amcan ymgysylltiad. Disgrifiodd un pensaer rôl y dylunydd fel 'hwyluswyr sgwrs'.

"Ni ddylai cwmnïau dybio ein bod yn anghymwys ac na allwn gytuno i anghytuno. Mae cymuned yn gallu cyfaddawdu'n dda"

(Unigolyn)

Nododd Cyngor Cymuned, wrth ddenu croesdoriad eang o bobl mewn ymarfer ymgysylltiad, y cafwyd safbwyntiau gwahanol a gwrthgyferbyniol. Fodd bynnag, roedd yn dal yn bosibl i goladu themâu o'r broses a oedd yn ychwanegu gwerth i'r broses gynllunio gyfan. Cytunodd

ymgynghorydd cynllunio, gan nodi bod ymgysylltiad wyneb yn wyneb yn llawer gwell nag ymgynghoriad ysgrifenedig, oherwydd ei fod yn rhoi cyfle i herio safbwyntiau ac i gyfnewid adeiladol gymryd lle. Rhannwyd y safbwynt yma gan Swyddog ACLL ac unigolyn, a gytunodd y gall cymunedau gyfaddawdu a chlywed 'na'.

Er mwyn symud ffocws y rhanddalwyr o 'ennill y gêm' i waith tîm adeiladol, mae'n rhaid dylunio ymgysylltiad yn ofalus i alluogi sgysiau dwyffordd rhwng amrywiaeth o grwpiau. Ni ddylai'r sgysiau hyn anelu at gyflawni consensws, eithr i gychwyn ac i barhau trafodaethau dros amser ynghylch pa ddatblygiadau fyddai o fudd i'r ardal leol gyfan, trwy sôn am a herio safbwyntiau grwpiau ac unigolion sydd â gwahanol werthoedd ac anghenion. Byddai'r rôl a chwaraeir gan aelodau etholedig (mewn Cynghorau Cymuned ac ACLL) yn ogystal â gosod y sefyllfa'n briodol ac adrodd, yn hanfodol er mwyn cynnal sgws adeiladol sydd â pherthnasedd technegol a gwleidyddol ar yr hyn sy'n cynnal diddordeb y cyhoedd yn lleol.

2.4 Galluogi cymunedau.

Materion perthnasol:

Gwaelod i'r top yn erbyn top i'r gwaelod, grymuso, adnoddau cymunedol, dyfnder ymgysylltiad, cynhwysiant, proses barhaus

Canlyniadau allweddol:

Mae'r cyfle i ymgysylltu'n ystyrlon gyda datblygu yn grymuso pobl i gael effaith ar eu hamgylchedd adeiledig a bydd yn arwain at greu lleoedd yn well mewn amser. Er mwyn cysylltu cynllunio gyda chreu lleoedd gwell i bobl mae Cynlluniau Cynefin yn allweddol. Mae angen cyllid, sgiliau ac adnoddau ar lawer o gynghorau cymuned a grwpiau cymunedol er mwyn hwyluso ymgysylltiad sy'n darparu gwerth ychwanegol. Mae buddsoddiadau o'r fath yn talu ar eu canfed.

Pan nad yw'r cyhoedd wedi ymgysylltu'n effeithiol, mae anfodlonrwydd sydd wedi datblygu'n lleol dros amser yn creu ymadroddion emosiynol fel 'ar y ffin', 'gorfodaeth' a 'roedd safbwyntiau'r trigolion a effeithiwyd arnynt yn hollol amherthnasol'.

"Mae Cynlluniau Cynefin yn creu synnwyr o berchnogi'r gymuned a chyfrifoldeb."

(Cyngor Cymuned)

Yn y gwaith maes, cyfeiriodd y cynrychiolwyr cymuned at 'grym y bobl', 'cael llais', 'synnwyr gwych o gyflawniad' a theimlo'u bod wedi'u 'grymuso'. Mae hyn wedi cynhyrchu diddordeb a brwdfrydedd i feddwl am ffyrdd ymlaen. Ategwyd hyn gan hysbyswr Cyngor Cymuned ble cwblhawyd paratoi Cynllun Cynefin yn ddiweddar; roedd yr ymarfer – a thrwyddo roedd y Cyngor Cymuned wedi adeiladu perthynas gyda dros 50 o sefydliadau cymuned a denu cyllid newydd – wedi creu 'si' a didwylledd go iawn yn y dref a galw am waith pellach ar y cyd yn yr ardal leol.

Awgrymodd Swyddog ACLL byddai grymuso cymunedau yn gofyn am gefnogaeth barhaus gan amrywiaeth o raddalwyr, yn enwedig ACLL, ac awgrymodd pensaer dylai rôl y datblygwr fod fel hwylusydd mynegiant y cyhoedd. Gall Cynlluniau Cynefin, sydd wedi eu cynnal yn dda,

ddarparu'r cysylltiad rhwng cynllunio (h.y. cynhyrchu CDLL), rheolaeth datblygu (h.y. ymgynghoriadau ceisiadau a Chyn-cais) a gwneud penderfyniadau effeithiol ar greu lleoedd. Mae angen mwy o ddealltwriaeth o'r hyn mae Cynlluniau Cynefin yn ei gyflawni a'u cysylltiadau â chynllunio er mwyn datblygu ymarfer parhaus yng Nghymru.

Codwyd pwynt penodol ynghylch yr her o ymgysylltu niferoedd mawr ac yna 'cwtogi'r sylwadau' h.y. dadansoddi'r data a gynhyrchwyd o weithgareddau ymgysylltu a'u cydlynw â pholisi cynllunio ac ati. Mae hwn yn ymarfer adnoddau dwys sy'n gofyn am sgiliau penodol.

Yn ogystal, nododd Swyddog ACLL, yn dilyn gweithgaredd ymgysylltu, ei bod yn angenrheidiol i aelodau'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ffurfiol; gallai cynhyrchu rhywbeth fel hyn fod yn heriol i unigolion. Dywedodd un hysbyswr cymuned bod proses ymgysylltiad a gynhaliwyd ganddynt wedi bod yn gost-effeithiol ac wedi darparu buddion parhaus, y tu hwnt i baratoi cynllun. Yna roedd y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer paratoi'r Cynllun Cynefin lleol wedi ei ddefnyddio i sicrhau grant o arian ar gyfer prosiectau lleol.

Byddai grwpiau cymuned a chynghorau, yn enwedig mewn cymunedau llai, yn elwa o adnoddau ychwanegol i gefnogi arbenigedd cynllunio penodol a phrosiectau gofodol, er mwyn hwyluso gweithgareddau ymgysylltu effeithiol, sydd eu hunain yn ychwanegu gwerth at y prosesau cynllunio yn lleol ac o fewn eu hawdurdod lleol.

"Mae cynghorau cymuned yn sefydliadau gwirfoddol ac nid oes ganddynt yr adnoddau i gael gafael ar nifer fawr o drigolion."
(Cyngor Cymuned)

2.5 Cysylltu gwybodaeth arbenigol a lleol

Materion perthnasol: Adnoddau cymunedol, creu dealltwriaeth, cyfnewid gwybodaeth, defnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli, sail gwybodaeth gyffredin.

Canlyniadau allweddol: Cyfnewid gwybodaeth dwy-ffordd trwy ymgysylltiad yn elwa'r holl randdalwyr ac yn ychwanegu gwerth i'r prosesau cynllunio a chanlyniadau cynllunio.

Mae ymgysylltiad yn darparu cyfle i'r cyhoedd i gyfrannu gwybodaeth leol a phenodol i brosiectau, yn enwedig yn y cam creu cynllun, ac er mwyn i'r cyhoedd gael gwybodaeth ynghylch y prosiectau hynny. Yn yr un modd, mae ymgysylltiad yn gyfle i arbenigwyr i rannu gwybodaeth dechnegol gyda'r cyhoedd. Amlygodd Cyngor Cymuned na ddylai'r gofod gwybodaeth rhwng pobl broffesiynol a'r cyhoedd fod yn rheswm i anwybyddu eu safbwyntiau.

Awgrymodd Swyddog ACLI bod ymgysylltu yn gynnar yn gyfle i wrthbwyso safbwynt proffesiynol y cynnig.

Y bobl leol sy'n adnabod eu lle orau. Gall ACLI ddefnyddio'r wybodaeth yna fel rhan o'u sail tystiolaeth wrth ddatblygu cynlluniau. Yn ogystal, mae ardaloedd lleol ble y cynhyrchwyd Cynllun Cynefin wedi rhoi cyfle i'w cymunedau i adolygu eu hardal mewn dull strwythurol a chasglu tystiolaeth i lunio gweledigaeth ac uchelgeisiau i'r dyfodol sy'n bwydo'n haws i ymgysylltiad mwy strwythurol o fewn y broses gynllunio a rheolaeth datblygu.

Soniodd ymgynghorydd cynllunio bod gweithgaredd ymgysylltiad wedi cyflwyno syniadau newydd i randdalwyr arbenigol eraill a rhoddodd esiampl o weithgaredd ymgysylltiad a fyddai wedi elwa o gael amser digonol err mwyn i'r cyhoedd rannu eu gwybodaeth yn llawn.

Cafwyd cytundeb croes-sector ei bod yn bwysig i feddwl am ymgysylltiad, nid yn unig yn nhermau cymunedau lleol, ond hefyd cymunedau o ddiddordeb. Mae'n rhaid i ddulliau ymgysylltiad annog y grwpiau hyn i ddangos eu hunain a chymryd rhan yn weithredol.

Cydnabyddodd ACLI hynny, a phe baent wedi ymrwymo cymunedau o ddiddordeb yn fwy rhagweithiol, efallai byddai'r math o ymatebion a gafwyd yn eu hymarferion ymgysylltiad wedi bod yn fwy eang. Awgrymodd ymgynghorydd cynllunio bod ymrwymiad y rhai â gwybodaeth arbenigol yn fwy buddiol na'u tîm eu hunain yn cynnal ymchwil ac ymweliadau safle, gan awgrymu bod budd yn nhermau effeithiolrwydd adnoddau.

Roedd y data cyfan o'r gwaith maes wedi pwysleisio rôl cymunedau lleol a chymunedau o ddiddordeb oedd yn darparu gwybodaeth na fyddai wedi ei gael fel arall. Bydd gan gymunedau o ddiddordeb yn enwedig ddealltwriaeth o faterion penodol, a sut maent yn datblygu'n lleol, a fyddai'n costio amser ac arian i'r sector gyhoeddus a'r diwydiant datblygu i ddarganfod. Roedd eu cynnwys trwy ymgysylltiad effeithiol 2-ffordd yn ychwanegu gwerth i'r broses gynllunio. Gellid mwylhau cryfder eu rôl trwy brofiadau cadarn Cynllunio Cynefin sy'n cynyddu gallu cymunedau i ymgysylltu â chynllunio statudol.


"Trwy wahodd ystod o randdalwyr gydag arbenigedd amrywiol a gwybodaeth leol, nodwyd ystod eang o faterion, cyfleoedd ac esiamplau yn gyflymach ac yn fwy manwl nag y gellid ei gyflawni gan unigolion o'n tîm prosiect yn cynnal ymweliadau safle ac ymchwil ar-lein."

(Ymgynghorydd cynllunio)

"Daeth y gymuned leol at ei gilydd i roi eu sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad, a chredwn bod y cwmni datblygu wedi synnu at faint yr ymateb lleol, yn ogystal â'r ymateb o sefydliadau ecolegol lleol."

(Grŵp cymunedol)

Astudiaeth Achos: Ymgysylltiad Cynllunio Polisi yng Nghonwy



Cefndir

Mae tîm cynllunio polisi Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy wedi ymrwymo i gyflawni'r ffurfiau gorau o ymgysylltiad cymunedol o fewn cyd-destun adnoddau ac amser cyfyngedig. Maent wedi profi ystod o ddulliau o weithgareddau ymgysylltiad ac maent yn cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach na chlywyd ganddynt o'r blaen yn ardal eu hawdurdod. Maent wedi dod ar draws rhai heriau wrth ddefnyddio'r dulliau hyn, ond roedd eu goresgyn a delio â hwy mewn ymarferion cynllunio wedyn wedi helpu mireinio eu dull. Mae gan Conwy hefyd *Swyddog Strategol Ymgysylltiad a Chynlluniau Cynefin* parhaol fel rhan o'u tîm cynllunio polisi. Nid yw'r swyddog yma'n gynllunydd ac mae o gefndir datblygiad cymunedol ac ymddengys mai dyma'r unig swyddog Cynlluniau Cynefin yng Nghymru. Archwiliwyd y rheswm dros greu'r fath rôl, y manteision mae'n creu yn nhermau ymgysylltiad y gymuned ar faterion cynllunio a'r heriau o gynnal y rôl, mewn cyfweiliad gyda'r swyddog a phennaeth y tîm cynllunio polisi yn yr awdurdod.

Sut y delir ag ymgysylltiad yng Nghonwy a ble mae ei werth?

Ar lawer ystyr, nid yw dulliau Conwy o ymgysylltiad cymunedol ar faterion cynllunio yn dra gwahanol i awdurdodau cynllunio eraill; rhoddir hysbysiadau ymgynghoriad statudol, rhoddir dogfennau i'w harddangos yn gyhoeddus ac yn ogystal â'r gofynion lleiafswm, darperir sesiynau galw i mewn a chynhelir cyfarfodydd ar bynciau penodol gyda phob math o randdalwyr, yn cynnwys y grwpiau anodd eu cyrraedd. Fodd bynnag, roedd rhai awgrymiadau bach yn eu dull, a rhai egwyddorion tan ategol, wedi helpu Conwy i greu diddordeb ehangach:

- Ymgysylltu mor gynnar â phosibl. Mabwysiadodd Conwy yr egwyddor hon trwy brofiad, gan amlygu bod mwy o gyfleoedd i gynnwys sylwadau'r gymuned a helpu i lunio cynlluniau yn y camau cynnar. Gall cymunedau gael eu difreinio

pan maent yn nodi nad ydynt wedi eu hymgysylltu ar y cyfle cyntaf. Bellach ystyrir bod ymgysylltu cynnar (a pharhaus), yn enwedig mewn cynllunio safle strategol, yn werthfawr iawn wrth adeiladu ymddiriedaeth (ac ymrwymo).

- Wrth ymgysylltu'n gynnar, bod yn eglur ynghylch beth ellir (ac na ellir) ei gyflawni, ond hefyd ceisio gweld yr opsiynau posibl i ddal dychymyg pobl.
- Mae gwybodaeth leol yr un mor ddefnyddiol yn dylunio'r dull ymgysylltu ag y mae mewn sylwadau ar baratoi cynllun. Roedd blaenoriaethu cynnal gweithgareddau ymgysylltu mewn lleoedd mae'r gymuned yn eu defnyddio (fel canolfannau cymunedol) yn hytrach na'r lleoliadau traddodiadol fel 'neuadd y dref' wedi profi'n llwyddiannus.
- Defnyddio 'broceriaid' y cyfryngau. Yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol yr awdurdod lleol, gwahoddwyd cynghorau / grwpiau cymuned i rannu sylwadau am y CDLL ar hysbysfwrdd cymunedol lleol a thudalennau 'hel straeon'; roedd hyn wedi galluogi cyrhaeddiad ehangach. Roedd yr esiampl yma eto wedi defnyddio gwybodaeth leol i gyflawni ymgysylltiad.
- Cyfathrebu'n eglur a chryno mewn ffordd atyniadol. Cynhyrchodd Conwy fideos animeiddio i esbonio am eu CDLL a gynhyrchodd ddiddordeb a sylw ehangach.
- Ymestyn y cyfnodau lleiafswm o ymgynghoriad a rhoi amser i bobl i ddod yn ôl. Roedd Conwy yn rheolaidd yn ymestyn y cyfnod ymgynghoriad chwe wythnos ar eu CDLL, roedd yn cynnal sesiynau galw i mewn ar ddechrau'r cyfnod ac yn dychwelyd fis yn ddiweddarach; trwy gyflwyno'r cynigion a chaniatáu amser i bobl ei brosesu, gwelsant fod pobl yn dod yn ôl gyda mwy o gwestiynau ac yn cynhyrchu sylwadau o ansawdd gwell ar y cynllun.

Yn hollbwysig ystyrir bod cael swyddog ymgysylltiad cymunedol ymroddedig yn yr awdurdod o fewn y tîm polisi yn hanfodol er mwyn darparu a phontio gwybodaeth leol, cynnal cysondeb ar draws y gwahanol ymarferion ymgysylltu, darparu adborth ystyrion ar faterion cynllunio ac adeiladu a chynnal ymddiriedaeth gyda chymunedau. Mae cael swyddog sydd ddim o gefndir cynllunio yn y tîm yn cynhyrchu syniadau gwahanol ac agwedd ffres i ddylunio gweithgareddau ymgysylltu tra'n cadw ffocws ar faterion strategol a all fod yn amhosibl wrth ddefnyddio awdurdod ehangach neu bersonél ymgysylltiad allanol. Ar ôl datblygu'r rôl dros ddwy i dair blynedd, mae Conwy yn troi ei sylw at gefnogi ei gynghorau cymuned a thref a'r gymuned ehangach i ddatblygu cynlluniau cynefin mewn pum ardal strategol. Eu cam cyntaf yw darparu hyfforddiant i'w haelodau, swyddogion, a chynrychiolwyr y gymuned ar baratoi Cynlluniau Cynefin.

Sut geir adnoddau ar gyfer rôl ymgysylltiad cymunedol?

Mae'n bwysig pwysleisio bod y rôl wedi ei chynnwys yn y tîm cynllunio polisi yn dilyn ailstrwythuro mewnol. Symudodd y tîm cynllunio polisi i gyfarwyddiaeth wahanol a oedd â swyddogion ymgysylltiad cymunedol ynddo. Yn ddiweddarach, dychwelodd y tîm polisi i gyfarwyddiaeth cynllunio a chadwyd y rôl (gydag ychydig o berswâd), oherwydd cydnabwyd gwerth y rôl. Wedyn, diddymwyd y tîm ymgysylltu cymunedol ac mae cadw'r rôl yn gallu bod yn heriol. Yn y pen draw, gall y tîm polisi dystiolaethu gwerth y swyddog dan sylw, ond pwysleisiwyd y byddai dylunio a chael cyllid ar gyfer rôl newydd wedi bod yn llawer mwy anodd.

Beth yw'r heriau / gwersi a ddysgwyd?

- Ymgysylltu am gyfnod priodol tra'n ceisio cyflawni amserlenni cynhyrchu CDLL yn gallu bod yn fater o gydbwyso.
- Mynd tu hwnt i'r 'lleiafswm' yn y camau cynharaf; mae'n fwy anodd ymgysylltu pobl 'gyda thudalen wag o bapur' ond mae delweddu yn helpu.
- Ymgysylltu ar y lefel gywir o fanylion technegol; gall cymunedau gael braw gan ymyraethau rhy gymhleth ond ar yr un pryd mae'n rhaid iddynt gael lefel ystyrlon o fanylion er mwyn cymryd rhan.
- Sicrhau bod graffeg a fideos cyfathrebu yn ymgysylltu heb adael y gynulleidfa i deimlo bod rhywun yn nawddoglyd tuag atynt; gall crynodebau byr ennyn canlyniadau gwell na dogfennau ag arddull 'hawdd eu darllen'.
- Sicrhau pwyslais ar faterion strategol yn hytrach na gwaith datblygu cymuned llawr gwlad; o reidrwydd bydd yr ymddiriedaeth a sefydlir gyda swyddog o'r fath yn gallu golygu sôn am faterion sydd ddim yn ymwneud â chynllunio. Teimlir absenoldeb y tîm ymgysylltu di-gynllunio; mewn sefyllfa ddelfrydol, byddai'r swyddog ymgysylltu cynllunio yn gallu gweithio'n strategol gyda swyddogion ymgysylltu gyda gorchwyl ehangach.
- Darganfod swyddog ymgysylltu ymroddedig serch y gwerth sydd ynghlwm â'r rôl.
- Sicrhau bod persbectif y gymuned a ddarperir gan swyddog ddi-gynllunio yn cael ei gynrychioli / ystyried yn gyson mewn materion cynllunio.

Thema 3: Ymgysylltiad fel gweithgaredd technegol a gwleidyddol

3.1 Galluogi aelodau etholedig.

Materion perthnasol: Rôl aelodau etholedig, technegol yn erbyn ymarfer democrataidd, gwaelod i'r top yn erbyn top i'r gwaelod.

Canlyniadau allweddol: Dylid annog a chefnogi aelodau etholedig i chwarae rôl fwy gweithredol mewn ymgysylltiad mewn materion cynllunio.

Wrth gefnogi canlyniadau o'n hadolygiad, amlygodd un Swyddog ACLL y gallai gwrthdaro buddiannau canfyddedig berswadio cynghorwyr i beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltiad, tra awgrymodd hysbyswr o Gyngor Cymuned y dylai fod yn orfodol i gynrychiolwyr y gymuned i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltiad.

“Dylid ei gwneud yn eglur i holl gynrychiolwyr y gymuned mai eu dyletswydd yw mynychu a chyfranogi”

(Cyngor Cymuned)

Dros y blynyddoedd mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau wedi codi'r pryder hwn gyda Chymorth Cynllunio Cymru; ar adegau mae aelodau ACLL wedi gwrthod siarad gyda'u hetholwyr eu hunain gan ofni cael eu cyhuddo o ragderfynu, sy'n gamddealltwriaeth sylfaenol o fwriad rheolau ynghylch codau ymddygiad llywodraeth leol.

Nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth bod cam-gysylltu cynyddol rhwng proses technegol gweithgaredd ymgysylltiad ac ymrwymiad gwleidyddion lleol sydd â mandad democrataidd i gynrychioli eu cymunedau; cadarnhaodd y gwaith maes y safbwynt hwn. Mae'n bosibl bod aelodau ACLL yn aneglur ynghylch eu rôl, ac yn benodol yn ansicr ynghylch eu rôl mewn perthynas â chynllunio; awgrymodd un cyngor cymuned *‘nad oedd ein cynghorwr sir yn deall beth yw ymgysylltiad.’*

Mae rhaglen hyfforddiant systematig, cydlynol ar gynllunio (ac ymgysylltiad) ar gyfer aelodau etholedig eto i'w wireddu'n llawn ac mae'n canlyniadau ni wedi ei roi'n blwmp yn ôl ar y bwrdd trafod. Hefyd mae sgôp i baratoi canllawiau penodol ar ymddygiadau derbyniol a dymunol gan aelodau etholedig, efallai dan y penawdau 'gwneud hyn, peidio â gwneud hyn' ar bob cam o ymgysylltiad statudol.

3.2 Cymryd stoc a datblygu ymarfer o amgylch Cynlluniau Cynefin.

Materion perthnasol: Cyfathrebu, ymddiriedaeth, grymuso cymunedau, creu sgysiaid nid consensws, dyfnder ymgysylltiad.

Canlyniadau allweddol: Gall Cynlluniau cynefin bontio rhwng Creu lleoedd a chynlluniau a pholisïau trosfwaol.

Cynhyrchu dogfennau cynllunio sy'n cyd-fynd â pholisi cenedlaethol yw un o egwyddorion arweiniol y system datblygu cynllun. Soniodd un Swyddog ACLL bod nodi safleoedd dan ganllawiau cynllunio cenedlaethol yn gallu gwrthdaro â barn leol, ac y byddai'r Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) sydd ar fin dod, yn cyflwyno heriau tebyg; bydd ymgysylltiad cynnar ac ystyrlon gan ACLL wrth ystyried a dethol y fath safleoedd fel rhan o baratoi CDS yn hanfodol, os yn heriol.

Gall Cynlluniau Cynefin gyflwyno'r cyfle unigol gorau i gysylltu cynllunio 'gwaelod-top' yng Nghymru gyda pholisi cyfredol ac ar y gweill, dull a fyddai'n fuddiol ar bob lefel datblygu polisi cynllunio. Gall cymunedau weithio ar y cyd er mwyn cynhyrchu dogfen gynllunio a ellid ei mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) os yw'n unol â pholisi. Awgrymodd un Swyddog ACLL bod Cynlluniau Cynefin yn fodd o gysylltu ymgysylltiad a pholisi gyda'i gilydd trwy alluogi rhanddalwyr i rannu safbwyntiau a datblygu, trefnu a blaenoriaethu uchelgeisiau ar gyfer eu hardal leol.

Mae'n hastudiaeth achos o Gyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaearn yn dangos eu bod wedi cwblhau eu Cynllun Cynefin yn ddiweddar ac mae Cyngor Sir Powys yn ei anfon ymlaen i ymgynghori arno fel CCA. Roedd hyn o ganlyniad i gydweithredu gofalus ond parhaus rhwng ystod eang o randdalwyr, yn cynnwys Cyngor y Dref a'r ACLL, ac mae'n sicr bod ystod o fuddion wedi dod i'r amlwg o ganlyniad. Yn y pen draw, ymddengys bod gan ymarfer a ystyriwyd yn ofalus ac a reolwyd, y potensial i oresgyn gwrthdaro posibl gyda'r system datblygu cynllun.

Wrth edrych ar Gynlluniau Cynefin o'r ongl hon, mae ganddynt rôl fel dogfen orffenedig ac fel proses, yn 'hyfforddi' cyfranogwyr i drefnu eu syniadau mewn ffyrdd a fyddai'n rhyngweithio'n haws gyda'r system gynllunio. Gall Cynlluniau Cynefin sy'n gwneud ymdrech i gysylltu â'r broses gynllunio, a chyda amserlenni hefyd, alluogi doler eglurach a dull cysylltiedig i ymgysylltiad trwy gydol y broses gynllunio.

Ar ôl dweud hyn, dylid cydnabod er bod y system Cynlluniau Cynefin wedi bodoli am dros i bum mlynedd a bod dros 865 cyngor cymuned / ardaloedd cymuned yn gymwys i'w paratoi, ychydig iawn (<30) sydd wedi eu paratoi a hyd yn oed yn llai sydd wedi eu mabwysiadu fel CCA (<10). Mae'n data yn cefnogi agwedd ofalus. Amlygodd Swyddog ACLL mewn un enghraifft na fabwysiadwyd Cynllun Cynefin fel CCA ond y byddai'n cael ei ystyried mewn CDLL yn y dyfodol a nododd un arall y gellir anwybyddu Cynlluniau Cynefin yn y broses rheoli datblygu. Yn yr un

"Gall ymgysylltiad gwaelod-top arwain at wrthdaro gyda datblygiad strategol a pholisïau cynllunio cenedlaethol." (Swyddog ACLL)

yn erbyn.

"Datblygwyd ein Cynllun Cynefin gyda'r gymuned a'r ACLL, yn unol â pholisi, a chafwyd ystod eang o fuddion o hyn." (Cyngor Cymuned)

modd rhoddodd gyngor cymuned esiampl o broses cynllunio cynefin pan roeddent wedi ei chael yn anodd i gydsynio canlyniadau eu hymgysylltiad gyda disgwyliadau'r cyngor.

Yn y cam hwn byddai o gymorth cynnal adolygiad cynhwysfawr o ymarferion diweddar ynghylch Cynlluniau Cynefin – yn enwedig ynghylch eu cynnwys gofodol a'u rôl yn symlhau mynediad y gymuned i safle cynllunio statudol - ac i ganfod y rhesymau tu ôl i lwyddiannau ymddangosiadol a'r rhwystrau lawer o ddaethpwyd ar eu traws.

3.3 Osgoi ymarferion ticio blychau.

Materion perthnasol: dulliau ymgysylltu priodol, cytuno ar broses, sgysiau nid consensws, rheoli disgwyliadau, tuedd negyddol, gonestrwydd, ymddiriedaeth, angen am ddeddfwriaeth.

Canlyniadau allweddol: Cyfle i ychwanegu nodiadau eglurhaol, rhestrau gwirio a chanllawiau ynghylch yr hyn sy'n gwneud ymgysylltiad yn ystyrlon trwy gyflwyno'r gwerth ychwanegol mae'n ei roi i'r broses.

Yn y consensws a ddaeth i'r amlwg o'n gwaith maes ar draws y sectorau, credwyd y cynhelir ymgysylltiad fel cam technegol yn unig yn y broses, a gyfeirir ato'n aml fel ymarfer 'ticio blychau', yn hytrach na chynnal gweithgaredd democrataidd ystyrlon. Lleisiwyd y safbwynt hwn gan ymgynghorwyr cynllunio, Cynghorwyr Cymuned a Thref ac unigolion.

Dywedodd rhanddalwyr lluosog bod gan y datblygwr, yn enwedig mewn ymgynghoriadau cyn-cais, lefel uchel o reolaeth dros y math o weithgareddau ymgysylltiad a ymgwymerir, ac yn aml y dull sydd drechaf yw un o 'dicio blychau'.

"Gwelir digwyddiadau ymgysylltiad yn aml fel ymarfer 'ticio blychau' ble mae'r datblygwr yn dweud wrth y gymuned beth maen nhw'n mynd i'w wneud."

(Ymgynghorydd Cynllunio)

Fodd bynnag, mae'n anodd pwyntio bys at 'dramgwyddwyr' penodol: amlygodd un Swyddog ACLL bod CDLL yn tueddu i gynhyrchu cynigion manwl ar gyfer safleoedd mawrion, sy'n gwaredu'r gallu i ymgysylltu'r gymuned yn y cam priodol ar y mater yma, gan godi'r pwysigrwydd o amseru ymgysylltiad yn ofalus cyn datblygu'r manylion. I raddau, mae'r ffordd mae'r system gynllunio wedi datblygu yn cyfrannu at wneud dulliau 'ticio blychau' yn drech, serch tueddiadau chwaraewyr penodol tuag at ymgysylltiad. Gan fod yr holl hysbyswyr yn ein hymchwil, yn yr holl ddulliau, yn ymddangos eu bod yn gweld gwerth a theilyngdod mewn prosesau ymgysylltiad sydd wedi eu dylunio'n dda, efallai y byddai o ddefnydd, yn y tymor canolig, i gyfoethogi gofynion statudol gydag enghreifftiau, rhestrau gwirio a chanllawiau ynghylch yr hyn sy'n gwneud gweithgareddau ymgysylltiad yn ystyrlon ac yn werth mynd ar eu hôl, oherwydd eu bod yn ychwanegu gwerth.

Dylid archwilio'r cyfleoedd i ddathlu a chodi ymwybyddiaeth o ymarfer da, ymysg datblygwyr a'r sector gyhoeddus, a nodwyd mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn, fel ysgogiad yn y tymor byr. Efallai bydd adolygu deddfwriaeth a pholisi'n angenrheidiol yn y dyfodol.

3.4 Goresgyn tuedd negyddol.

Materion perthnasol: dulliau ymgysylltiad priodol, cyfathrebu, rôl yr ACLL, hyrwyddo gweithgareddau ymgysylltiad, tuedd negyddol.

Canlyniadau allweddol: Tuedd negyddol, rhwystro ymgysylltiad ystyrlon yn deillio o ganfyddiadau rhanddalwyr ar ei gilydd.

Mae argraff gref bod pobl yn ymgysylltu mewn modd negyddol: trwy wrthwynebu, bod yn wrth-ddatblygiad, ac ar y pegwn eithaf 'eisiau dadl'. Awgrymodd un Ymgynghorydd Cynllunio bod ymgysylltiad sy'n dilyn gofynion statudol lleiafswm yn negyddol o ran ei natur, oherwydd nid yw'r rhai sy'n niwtral neu'n gefnogol yn tueddu i ymateb.

Cefnogwyd hyn gan Swyddog ACLL trwy awgrymu mai'r rhai â'r safbwyntiau cryfaf, negyddol fel arfer, sy'n cael eu pwynt drosodd, a gall hyn berswadio eraill i beidio â chynnig syniadau amgen na hyd yn oed i gyfryngu. Amlygodd Swyddog ACLL arall ein bod mewn cyfnod ble roedd digwyddiadau'r gorffennol a straeon negyddol yn y cyfryngau, yn ogystal ag agweddau gwleidyddol oedd yn dominyddu yn y degawdau diwethaf yn y DU, yn cysylltu arwyddocâd negyddol â'r term 'cynllunio'.

Tra bo Cyngor Cymuned wedi awgrymu bod pobl yn gwrthwynebu weithiau fel math o brotest yn erbyn y broses, mae'r adroddiad hwn wedi nodi a chyflwyno rhesymau systemig ehangach posibl yn yr adrannau blaenorol.

Wrth gwrs mae'r proffesiwn cynllunio yn cydnabod bod amrywiaeth mawr yn safbwyntiau'r cyhoedd ar faterion ac nid ydynt yn negyddol bob tro. Profiad Cymorth Cynllunio Cymru yw nad yw pobl ar brydiau yn sylweddoli eu bod yn gallu cefnogi cais cynllunio yn ogystal â gwrthwynebu iddo. Gall hyn gefnogi'r syniad bod natur a ffurf ymgynghoriadau yn hwyluso tuedd negyddol, neu o leiaf yn cyfyngu ar y potensial i gefnogi. I raddau, gall canfyddiadau negyddol o'r cyhoedd, ar ran proffesiynolwyr, sydd â'r dasg o ymgysylltu, hefyd barhau'r duedd yma, fel y gall ansicrwydd ar ran rhai o'r proffesiynolwyr ynghylch y dewis a'r defnydd o ddulliau priodol. Mae adnoddau cyfyngedig sy'n ymroddedig i ymgysylltiad yn effeithio ar hyn hefyd.

Gallai hyfforddiant gwell i swyddogion wella canfyddiadau negyddol ar bob ochr a goresgyn tuedd negyddol. Gellir defnyddio lleisiau cadarnhaol ac adeiladol i gyrraedd y mwyafrif tawel: awgrymodd un Swyddog ACLL y gall ymgysylltiad da greu cefnogaeth graidd o leisiau cadarnhaol a fydd wedyn yn lledaenu o fewn cymuned; gall y fath leisiau ddod yn bencampwyr ac ymgysylltu fel catalyddion i ledaenu negeseuon gobeithiol tu hwnt i'w cymunedau eu hunain.

"Mae ymgynghoriad cynllunio yn aml yn broses negyddol ble mae pobl ond yn cynnig sylw pan yn gwrthwynebu. Nid yw pobl sy'n cefnogi cais neu'n niwtral yn ymateb."

(Ymgynghorydd Cynllunio)

Astudiaeth Achos: Grymuso'r gymuned yn Grangetown



Cefndir

Pan ofynnodd preswlydd o Grangetown “*ble alla i gael coffi yn y parc?*” yn 2012 – nid oedd unrhywun wedi rhagweld y prosiect cyffrous oedd wedi dilyn.

Amcanion y prosiect

Mae Pafiliwn y Grange yn brosiect **partneriaeth** rhwng grŵp trigolion Prosiect Pafiliwn y Grange, Gweithredu Cymunedol Grangetown, Prifysgol Caerdydd a Chyngor Caerdydd i ailddatblygu pafiliwn bowls gwag a'i droi yn gyfleuster o'r radd flaenaf i'r gymuned.

Beth oedd eu bwriad?

Mae ymgysylltiad wedi bod wrth galon y prosiect o'r cychwyn cyntaf. Roedd archwilio beth oedd y gymuned eisiau ei gynnwys yn y briff gwreiddiol, a sut roeddent eisiau trefnu'r gofodau, wedi arwain at gyflwyno nifer o dechnegau ymgysylltu megis mapiau'r meddwl, modelu a phrofi prosiectau o fewn yr adeilad presennol. Roedd Penseiri Dan Benham wedi ymgysylltu'n agos â chymuned Grangetown i gael eu safbwyntiau ar y dyluniad - roedd ar y dylunwyr angen gwybod sut fyddai'r adeilad yn gweithio iddyn nhw. Sefydlwyd **dialog cadarnhaol** yn gynnar yn y broses gyda Chynllunwyr Cyngor Caerdydd. Esboniwyd y weledigaeth ac oherwydd ei leoliad o fewn parc rhestredig roedd dyluniad sensitif yn hollbwysig. Arweiniodd cyfathrebu rhwng yr ACLL a'r dylunwyr at **ymddiriedaeth** a ffordd ymlaen trwy'r broses gynllunio.

Beth sydd o werth?

Rhwng Mehefin 2016 a Thachwedd 2018, daeth Pafiliwn y Grange â mwy na 3,000 o drigolion at ei gilydd, fe'i defnyddiwyd gan dros 100 o randdalwyr, a lansiwyd 150 o fentrau, wedi eu harwain gan y gymuned, mewn ymateb i syniadau a ddaeth o'r gymuned, gyda'r canlyniad y cynhaliwyd dros 1,000 o sesiynau / gweithgareddau ar y

safle. Ffurfiwyd llawer o brosiectau o'r ymgysylltiad hwn yn cynnwys Fforwm Ieuentid Pafiliwn y Grange, Hyb Merched, sesiynau darllen, cyfarfodydd Ffrindiau a Chymdogion. Gwnaeth y gwaith ymgysylltu wahaniaeth go iawn i ganlyniadau cynllunio'r prosiect oherwydd roedd wedi caniatáu sgysiaau adeiladol rhwng y gymuned a'r Cynllunwyr a galluogi'r cynllun i gael ei ddylunio mewn ffordd a fyddai'n gweddu i'r gymuned, er enghraifft sut y dyluniwyd gofodau mewnol ac allanol. Yn ogystal, cynigiwyd dyluniad cydymdeimladol ac unigryw a oedd yn gweddu'n dda i'r parc rhestredig - gan gymryd sylw o sylwadau'r gymuned.

Roedd twf enfawr mewn ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn y prosiect hwn a chyflwynwyd syniadau amgen. Mae Dan Benham yn esbonio "byddwch yn colli pobl yn y broses os nad ydych yn ymgysylltu - os bydd pobl yn teimlo'n rhan o'r prosiect byddant yn ymrwymo a glynu wrtho tan y diwedd" Mae'r prosiect hwn yn dangos bod angen cael llif oddi wrth yr ymgysylltiad cychwynnol - mae ar bobl angen gwybod pam efallai na ellir cymryd eu syniadau a'u sylwadau ymlaen - mae **adborth** yn hnaofodol. Dywed Dan Benham "Mae'r adeilad i gyd yn ymwneud â phobl. Pan adeiladwyd yr adeilad - ei adeilad nhw oedd o - y gymuned oedd piau fo. Mae pob prosiect am y bobl"

Wrth gael sgwrs gyda'r tîm dylunio yn Penseiri Dan Benham - codwyd y cysyniad o gael gwell sgysiaau rhwng Penseiri a Chynllunwyr a chael **Pencampwyr Dylunio** o fewn adrannau cynllunio fel syniad ar gyfer cydweithio yn y dyfodol yng Nghymru. Mae rolau pensaernïol o fewn adrannau cynllunio wedi eu colli, a theimlwyd bod hon yn elfen bwysig i'w hail-gyflwyno - yn enwedig ar lefel arweinyddiaeth uwch. Yn ogystal, hyrwyddwyd grymuso dylunwyr / Penseiri ar draws Cymru gydag **astudiaethau achos** - yn dangos y gorau o'r hyn a ellir ei gyflawni yng Nghymru.

Crynodeb

Mae prosiect Grangetown yn esiampl lwyddiannus o ymgysylltiad a gwaith partneriaeth sy'n golygu cael adeilad sy'n **galluogi**, yn rhoi cyfleoedd ac yn gorwedd wrth galon y gymuned.

Gwersi a ddysgwyd:

- Cyfathrebu cynnar rhwng dylunwyr a'r ACLL
- Cyflwyno technegau ymgysylltu arloesol - bydd y gymuned yn aros gyda'r broses tan y diwedd a fawr ddim yn gadael
- Adborth parhaus trwy gydol y broses ymgysylltu yn angenrheidiol
- Pencampwyr Dylunio o fewn ACLL ac arbenigedd Pensaernïol
- Hyrwyddo'r defnydd o esiamplau o ymarfer da o Gymru ac Ewrop
- Caniatáu timau dylunio bach i'w cynnwys yn fframweithiau'r ACLL - i dendro am waith

Am fwy o wybodaeth: <https://grangepavilion.wales/about/>

Thema 4: Gwneud penderfyniadau a thryloywder canlyniadau

4.1 Gwneud adborth ac adrodd yn fwy amlwg a chraff.

Materion perthnasol:

Ymddiriedaeth, cynhwysiant, tryloywder, rôl ACLL.

Canlyniadau allweddol:

Mae cyfleoedd i wella adborth ac adrodd yn ôl i gyfranogwyr ymgysylltiad, a dylid cynnal mwy o ymchwil i ddeall sut i adrodd yn ôl yn well ar ôl pob gweithgaredd ymgysylltiad er mwyn adeiladu gwerth (ychwanegol) dros amser.

Mae diffyg adborth yn nodwedd amlwg yn ein data ac yn achosi pryder unfryd i gynghorau cymuned, grwpiau cymuned, unigolion, grwpiau ieuenctid ac ymgynghorydd cynllunio.

Dywedodd pob un o'r grwpiau uchod bod yn rhaid adrodd yn ôl iddynt ar ganlyniadau gweithgareddau ymgysylltiad a phenderfyniadau cynllunio.

Cydnabyddodd datblygwr bod adborth yn rhan allweddol o'r broses ymgysylltu ac roeddent yn ofalus i sicrhau i wneud hynny. Yn yr un modd, dywedodd ymgynghorydd cynllunio na ddylid tanamcangyfrif pwysigrwydd rhoi adborth. Cododd ymgynghorydd cynllunio fater ble na chadwyd cofnodion yn ddigon da yn ystod gweithgareddau ymgysylltiad ac felly collwyd y mewnbwn; mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn pwysleisiwyd pwysigrwydd parhad cofnodi gweithgareddau ymgysylltiad dros amser fel camau dilynol.

Cododd hysbyswr Cyngor Tref y cwestiwn sut mae mesur effaith gweithgaredd ymgysylltiad ei hun ac adrodd arno, a mynegodd unigolyn y dylid mesur a gwerthuso gweithgareddau ymgysylltiad mewn dull adroddadwy. Mae adroddiadau ymgysylltiad yn tueddu i ganolbwyntio ar nifer y cyfranogwyr, daearyddiaeth a'r materion a godwyd, heb adlewyrchu ar effeithiau hirdymor posibl y gweithgaredd ymgysylltiad ei hun. Dywedodd un Swyddog ACLL nad ydynt yn cynnal dadansoddiad rhanddalwyr ar ôl ymgynghoriad ond mae'n aneglur p'un ai yw'r fath ddadansoddiadau yn cael i) eu cyhoeddi ii) eu hamlygu neu iii) bod adborth i gyfranogwyr, a bydd ymarfer yn debygol o amrywio rhwng ACLL.

Pwysleisir adrodd yn ôl i gyfranogwyr yn y llenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cael effaith sylweddol ar ddatblygu ymddiriedaeth; bydd pobl yn teimlo eu bod wedi eu hanwybyddu os na chânt adborth, mewn dadleuon eglur ac iaith blaen, ar sut yr ystyriwyd eu mewnbwn. Ym mhrofiad Cymorth Cynllunio Cymru nid yw aelodau'r cyhoedd ar y cyfan yn ymwybodol bod adroddiadau swyddogion ac ymatebion i ymgynghoriadau ar gael i'r gweld yn gyhoeddus.

"Mae'n rhaid cymryd pobl efo chi a chyhoeddi'r canlyniadau a'r casgliadau er mwyn i bobl weld a chlywed yr hyn sydd wedi ei gyflawni. Mae peidio â rhoi adborth yn enwedig i bobl sydd wedi cyfrannu yn anghwrtais ac amharchus."

(Cyngor Cymuned)

Mae mecanweithiau i ddarparu adborth ar gael ar y rhan fwyaf o lefelau o fewn y system gynllunio: cyhoeddir adroddiadau ymgynghoriad ar bolisi cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Lleol; mae'n ofynnol cael adroddiad ymgynghoriad ar y broses Ymgynghoriad Cyn-Cais; mae'n ofynnol paratoi adroddiadau pwyllgor a dirprwyol ar geisiadau cynllunio; a cheir crynodeb o benderfyniadau apêl yn adroddiadau'r Arolygydd. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau yn awgrymu:

1. Nid yw cyfranogwyr yn ymwybodol o fodolaeth y fath adroddiadau mewn gweithgareddau ymgysylltiad / ymgynghoriad.
2. Ni hysbysir ymatebwyr yn uniongyrchol pan fo'r fath adroddiadau ar gael.
3. Nid yw cynnwys yr adroddiadau wedi ei ysgrifennu mewn ffordd a ellir ei ddeall yn hawdd, ac nid yw'n bosibl dod o hyd i ymateb yr un sy'n gwneud y penderfyniad i'r sylwadau a wnaed gan y bobl. Yn ychwanegol, mae'r ffaith bod sylwadau di-gynllunio yn cael eu heithrio'n awtomatig yn gallu bod yn rhwystredig i ymatebwyr nad oedd yn ymwybodol o bwynt technegol.
4. Yn ogystal, nid yw'n ofynnol ar hyn o bryd bod adroddiadau'n cysylltu a chyfeirio at gysail ac adroddiadau perthnasol yn y dyfodol, sy'n gadael dinasyddion yn aneglur ynghylch ble mae eu safle nhw parthed gwneud penderfyniadau

Gall Atebion 1 a 2 uchod olygu sicrhau cynnwys disgrifiadau o sut y darperir yr adborth a'i ychwanegu at holl gyfathrebu ymgysylltiad / ymgynghoriad, ynghyd â gweithdrefn hysbysu tanysgrifwyr ynghlwm â systemau cyflwyno ymgynghoriad ar-lein – h.y. pan fo pobl yn cyflwyno ymateb gallant dicio blwch sy'n dweud, *'hysbyswch fi pan fo adroddiad wedi'i gyhoeddi'*.

Mae goresgyn materion rhif 3 a 4 yn ymddangos yn fwy heriol; yn gyffredinol ysgrifennir adroddiadau cynllunio er mwyn rhesymoli materion mewn dull goddrychol ac nid ydynt wedi eu creu ar gyfer darllen cyffredinol. Gallai adroddiadau ymgynghoriad fod yn fwy defnyddiol, ond efallai na fyddai crynodebau cyffredinol yn cyfeirio at bryder unigolyn; mae atodiadau yn tueddu i gynnwys tablau hir, gorlawn o wybodaeth, a byddai'n anodd dod o hyd i fater penodol a godwyd ac ymateb perthnasol y gwneuthurwr penderfyniad. Yn y pen draw, tra byddai nodyn pwrpasol (neu sgwrs yn well fyth) i'r ymatebwr yn darparu'r ateb gorau, cydnabyddir y byddai hyn yn anymarferol (yn enwedig ar raddfa fawr). Gellid strwythuro archwiliad pellach o'r her yma, ac yn enwedig a) sut y gellid strwythuro adroddiad i gysylltu penodau ymgysylltiad dilynol a darparu arwyddion i gyfranogwyr ynghylch eu safle yn y broses gwneud penderfyniadau a b) mae amlygu'r gwerth ychwanegol a ddaw gydag ymgysylltiad ystyrlon yn werth ei wneud.

4.2 Adeiladu ymddiriedaeth gyda gonestrwydd a thryloywder.

Materion perthnasol: Ymddiried yn y broses, ymddiried yn y rhanddalwyr, gonestrwydd, adborth ac adrodd yn ôl, tuedd negyddol.

Canlyniadau allweddol: Gellid maethu a gofalu am ymddiriedaeth trwy alluogi cyfranogwyr i fynd ar lwybr tryloyw cysylltiedig, trwy ymgysylltiad o'r enw 'Cynllunio Cynefin'.

Dyweddodd hysbyswyr o'r cyhoedd / Cynghorau Cymuned nad oeddent yn ymddiried y byddai'r system gynllunio yn gweithredu ar eu mewnbwn, neu hyd yn oed eu buddiannau. Roedd cytundeb ymysg di-gynllunwyr bod diffyg ymddiriedaeth yn cael ei achosi gan synnwyr o gael eu hanwybyddu; amlygodd hysbyswr Cymdeithas Ddinesig nad oes ganddynt dystiolaeth yr ystyrir eu safbwyntiau yn y broses gwneud penderfyniadau, ac maent yn tybio bod cynnwys eu sylwadau'n cael ei anwybyddu'n llwyr.

"Cynhaliwyd y broses ymgynghoriad er mwyn cael safbwyntiau a barn y gymuned, ond ni ymddangosodd ei fod wedi dylanwadu ar y broses gwneud penderfyniad mewn unrhyw ffordd."

(Cyngor Cymuned)

Awgrymodd dau gynrychiolydd Cyngor Cymuned, un Swyddog ACLL a hysbyswr grŵp cymuned bod y synnwyr yma o gael eu hanwybyddu yn lleihau eu hysgogiad i ymgysylltu ymhellach.

Teimlai eraill y bydd cynllunio yn anochel yn cyrraedd eu canlyniadau beth bynnag am eu mewnbwn; ac awgrymodd un hysbyswr o sefydliad y drydedd sector eu bod wedi eu gadael 'allan o'r cylch' gan ACLL, serch ceisio eu sicrhau i'r gwrthwyneb.

Ar y llaw arall, amlygodd un datblygwr eu bod yn teimlo y byddai pobl yn gwrthwynebu o ran egwyddor yn hytrach nag ar sail manylion; ond roedd unigolyn yn teimlo bod datblygwyr yn cysylltu cyn lleied â phosibl (ac wrth wneud hynny yn tueddu tuag at agwedd ehangach gyda fawr ddim manylion). Yn yr un modd, awgrymodd hysbyswr Cyngor Cymuned eu bod yn teimlo, mewn prosiect penodol diweddar, bod y datblygwyr yn ceisio 'gwthio pethau' drwy'r system.

Er bod rhai eithriadau, roedd diffyg ymddiriedaeth yn targedu'r system ei hun, a thrwy hynny yr ACLL a swyddogion cynllunio, yn hytrach na datblygwyr neu randdalwyr eraill yn uniongyrchol. Gall hyn fod oherwydd y ffordd y delir ag ymgysylltiad yn gyffredinol a'r hollt rhwng dulliau technegol mewn ymgysylltiad a chynrychiolaeth wleidyddol.

"Yn amlwg gwnaeth y datblygwyr eu gorau i sicrhau'r cyswllt lleiaf gyda'r gymuned, ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o'r datblygiad dan gynnig tan wythnos neu ddwy cyn y dyddiad cau i wrthwynebu." (Unigolyn).

Ynghylch y system, teimlai sawl cyfranogwr bod Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, y broses Ymgynghoriad Cyn-Cais ac apeliadau cynllunio – gyda'i gilydd – yn gosod safon isel o ran safonau ymgysylltiad; mynegodd grŵp cymuned deimladau cryf o annhegwch dros ddiffyg hawl trydydd parti i apelio.

Mae'n amlwg bod llawer o ddiffyg ymddiriedaeth o fewn y broses gynllunio; i raddau anelir hyn at randdalwyr eraill ond fe'i sianelir yn fwyaf tebygol tuag yr ACLL (fel y gwneuthurwr penderfyniadau), ac yn fwy

cyffredinol tuag at weinyddiaeth gyhoeddus. Gan mai, yn bennaf, safbwynt aelodau'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr yw hyn, mae'n anodd cyflwyno achos dros ymgysylltiad rhyngweithiol iddynt pan maent wedi cael profiad negyddol personol blaenorol.

Gellir lleihau'r teimlad o gael eich anwybyddu trwy arddangos gonestrwydd a thryloywder mewn gweinyddiaeth gyhoeddus wrth: godi ymwybyddiaeth o sgôp y broses, gwell cyfathrebu a rheolaeth disgwyliadau sydd wedi ei ymarfer yn weithredol o'r cychwyn, yn ogystal â galluogi cyfranogwyr i fynd at lwybr cyswllt trwy ymgysylltiad wedi ei gysylltu â Chynlluniau Cynefin. Gellir galw'r llwybr hwn trwy ymgysylltiad yn 'gynllunio cynefin' wedi ei gysylltu'n

weithdrefnol ag ymgysylltiad mewn cynllunio, ac wedi ei gynnal ar lefel genedlaethol, strategol a lleol i'r agenda creu lleoedd lleoledig bach, mwy materol.

4.3 Galluogi Swyddogion Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Materion perthnasol:

Rôl ACLL, adnoddau'r ACLL, eglurder y broses.

Canlyniadau allweddol:

Roedd rhai Swyddogion ACLL yn aneglur ynghylch eu rôl yn y broses ymgysylltiad ac yn ansicr am y methodau, ar wahân i'r ychydig a ddefnyddir yn aml. Hyd yn oed pan fo ewylllys i ymgysylltu, mae pwysau adnoddau ac amser yn cyfyngu lle i arloesi.

Yn ein gwaith maes, yn aml deuai cydnabyddiaeth oddi wrth yr ACLL - pa mor bwysig bynnag yr edrychwyd ar ymgysylltiad - o'r diffyg adnoddau sy'n ofynnol i weithredu'n effeithiol. Nododd un swyddog bod gwaith ymgysylltiad fel arfer yn cael ei roi ar gcontract allanol i ymgynghorwyr oherwydd prinder staff mewnol. Soniodd Swyddog arall na allant fforddio archwiliadau hir ar y CDLL, er y byddai ymgysylltiad mwy ystyrlon (sy'n cymryd llawer o amser) yn gallu efallai lleihau costau yn gyffredinol. Yn wyneb diffyg arian, roedd esiamplau o ddulliau creadigol tuag at ddod o hyd i weithgareddau ymgysylltiad: mae Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy wedi gallu cyflogi Swyddog Datblygu Cymuned / Cynlluniau Cynefin ac mae'r rôl hon yn talu ar ei chanfed (gweler astudiaeth achos).

"Nid yw'r gymuned yn gwybod sut i ymgysylltu'n llawn ond dwi'n meddwl ei fod yn ddyletswydd ar dimau cynllunio, yn rhannol, i helpu pobl i ymgysylltu."

(Trydydd sector)

Fel y gwelwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, mae gweithdrefnau technegol a thargedau perfformiad yn cael blaenoriaeth ar ymgysylltiad ystyrlon. Mae'r gostyngiad 50% mewn adnoddau'r ACLL yn y ddegawd ddiwethaf yng Nghymru, yn anochel, wedi cael effaith ar eu gallu i gynnal ymgysylltiad ystyrlon. Gwnaed hyn yn waeth gan gyflwyno canolfannau cyswllt canolog ar gyfer Awdurdodau Lleol, sydd wedi ymbellhau Swyddogion ACLL oddi wrth y cyhoedd.

Yn ogystal dylid nodi nad yw sgiliau ymgysylltiad a chyfranogaeth yn ffurfio rhan greiddiol hyfforddiant cynllunwyr, a dylid delio â hyn trwy hyfforddiant. Efallai pryder mwy, yw awgrym un Swyddog ACLL nad ydynt yn gwybod beth ddylai eu rôl fod mewn proses ymgysylltiad, ynghyd â synnwyr cyffredinol gan ymatebwyr bod diffyg ymgysylltu â dulliau a methodau (tu hwnt i'r rhai a ddefnyddir yn arferol) yn eang o fewn y sector. Efallai bod angen agwedd systemig tuag at asesu sgiliau ymgysylltiad a'r adnoddau ymroddedig ar gael i ACLL a darparu hyfforddiant pwrpasol.

4.4 Cytuno ar broses ymgysylltiad gyda, nid ar gyfer rhanddalwyr.

Materion perthnasol: cytuno ar broses, ymddiriedaeth, ystod o ddulliau, amseru, diddordeb isel.

Canlyniadau allweddol: Gall cyd-gynhyrchu gweithgareddau ymgysylltiad wella nifer ac amrywiaeth y cyfranogwyr.

Dangosodd y data gonsensws o blaid gwell rheolaeth ar ddisgwyliadau ar gyfer yr holl randdalwyr, ac yn enwedig y disgwyliadau gan y cyhoedd, er mwyn maethu ymddiriedaeth, cadw ffocws y gweithgareddau ymgysylltiad ac ychwanegu gwerth.

Gellir cefnogi rheolaeth disgwyliadau'n effeithiol trwy gyd-gynhyrchu proses ymgysylltiad gyda rhanddalwyr (yn hytrach nag ar gyfer rhanddalwyr). Mae'r data a gasglwyd yn y gwaith maes, a gefnogir gan lenyddiaeth, yn awgrymu byddai amrywio'r dull, lleoliad ac amser y dydd / wythnos o fewn rhaglen gweithgaredd ymgysylltiad yn galluogi mwy o bobl i fynychu ac i gyfranogi ac - i raddau - cael cyfranogaeth fwy amrywiol. Dywedodd hysbyswr bod Cyngor Cymuned wedi gwahodd ymgynghorydd cynllunio i'w cyfarfod i eglurhau a thrafod ymgynghoriad cyn-cais; o fynychu, roedd y ddwy ochr wedi gweld y gweithgaredd yn fuddiol i roi min ar y gweithgareddau a gynhaliwyd, ac fe gymeradwywyd y cais heb drafferth.

Gallai cyd-gynhyrchu a chytundeb o flaen llaw, ynghylch natur a'r math o ymgysylltiad, wella nifer y cyfranogwyr ac amrywio'r gynulleidfa. Mae hefyd yn bwysig trafod paramedrau penodol o flaen llaw, megis terfyniadau daearyddol, a thrwy gyd-ddylunio bod y rhanddalwyr yn deall eu rôl mewn perthynas â'i gilydd. Mae'r egwyddor hon yn mynd tu hwnt i aelodau'r cyhoedd gan fod y cyfweiliadau wedi amlygu, mewn prosiectau gyda chyrff cyhoeddus lluosog yn cydweithio, y gellir cael disgwyliadau camosodedig rhwng y cyrff hyn (ac adrannau o fewn yr un awdurdod) gan effeithio ar werth ymgysylltiad, ac yn y pen draw ar wneud penderfyniadau effeithiol.

Astudiaeth Achos: Cynllun Cynefin Y Drenwydd & Llanllwchaearn



Gan y byddai eu Cynllun Cymuned wedi dyddio'n fuan a chyda datblygiad arwyddocaol yn cymryd lle yn Y Drenwydd, yn cynnwys ffordd osgoi newydd a champws iechyd, dymunodd Cyngor Tref Y Drenwydd a Llanllwchaearn i ymgysylltu'r gymuned a dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio'r dyfodol mewn Cynllun Cynefin.

Amcanion y prosiect

Gweithiodd Cyngor y Dref mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr Cymorth Cynllunio Cymru a Place Studio i ddatblygu cynllun a fydd yn rhoi manylion "Y Drenwydd" yng Nghynllun Datblygu Lleol Powys (2011-2026).

Beth oedd eu bwriad?

O'r diwrnod cyntaf, anelodd Cyngor y Dref i weithio'n agos gyda'r gymuned leol i gael eu safbwyntiau ar ddefnydd tir a materion llesiant eraill a oedd yn bwysig iddyn nhw, ac i ddefnyddio'r dystiolaeth yma i gefnogi'r cynllun. Mabwysiadwyd dulliau ymgysylltu mentrus i gychwyn "sgwrs" gyda phawb â diddordeb yn nyfodol Y Drenwydd. Roedd tîm cynllunio polisi Cyngor Sir Powys yn ymroddedig yn gynnar yn y broses ac yn annog y Cynllun Cynefin yn weithredol gydag arian o Dîm Adnewyddu'r Cyngor i hybu'r gwaith.

Beth sydd o werth?

Rhwng Ionawr 2019 ac Ionawr 2021 - mynychodd 321 o bobl y digwyddiadau, ymatebodd 106 o bobl i arolwg ar-lein, roedd 58 o sefydliadau lleol yn weithredol yn y prosiect a darparwyd 7000 o sylwadau. Cynhaliwyd 11 digwyddiad a 10 cyfarfod rhanddalwyr. Roedd y cyfnod ymgysylltiad llwyddiannus wedi hysbysu drafftio polisiau'r Cynllun Cynefin yn ystod 2019/20, gyda Chyngor y Dref yn mabwysiadu'r Cynllun yn yr Hydref 2020. Mae Cyngor Sir Powys wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn barod ar gyfer mabwysiadu'n derfynol, a chyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol y Cynllun Cynefin yn yr Haf 2021. Mae gweledigaeth Cyngor y Dref i rymuso'r gymuned wedi bod yn llwyddiant, ynghyd â'r dymuniad bod polisiau ysbrydoledig Y Drenwydd, i ddod yn "ystyriaethau perthnasol" o fewn y CCA, yn cael ei wireddu os mabwysiedir y Cynllun Cynefin fel CCA. Mae'r Cynllun Cynefin "Ein Tref, Ein Cynllun" yn gosod gweledigaeth ar gyfer y lle mae'r Drenwydd yn anelu at fod erbyn 2036 ac yn delio â thair prif thema: a) Y Drenwydd - lle gwych i fyw, i ddysgu a gweithio, b) Y Drenwydd

Werdd a c) Cyrchfan Y Drenewydd Mae'r Cynllun yn esbonio'n eglur bod "pob polisi a phrosiect yn y cynllun yn seiliedig ar awgrymiadau gan y gymuned."

Mae proses y Cynllun Cynefin wedi cael llawer o fuddion, yn cynnwys synnwyr o gaffael gwybodaeth cynllunio yn lleol, a pherthynas waith gwell rhwng Cyngor y Dref a'r Cyngor Sir. Gan mai'r Cynllun yw'r cyntaf ym Mhowys mae wedi codi proffil y dref ac fel yr esboniodd Cyng. Richard Edwards Cyngorydd Arweiniol, Cynllun Lle., bellach gwelir Y Drenewydd fel "*lle i wneud busnes*". Mae'r Cynllun Cynefin yn amlinellu llywio eglur ar gyfer gwaith y dyfodol, a gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth i ddenu cyllid allanol.

Esboniodd Sorelle White "*Mae darparu tystiolaeth o angen y gymuned yn aml wrth galon ceisiadau am arian cyhoeddus - o reswm! Defnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y Cynllun Cynefin mewn 4 cais am arian hyd yma. Mae 2 o'r rhain wedi bod yn llwyddiannus. Heb os roedd tystiolaeth y Cynllun Cynefin wedi cryfhau'r ceisiadau hyn*". Hyd yma mae'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r prosiect Cynllun Cynefin trwy ymgynghoriad cyhoeddus wedi arwain at nifer o geisiadau llwyddiannus am gyllid yn cynnwys cyllid £500k Bioamrywiaeth ac Isadeiledd Gwyrdd Llywodraeth Cymru a £675k Cronfa'r Economi Gylchol i Gefnogi Adferiad Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Mae cais am £200k wedi ei gyflwyno i Gronfa Adfer Llywodraeth y DU i gyflenwi nifer o brosiectau adfer gwyrdd a nodwyd yn y Cynllun Cynefin.

Crynodeb

Cynllun Cynefin Y Drenewydd yw'r cynllun swyddogol cyntaf yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys i'w ystyried ar gyfer ei fabwysïadau fel CCA ac mae'n ganlyniad i ymgysylltiad llwyddiannus a gwaith partneriaeth ar bob lefel. Mae'n cynrychioli dull lleol a chynaliadwy o greu Lleodedd fel y rhagnodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Cynefin yn rhoi lefel leol o fanylion i CDLL y Cyngor Sir ac fe'i hystyrir pan adolygir y CDLL o 2022. Bydd hyn yn helpu hysbysu a llunio sut bydd y CDLL yn berthnasol i ardal Y Drenewydd.

Gwersi a ddysgwyd:

- Yn y cychwyn dechrau "sgwrs" gyda'r gymuned leol.
- Bod yn eglur ar raddfa, costau a sut bydd y Cynllun Cynefin yn ffitio gyda chynlluniau eraill.
- Mae cyfathrebu ac ymgysylltiad cynnar gyda'r ACLL yn hanfodol.
- Ystyried cynnal grŵp llywio.
- Cysylltiadau da a chyswllt yn ofynnol gyda grwpiau cymuned leol
- Adborth parhaus yn ystod y broses ymgysylltiad – cylchlythyrau ar-lein, diweddariadau gwefan
- Gellir defnyddio tystiolaeth a gesglir yn ystod yr ymarfer Cynllun Cynefin ar gyfer ceisiadau am gyllid gan ystod o randdalwyr y gymuned.

Am fwy o wybodaeth: <https://newtown.org.uk/consultations/placeplan.html>

Thema 5: Sicrwydd y broses a chanlyniadau

5.1 Gwneud y broses yn llyfnach.

Materion perthnasol: Gwneud y broses yn eglurach, cytuno ar y broses gyda rhanddalwyr, gonestrwydd, rheoli disgwyliadau, cyfathrebu, gwerth ymgysylltiad ychwanegol

Canlyniadau allweddol: Sicrwydd prosesau ymgysylltiad yn cefnogi gwneud penderfyniadau yn effeithiol a llyfn, gan ychwanegu gwerth ac osgoi risgiau sy'n berthynol i heriau cyfreithiol.

Gall proses ymgysylltiad eglur gefnogi sicrwydd proses i'r holl gyfranogwyr. Cefnogir sicrwydd proses gan lwybr eglur trwy ymgysylltiad, oherwydd bydd yr holl gyfranogwyr yn gwybod beth sydd i'w drafod ar bob cam penodol, beth ddylai pob cam ei gyflawni a rhoi syniad eglur o amseroedd a goblygiadau o ac i ymgysylltiad. Mae amser a chyfarwyddyd eglur o werth i'r holl gyfranogwyr yn ôl ein data ni, sy'n cadarnhau canlyniadau o'r llenyddiaeth.

Mae ymgysylltiad yn anodd ac yn cymryd amser i ddinasyddion, gweinyddiaeth gyhoeddus a'r diwydiant datblygu fel ei gilydd. Rydym wedi gweld pa mor gostus yw ymgysylltiad i ACLL, yn enwedig yn dilyn toriadau oherwydd caledi. I'r diwydiant datblygu gall unrhyw oedi achosi costau annisgwyl ac addasiadau rheolaeth. Mewn mannau ble mae ymarfer ymgysylltiad rhagweithiol yn fwy sefydledig, mae datblygwyr yn dechrau adnabod y buddion o ymgysylltu'n effeithiol, felly mae'r diwylliant yn newid. Yn ogystal, mae llwybrau eglur drwy ymgysylltiad, sydd wedi eu dylunio a'u dogfennu'n dda, yn lleihau'r risg o arolwg barnwrol, sy'n effeithio'n fawr ar allu datblygwyr i gynllunio a rheoli adnoddau'n effeithiol ac yn amserol.

Mae ein data'n awgrymu bod yn well gan y rhan fwyaf broses lefn yn hytrach nag un herciog a phroses ymgysylltiad anodd. Dywedodd Swyddog ACLL bod ymgysylltiad 'gwir' fel arfer yn rhoi proses gynllunio llyfnach i bawb. Ategwyd hyn gan gymuned ac ymgynghorydd cynllunio. Fodd bynnag, awgrymodd yr ymgynghorydd cynllunio byddai proses lefn yn 'cyflymu' yr ymgynghoriad, gan awgrymu o'u rhan nhw y byddai ffocws ar effeithlonrwydd wrth gyrraedd penderfyniad. Ni fyddai'r ffocws yma, o anghenraid yn gostwng ansawdd ymgysylltiad, na chanfyddiad y canlyniadau i'r gymuned.

Dywedodd Swyddog ACLL bod Ymgynghoriad Cyn-Cais (YCC) yn effeithiol wrth alluogi proses lyfnach; fodd bynnag, awgrymodd cynghorau cymuned a grŵp cymuned nad yw YCC, ynghyd â gofynion statudol eraill ar gyfer ymgynghoriad, yn hwyluso lefel o ymgysylltiad a all ymestyn

"O'm safbwynt i a'r cleient, roedd ymgynghoriad cyn-cais yn ffordd dda i feddwl drwy'r cynnig ac i ystyried pa sylwadau a phryderon fyddai'n codi o bersbectif allanol cyn cyflwyno'r cais."

(Ymgynghorydd Cynllunio)

canlyniadau posibl iddynt hwy, yn enwedig ag ystyried y bydd y camau dylunio, fwy na thebyg, wedi eu cwblhau pan ddechreuir YCC. Gwelodd rai hyn fel rhoi lefel o ragderfynu yn y canlyniadau, ac felly dylai'r llwybr drwy ymgysylltiad gychwyn lawer ynghynt yn y broses creu CDLL a symud ymlaen i YCC a cheisiadau mewn ffordd gyson ar y cyd, er mwyn ychwanegu gwerth (nid tynnu gwerth, bo hynny'n ariannol, rheolaethol neu amserol). Yn ddelfrydol byddai Cynlluniau Cynefin wedi eu hamseru i gydfynd a chefnogi proses o'r fath. Tra na ellir ystyried yr enghraifft hon fel y darlun cyflawn o stad y broses YCC ar draws Cymru, mae'r enghreifftiau yn amlygu angen potensial am archwiliad pellach ar effeithiolrwydd y broses honno.

Yn y pen draw, bydd prosesau ymgysylltiad wedi eu cyd-gynhyrchu, sy'n galluogi dod at gytundeb ar ganlyniadau derbyniol, mewn modd strwythurol eglur, yn gwneud y broses gynllunio yn fwy ystyrlon i bawb.

5.2 Rheoli disgwyliadau.

Materion perthnasol: dulliau ymgysylltiad priodol; cytuno ar broses; cyfathrebu; rôl ACLL.

Canlyniadau allweddol: Mae'n hanfodol bod yr holl raddalwyr yn deall beth yw, ac nad yw'n bosibl, yn nhermau canlyniadau pob cam o'r ymgysylltiad, a bod mesurau concrit yn cael eu cymryd i gefnogi rheolaeth disgwyliadau gan yr ACLL.

Roedd cadw ffocws ymgysylltiad ar faterion cynllunio, a rheoli disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch yr uchelgeisiau y gall pob cam o ymgysylltiad eu gwireddu, yn un o negeseuon cryfaf yr ACLL a chynllunwyr proffesiynol yn gyffredinol. I raddau roedd Cynghorau Cymuned yn rhannu'r safbwynt hwn gan awgrymu bod bod yn eglur o'r cychwyn ynghylch yr hyn a ellir (ac, yn bwysicach yr hyn na ellir) ei gyflawni, o bob cam o ymgysylltiad, yn hanfodol er mwyn rheoli a lleihau'r anfodlonrwydd mae aelodau'r cyhoedd yn ei deimlo ynghylch penderfyniadau cynllunio. Fodd bynnag, mae sgôp i reoli disgwyliadau rhanddalwyr eraill: awgrymodd un hysbyswr ACLL y dylai disgwyliadau swyddogion cynllunio ffurfio sail yr hyn y gall datblygwr ei gyflawni ar brosiect.

Mae'r ddadl hon yn cefnogi awgrymiadau o'r llenyddiaeth yn ogystal â chyd-fynd â phrofiadau Cymorth Cynllunio Cymru ynghylch cyflenwi hyfforddiant a chynghor i grwpiau cymuned: unwaith y bydd pobl yn deall sgôp y system gynllunio a sut y gwneir penderfyniadau, maent yn llawer mwy tebygol o fod yn fodlon gyda phenderfyniad cynllunio, hyd yn oed pan mae'n mynd yn erbyn eu dymuniadau.

"Ceisiwch eto ac eto i bwysleisio na fydd y dewisiadau'n benagored a bydd yr ymgysylltiad yn gyfyngedig i ddewisiadau penodol."

(Swyddog ACLL)

Cysylltir rheolaeth disgwyliadau â sut y cyflwynir digwyddiadau ymgysylltiad, sut y gwahoddir rhanddalwyr a sut a phryd y gosodir ffiniau i'r sgysiau. Wrth sôn am brofiad blaenorol, awgrymodd un ymgynghorydd cynllunio, mewn achosion penodol, byddai eglurhau'r cyfyngiadau cyn gweithgaredd ymgysylltiad wedi cynhyrchu sylwadau a thrafodaeth â mwy o ffocws mewn achosion penodol. Awgrymodd hysbyswyr eraill ei bod yn bwysig iawn i gael

eglurder ynghylch safbwyntiau pwy a ystyrir: yn aml nid yw cyfranogwyr yn ymwybodol y bydd mewnbyn ymgynghoreion technegol statudol yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'i un hwy, na bod y cyhoedd yn chwarae rôl mewn proses sy'n cynnwys prosesau ac arbenigedd tu hwnt i'w hymrwymiad hwy. Amlygodd rhanddalwyr ar draws y sectorau y gall gweithgareddau ymgysylltiad, sydd wedi eu strwythuro'n llac, ddelio â nifer o faterion di-gynllunio, sy'n creu gwaith ychwanegol i ddod o hyd i gyfraniadau perthnasol. Roedd gorchwyl y Swyddogion ynghylch yr agwedd hon yn aneglur: awgrymodd un Swyddog ACLL mai eu swydd hwy yw cyfarwyddo pobl i'r lle iawn, tra aeth un arall ymhellach trwy awgrymu y dylai ymgynghoriadau wahodd mewnbyn agored, ac y dylai hidlo cyfraniadau perthnasol wedyn fod yn rhan annatod o'r broses.

Mae sefydlu ffiniau o'r cychwyn yn hanfodol o bwysig, fel yr awgrymodd llawer o broffesiynolwyr cynllunio a rhai hysbyswyr Cynghorau Cymuned, oherwydd gellid gweld bod cyflwyno gorchwylion yr ymarfer ar y diwedd, yn hytrach na'r cychwyn, fel cyfyngiad ac y gallai waethygu tensiynau. Cododd hysbyswyr ymysg y Cynghorau Cymuned y mater o eglurder daearyddol (e.e. pa ddogn o dir a / neu ardal benodol bydd yr ymarfer yn delio ag ef).

Tra bo ACLL a'r proffesiwn yn ymwybodol o'r angen i reoli disgwyliadau, mae'n aml yn anodd gweld sut y gellir traddodi'r ymwybyddiaeth yma i ymarfer. Er enghraifft, mae cyfathrebu rheoli datblygu yn tueddu i ddibynnu ar hysbysiadau statudol sydd ddim yn sefydlu'r ffiniau a chyfyngiadau'r ymarferion ymgynghoriad – byddai'n fuddiol i wella eglurder llythyrau hysbysu, hysbysiadau safle a chyfathrebu safonol arall. Gellid datblygu a chylchredeg canllawiau cynhwysfawr ar reolaeth disgwyliadau trwy gyfathrebu yn y tymor canolig er mwyn goresgyn y mater hwn a sicrhau cysondeb ar draws Cymru.

5.3 Creu cyd-ddealltwriaeth.

Materion perthnasol: gwerth ychwanegol, sail gwybodaeth gyffredin, cyfathrebu, grymuso cymunedau, dyfnder ymgysylltiad, tryloywder.

Canlyniadau allweddol: Mae adeiladu gwybodaeth leol a chyd-ddealltwriaeth yn enghreifftiau gwych o'r gwerth ychwanegol a gynhyrchir trwy ymarfer ymgysylltiad ystyrlon.

Un o'r negeseuon sylfaenol o'r maes yw diffyg dealltwriaeth y cyhoedd ynghylch y rhesymeg tu ôl i'r system gynllunio, ac anesmwythyd y cynllunwyr wrth gyfathrebu cymhlethdod y system yn rhwydd. Mae'r cymhlethdod yma, ynghyd â therminoleg aneglur, a ddefnyddir yn anghyson yn aml, yn paratoi'r ffordd ar gyfer camddealltwriaeth amrywiol.

"Roedd y cyfarfod Zoom yn galonnog iawn – a rhannodd y datblygwr y ffeithiau a chafodd pawb gyfle i siarad."

(Cyngor Cymuned)

Darganfuwyd yn y gwaith maes sawl esiampl o gyfathrebu heriol rhwng sectorau:

- Adroddodd un ACLL bod rhanddalwyr wedi eu synnu i weld dosraniad mawr o dai yn eu hardal mewn CDLL adnau, er eu bod yn bresennol ar gyfnod cynharach. Gall hyn awgrymu diffyg eglurder / dealltwriaeth o'r hyn a gyflwynwyd.
- Adroddodd Cyngor Cymuned bod cyfathrebu rhai agweddau o'r CDLL a gytunwyd arnynt eisoes yn anodd heb ddealltwriaeth gadarn o'r system gynllunio.
- Adroddodd ACLL arall – tra bod yn rhaid i CDLL fod yn gadarn – nid yw'r cyhoedd yn deall yr hyn a awgrymir gan y cysyniad o 'gadarnid'.
- Adroddodd Cyngor Cymuned arall nad oedd grŵp llywio Cynllun Cynefin wedi deall goblygiadau'r amserlenni o amgylch datblygu CDLL.

Gall camddeall y system gynllunio fod yn her sylweddol i'r rhai sydd ynghlwm, a pharatoi'r ffordd ar gyfer 'chwedlau trefol': teimlai Swyddog ACLL bod y cyhoedd yn tybied, yn ddiofyn, bod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud cyn ymgysylltu. Yn hytrach mae ymgysylltiad, ar ei lefel fwyaf sylfaenol, yn creu cyfleoedd i raddallwyr gwahanol i ddatgan ac esbonio eu safleoedd, sy'n cynorthwyo maethu cyd-ddealltwriaeth a rhannu gwybodaeth: darganfu arbenigwr ymgysylltiad bod ymgysylltiad parhaus yn eu cadw hwy a'r cyhoedd yn ymwybodol, gan sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir. Nododd Swyddog ACLL bod ymgysylltiad nid yn unig yn rhoi'r cyfle iddynt i gyflwyno'r rhesymeg tu ôl i'w penderfyniadau, ond hefyd yn eu galluogi i eglurhau agweddau o'r broses ddatblygu ei hun; mae manteision parhaol i hyn, tu hwnt i'r ymarfer dan sylw, wrth ddatblygu ymddiriedaeth yn y system a chynhyrchu gwybodaeth leol a chydlyniant y gymuned.

Mae cyfathrebu yn allweddol i alluogi datblygu cyd-ddealltwriaeth a gwybodaeth leol dros amser. Yn ddi-os, mae angen eglur i gyflwyno materion, syniadau, strategaethau a pholisïau mewn dull a ellir ei ddeall yn hawdd gan ystod eang o bobl. Byddai'n fuddiol i wella ffurf (delweddau, fideos, animeiddio) ac iaith gyfathrebu. Fodd bynnag, dylid sicrhau sefydlu sianel gyfathrebu 2-ffordd, ble mae mewnwelediad lleol yn rhyngweithio gyda gwybodaeth dechnegol ac arbenigol yn gymaint â mae arbenigedd technegol yn cael ei rannu a'i drafod yn agored mewn proses sydd wedi ei anelu at ychwanegu gwerth, nid yn unig i ganlyniadau materol y prosiect dan sylw, ond i gydlyniant cymunedol a datblygiad cyd-ddealltwriaeth. Gall ymarfer ymgysylltiad da'n seiliedig ar gyfathrebu 2-ffordd chwalu 'anwireddau', cefnogi newid diwylliannol mewn ardaloedd lleol a gwrthsefyll gwybodaeth anghywir.

5.4 Amser priodol.

Materion perthnasol: Cyfyngiadau amser, amseru

Canlyniadau allweddol: Mae amser (ac aliniadau penodol ar draws Cynllunio Cynefin) yn hanfodol ar gyfer ymgysylltiad ystyrlon.

Yn y gwaith maes cafwyd amrywiaeth eang o ran amser ar ymarferion ymgysylltiad diweddar: nid oedd digon o amser i rai i gyrraedd ymgysylltiad yn foddhaol, tra roedd eraill wedi mynd ymlaen am gymaint o amser nes y collwyd ffocws ac ysgogiad.

Amlygodd dau ACLL brosesau gor-ymestynol oedd wedi effeithio ar y cam creu cynllun strategol yn benodol; tra amlygodd hysbyswr Cyngor Cymuned y gellir amharu ar broses hir trwy newid personél.

Ar y llaw arall, gall amserlenni statudol gyfyngu ar y potensial i ymgysylltu'n ystyrlon: awgrymodd Cyngor Cymuned bod yr amserlenni a osodir gan arolygydd yn aml yn annigonol er mwyn gweithredu'n effeithiol ac i ganiatáu cynhyrchu gwerth ychwanegol yn y broses ymgysylltu. Yn yr un modd, awgrymodd ACLL bod cyfnodau ymgynghoriad statudol yn aml yn annigonol ar gyfer ymgysylltiad effeithiol.

Mewn cyfweiliad soniwyd am ddarniad yn nhermau amseru h.y. bod canlyniadau'r broses ymgysylltiad yn gwrthdaro ag astudiaeth arall a ymgwymerwyd ar yr un pryd, gyda'r canlyniad bod diffyg eglurder dros beth oedd yn cymryd y flaenoriaeth, o ganlyniad i ganllaw annigonol ynghylch materion amseru.

Mae'r gwrthddywediadau uchod yn gofyn am yr angen i a) gydnabod bod amser ac amserlenni'n hanfodol wrth anelu at gyflawni ymgysylltiad ystyrlon, ynghyd â bod yn hollol eglur; a b) i gydnabod a darparu hyblygrwydd ar gyfer ymgysylltiad sy'n 'gweddu' i'w gyddestun a'i uchelgeisiau. Yn y pen draw, ymddengys mai cyd-gynhyrchu a chytuno o flaen llaw ar broses gydag uchelgeisiau ac amserlenni eglur gyda rhanddalwyr yw'r llwybr mwyaf addawol at broses a all ychwanegu gwerth.

"Parhaodd y broses am gyfnod rhy hir oherwydd amserlenni'r awdurdod lleol / amserlenni cyfarfodydd. Golygodd hyn bod llai o gynrychiolwyr y gymuned wedi mynychu a bu newid mewn swyddogion a chymuned oedd wedi niweidio parhad syniadau."
(Ymgynghorydd cynllunio)

Astudiaeth Achos: Ymgynghoriad cyn-cais yn Llandrillo-yn-Rhos



Cefndir

Roedd landlord cymdeithasol, annibynnol oedd wedi ei gofrestru'n nid-er-elw (RSL) am ddatblygu 19 fflat o fewn adeilad rhestredig yn Llandrillo-yn-Rhos. Cynhaliwyd ymarfer ymgynghoriad cyn-cais.

Sut wnaethon nhw hyn?

Trefnwyd digwyddiad ymgynghoriad cyn-cais, gyda llawer yn mynychu, gyda'r rhai a fynychodd yn gallu rhoi sylwadau ar y cynlluniau a arddangoswyd a chael trafodaethau gyda RSL oedd yno i gynorthwyo. *"Ar un adeg roedd ciw o bobl yn aros i fynd i mewn."* (Cynghorydd lleol)

Beth sydd o werth / Pa wahaniaeth mae hyn wedi ei wneud?

Mynychwyd yr ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus yn dda, gyda'r gymuned leol yn cael cyfle i fynegi eu safbwyntiau. Cynhaliwyd y digwyddiad mewn adeilad cyhoeddus yn agos at y safle datblygu. Roedd pryderon ynghylch y briffordd a pharcio, edrych dros eiddo arall, cysgodi eiddo arall, y nifer o unedau dan gynnig a materion ynghylch casglu sbwriel. Codwyd dymuniad y gymuned i gadw arwyneb hanesyddol yr adeilad ar yr adeg yma. Y farn gyffredinol oedd bod sawl mater i'w datrys cyn cyflwyno'r cais cynllunio ffurfiol. Fodd bynnag, roedd y cyfathrebu rhwng y datblygwr a'r gymuned yn y cyfnod rhwng y cam cyn-cais a'r cam cyflwyno cais ffurfiol yn ddiffygiol gyda dilyniant ac adborth cyfyngedig.

Crynodeb

Mae hwn yn brosiect cyn-cais ble mae datblygwr yn gobeithio datblygu safle â gwerth hanesyddol o fewn y gymuned leol. I fwyhau potensial y safle mae RSL yn cynnig 19 fflat sydd, ym marn trigolion lleol, yn or-ddatblygu'r safle.

Gwersi a ddysgwyd:

- Mae'n rhaid cymryd safbwyntiau'r gymuned ymlaen i'r cam cyflwyno cynllun.
- Mae adborth a chyfathrebu gyda'r rhai a fynychodd yr ymgynghoriad cyn-cais yn hanfodol gydag adborth ar y pryderon a godwyd.
- Dylai datblygwyr sy'n ymwneud ag ymgynghoriad Cyn-Cais roi gwybod i'r gymuned beth yw'r camau ynghlwm - gadael i'r gymuned wybod pan fydd y cynllun wedi ei gyflwyno, y newidiadau a wnaed a darparu cyswllt i'r adroddiad Ymgynghoriad Cyn-Cais.
- Cynnal ymgysylltiad cynnar gyda phawb yn y cam cyn-cais - grwpiau trigolion lleol, Cynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r holl faterion - dialog agored yn ofynnol sy'n sicrhau ymddiriedaeth rhwng pawb.
- Llywodraeth Cymru i ystyried newid mewn gweithdrefn – cyfarfod i'w gynnal gyda phawb perthnasol i gyfarfod a thrafod yr holl faterion perthnasol cyn yr ymgynghoriad cyn-cais. Hefyd, bod y rhai wnaeth sylwadau yn y cam cyn-cais yn cael gweld yr adroddiad Ymgynghoriad Cyn-Cais.

Am fwy o wybodaeth:

Cyngor Tref Bae Colwyn - <https://www.colwyn-tc.gov.uk/cy/>

Thema 6: Costau ac ecwiti

6.1 Ymgysylltu'n gynhwysol.

Materion perthnasol: Ystod o ddulliau, defnyddio offer digidol, defnyddio rhwydweithiau presennol, hybu ymgysylltiad, cynnwys arbenigedd arbenigol.

Canlyniadau allweddol: Mae'n hanfodol defnyddio ystod o rwydweithiau ac offer mor eang â phosibl i sicrhau proses ymgysylltiad cynhwysol.

O'r holl ddulliau a ddefnyddiwyd, roedd ymgysylltu mewn dull cynhwysol yn fater pwysig a godwyd yn ein gwaith maes. Mae hygyrchedd yn allweddol yn nhermau galluogi unigolion a grwpiau o bob oed, lleoliad daearyddol, cefndir diwylliannol a chrefyddol, iaith ac amhariad corfforol a meddwl, er mwyn ymgysylltu'n ystyrlon.

Tra nad yw'n fwriadol, yn anaml neu fyth, i eithrio pobl o unrhyw gefndir, ymddengys ei bod yn heriol iawn, os nad yn amhosibl, i deilwra gweithgareddau ymgysylltiad sy'n 'gweddu', trwy amrywio'r fformat, y lleoliad, hyfforddiant, amseru, hygyrchedd, hyd, iaith ac arddull gweithgareddau ymgysylltiad, i anghenion amrywiaeth o grwpiau. Yn ogystal, cododd un hysbyswr ACLL y mater – ble bynnag mae'r lleoliad a'r meddwl sydd wedi mynd i mewn i ddylunio digwyddiad penodol – mae llawer o bobl yn teimlo'n bryderus wrth fynychu a chyfrannu mewn ymgynghoriadau.

"Nid yw pobl yn ffwdanu ymateb mewn ffordd a ellir ei ganfod trwy ddefnyddio dulliau ymgynghori cyfredol. Pe cynhelid ymgynghoriadau mewn dull mwy cynhwysol yna dwi'n meddwl y byddem yn cael mwy o ymatebion."

(Ymgynghorydd Cynllunio)

Mae rhai sylwadau wedi eu neilltuo at gyrraedd y grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. Ar y cyfan, roedd cydnabyddiaeth eang bod y grwpiau hyn yn colli allan yn rheolaidd. Er mwyn maethu cynhwysiant ehangach, byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach, hyfforddiant a chefnogaeth gyson ar draws Cymru. Awgrymodd yr hysbyswyr bod defnyddio rhwydweithiau presennol yn bwysig iawn er mwyn cyrraedd cynrychiolwyr, sefydliadau a didolwyr. Hefyd awgrymwyd annog 'pencampwyr lleol' i hybu cyfleoedd ymgysylltiad yn ehangach fel ffordd ymlaen, fel yr oedd cyngor pwrpasol gan elusennau arbenigol.

6.2 Ymgysylltu'n greadigol.

Materion perthnasol: Cynhwysiant, ystod o ddulliau, dulliau ymgysylltiad priodol, cytuno ar broses, cyfathrebu, cynnwys arbenigedd arbenigol, rhannu ymarfer gorau, adnoddau ACLL.

Canlyniadau allweddol: Gall dulliau creadigol o ymgysylltiad, gan ddefnyddio arbenigedd arbenigol pan yn briodol, gynhyrchu ymgysylltiad mwy ystyrlon mewn modd sy'n effeithiol o ran adnoddau.

O'n data daeth i'r amlwg, o ran ACLL, ei bod yn bwysig bod y diwydiant datblygu a'r cyhoedd fel ei gilydd, yn ymgysylltu'n uwch na'r lleisiau uchaf a'r rhai dan amheuaeth arferol'; a theimlwyd mai blaenoriaeth bwysig oedd bod yn fwy rhagweithiol er mwyn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Cafwyd cytundeb draws-sector bod defnyddio ystod o ddulliau ymgysylltiad - tu hwnt i'r llond llaw a ddefnyddir yn rheolaidd yn bresennol - yn allweddol er mwyn maethu cynhwysiant, a chydabuwyd efallai bod angen arbenigedd arbenigol i gefnogi gweithgareddau arbenigol â ffocws ar gyrraedd grwpiau penodol. Nid oes raid i ddulliau creadigol fod yn ddrud; efallai y byddant yn sicrhau canlyniadau mwy craff mewn amserlenni byrrach a, chan eu bod wedi eu teilwra i sefyllfaoedd penodol, gallant ychwanegu gwerth ar sawl agwedd: canlyniadau materol gwell ar gyfer prosiectau, mwy o gyd-ddealltwriaeth, ymddiriedaeth gynyddol yn y system gynllunio a gweinyddiaeth gyhoeddus. Yn ogystal, gall gweithgareddau ymgysylltiad fod yn greadigol ac yn hwyl!

Gallai adolygiad o ddulliau, a chanllawiau a dderbynnir ar draws y sectorau, ac wedi eu haddasu i gyd-destun Cymru, ddarparu sail gyson er mwyn i ACLL fentro dulliau mwy creadigol, yn ogystal ag amlygu'n eglur pan fod angen harnesu arbenigedd allanol.

"Gall teilwra ymgysylltiad i'r gynulleidfa helpu i ymgysylltu rhanddalwyr e.e. gwneud ymgysylltiad yn fwy cyfeillgar at blant gyda chrefftau / gemau pan yn briodol."

(Ymgynghorydd Cynllunio)

6.3 Ymgysylltu ar-lein, ond yn ofalus.

Materion perthnasol: dulliau ymgysylltiad priodol, creu dealltwriaeth, cytuno ar broses, cyfathrebu, COVID-19

Canlyniadau allweddol: Mae'r defnydd o offer ymgysylltiad ar-lein yn ffordd gost-effeithiol i ehangu cyrraedd, a dylid cydnabod ei botensial a'i gyfyngiadau ar gyfer y cyd-destun Cymreig.

Yn unol â'r adolygiad llenyddiaeth, gwelwyd yn y gwaith maes bod y defnydd o offer digidol yn fuddiol yn nhermau cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach (e.e. dinasyddion ifancach, grwpiau oed gwaith ac ati) mewn modd sy'n gost-effeithiol, ond rhaid cydnabod bod cyfyngiadau, yn enwedig ynghylch ymgysylltu â phobl hŷn, y rhai sy'n ddifreintiedig yn economaidd a'r rhai mewn ardaloedd gwledig heb fynediad da i'r rhyngwyd.

Cafwyd anghytuno ar draws y sectorau y byddai cyfuniad o ddulliau digidol ac wyneb yn wyneb, wedi eu dylunio i weddu i gyd-destunau penodol, yn debygol o fod y rhai mwyaf effeithiol i ddarparu gwerth ychwanegol.

Mae COVID-19 wedi cael effaith ar y prosesau ymgysylltiad trwy oedi / atal gweithgareddau ymgysylltiad a gynlluniwyd, ynghyd â chyflymu'r defnydd o offer digidol. Mae'r Cyfnodau Clo wedi gweithredu fel catalydd ar gyfer gwahanol randdalwyr i ymgysylltu ag ystod o offer digidol sy'n bodoli, yn amrywio o gyfryngau cymdeithasol generig i lwyfannau ymgysylltiad pwrpasol.

Ar wahân i'r rhybudd ynghylch y defnydd o offer digidol uchod, mae'n werth amlygu 1) efallai bod sgiliau, caffael ac ymwybyddiaeth o lwyfannau yn ddiffygiol ar hyn o bryd a 2) dylid ystyried ansawdd llwyfannau digidol ac ansawdd yr ymgysylltiad y gallant ei gyflawni heb sôn am a ydynt yn effeithiol mewn cynyddu mynychu ymgysylltiad. Byddai'n fuddiol cynnal ymchwil pellach ar sut gallai offer ar-lein wasanaethu'r amrywiaeth o gyd-destunau a thiriogaethau yng Nghymru er mwyn dyfeisio ffyrdd i symud ymlaen.

"Gallai'r defnydd o ymgynghoriad ar-lein fod wedi golygu bod mwy o bobl wedi cymryd rhan, yn ogystal â chyrraedd amrywiaeth ehangach o randdalwyr, yn cynnwys pobl ifanc a grwpiau anodd eu cyrraedd."

(Ymavnahorvdd Cynllunio)

6.4 Adeiladu ar rwydweithiau sy'n bodoli.

Materion perthnasol: dulliau ymgysylltiad priodol, adnoddau ACLL, cyfyngiadau amser, cyfathrebu, hybu ymgysylltiad

Canlyniadau allweddol: Gall defnyddio rhwydweithiau cymunedol sy'n bodoli fod yn adnodd ac yn gost-effeithiol, yn destun i gyfathrebu priodol.

Amlygodd y grŵp ffocws a'r cyfweiliadau y potensial o ddefnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli o fewn cymunedau er mwyn cyrraedd mwy o bobl yn fwy effeithiol. Soniwyd gan ymgynghoriaeth cynllunio am gymdeithasau dinesig fel 'didolwyr' i ymgysylltu grwpiau penodol. Soniodd datblygwr yn benodol am weithio gydag ysgolion a cholegau er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc, rhywbeth roedd Cyngor Cymuned wedi ei ddefnyddio'n enwedig o lwyddiannus wrth baratoi Cynllun Cynefin. Nodwyd bod mwy a mwy o rwydweithiau'n bodoli ar-lein y dyddiau hyn yn enwedig trwy lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd rhai wedi cael profiadau gwael o ymgysylltu trwy rai o'r rhwydweithiau hyn.

Mae Cyngorau Cymuned mewn trefi ac mewn amgylcheddau mwy gwledig yn chwarae rôl bwysig fel didolwyr i ymgysylltu â thrigolion gyda phroblemau cynllunio; a dylid parhau i faethu'r berthynas rhwng ACLL a Chynghorau Cymuned oherwydd hwy sydd wedi bod y rhai mwyaf llwyddiannus yn gyson hyd yma. Mae adeiladu ar rwydweithiau amgen sy'n bodoli, yn hynod o berthnasol mewn ardaloedd trefol mwy o faint yng Nghymru, lle nad yw Cyngorau Cymuned yn bodoli. Awgrymwyd cysylltiadau personol i gefnogi cyfathrebu, yn ogystal â defnyddio negeseuon ymgysylltiad priodol fel ymarferion gorau - a'r rhain yn llawer haws eu cyflawni wrth gysylltu â grwpiau sy'n bodoli gyda haniaethau penodol. Gallai mwy o ymchwil, gan yr ACLL helpu i adeiladu map o rwydweithiau lleol perthnasol ar gyfer ymgysylltiad.

Astudiaeth Achos: Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd, Sir Benfro



Cefndir

Trefi Sir Benfro: Cynhyrchwyd Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd Mehefin 2018 gan LUC ar ran Cyngor Sir Benfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, wedi ei ariannu gan Gronfa Amgylchedd a Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (Y Gronfa). Mae 11 tref yn rhan o hyn.

Amcanion y prosiect

Amcan y Cynllun yw llywio gwelliannau seilwaith gwyrdd o fewn aneddiadau, i'w defnyddio gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn symud prosiectau yn eu blaenau.

Beth oedd eu bwriad?

Roedd hwn yn brosiect partneriaeth rhwng dau Gyngor gyda llawer o Swyddogion ynghlwm o'r ddau awdurdod, gyda'r Swyddogion Ecoleg a Bioamrywiaeth fel y prif gysylltwyr. Hwylusodd yr ymgynghorwyr LUC weithdy ymgysylltiad i dros 50 o randdalwyr er mwyn nodi materion isadeiledd gwyrdd a chyfleoedd o fewn pob un o'r trefi. Hefyd nodwyd esiamplau o fentrau llwyddiannus ac ymarfer gorau. Roedd yn bwysig ymrwymo cynrychiolwyr lleol yn gynnar yn y broses, gan mai hwy sy'n adnabod eu hardaloedd yn dda ac yn gallu cynghori'r ymgynghorwyr gyda'u gwybodaeth leol.

Beth sydd o werth?

Trwy wahodd ystod o randdalwyr oedd ag arbenigedd amrywiol a gwybodaeth leol, nodwyd ystod eang o faterion, cyfleoedd ac esiamplau yn gyflymach ac yn fanylach nag a ellid ei gyflawni gan unigolion.

Roedd ymgysylltiad cynnar wedi galluogi trafodaethau i ddigwydd rhwng rhanddalwyr, a nodwyd materion a chyfleoedd ychwanegol. Hefyd gellid edrych ar syniadau cystadleuol yn fwy manwl.

Un fantais o ymgysylltiad yw cymorth anweladwy gyda monitro ar lefel leol. Ar ôl i brosiect ddigwydd (yn enwedig prosiect tirlun) mae angen go iawn am fonitro ar lawr gwlad a dyma ble gall y gymuned gynorthwyo. Mae hyn yn enghraifft o werth go iawn mewn ymgysylltiad. Mae Philip Smith, LUC yn awgrymu “Gyda phrosiectau seilwaith gwyrdd a glas, sydd efallai heb gorff i’w cyflawni – dyma ble gwelir gwerth ymgysylltiad – yn aml gall gwirfoddolwyr oruchwylio’r gwaith, a monitro”.

Crynodeb

Sicrhodd y Cynllun Gweithredu bod y prosiectau’n digwydd ar lawr gwlad a chafwyd canlyniad llwyddiannus o hyn. Efallai y codwyd disgwyliadau’r hyn y gallai’r Cynllun Gweithredu ei gyflawni ar y cychwyn gan fod cymaint o Swyddogion a rhanddalwyr ynghlwm a chanddynt lawer o syniadau yn ystod y cam ymgysylltiad. Y canlyniad yw cynllun yn seiliedig ar brosiect yn hytrach na chynllun strategol.

Gwersi a ddysgwyd:

- Pwysig diffinio sgôp y prosiect o’r cychwyn – er mwyn peidio â chodi disgwyliadau. Cyfathrebu rhwng pawb yn hanfodol.
- Rhoi diweddariadau i bawb yn ystod y broses ymgysylltiad - nid ymrwymo pobl ar y cychwyn yn unig.
- Pwysig i feddwl yn ofalus ynghylch pryd i ymgysylltu ac i gychwyn yr ymgysylltiad yn gynnar os yn bosibl – rhoi’r materion lleol ar y bwrdd yn gynnar yn y broses.
- Nid yw Ymgynghorwyr / Cynllunwyr yn adnabod yr ardal leol o bosib - felly mae gwybodaeth leol yn bwysig iawn - er mwyn dod i adnabod y lle, ei hynodrwydd a’i hunaniaeth.
- Peidio â dibynnu’n llwyr ar un digwyddiad i raddallwyr gan efallai na fydd safbwyntiau arbenigol ar gael.
- Mae’n anodd cael pob safbwynt mewn digwyddiad gydag amser cyfyngedig – angen cael cyfle am drafodaeth bellach / cysylltu ar ôl y fath weithdy. Efallai byddai defnyddio ymgysylltiad ar-lein ychwanegol wedi gwella’r gallu i gyrraedd cynulleidfia ehangach, pobl ifanc a grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Sicrhau bod digwyddiad i raddallwyr yn caniatáu amser i unigolion roi eu safbwyntiau a chael canllawiau ar yr hyn sy’n ymarferol o fewn sgôp y prosiect.
- Byddai cymryd manylion cyswllt yn galluogi gwaith dilynol gyda rhanddalwyr unigol.

Am fwy o wybodaeth:

<https://www.pembrokeshire.gov.uk/conservation/green-infrastructure>

Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r prosiect ymchwil hwn wedi nodi cydberthynas cryf gyda'r themâu a nodwyd mewn llenyddiaeth academiaidd a phroffesiynol. Mae llawer iawn o lenyddiaeth academiaidd ar y pwnc yn gyffredinol ond mae'n gyfyngedig o ran y cyd-destun Cymreig; mae'r adroddiad hwn wedi dechrau archwilio hyn gyda'r gobaith o weithredu fel catalydd ar gyfer datblygu mwy o adolygiadau systemaidd yn y dyfodol agos.

Yn y dadansoddiad, dilynwyd chwe thema sy'n clymu'r llenyddiaeth i brofiadau Cymreig. O ran ymgysylltiad mewn cynllunio yng Nghymru, mae'r dadansoddiad yn dangos bod nifer o gyfleoedd i wella eglurder a pharhad, i wneud y broses yn fwy tryloyw ac yn ymarfer llai technegol, i roi mwy o sicrwydd yn y broses a'r canlyniadau, ac yn y pen draw i greu proses fwy teg.

Wrth gwrs mae esiamplau o ymarfer ymgysylltiad ardderchog yng Nghymru ond dylid tymheru hyn gyda chanlyniadau adroddiad *Archwilio Cymru*. Mae'n hymchwil wedi nodi cyfleoedd i ddelio â rhai o'r canlyniadau hynny, yn systematig ac yn lleol.

Mae'r hierarchaeth termau o amgylch ymgysylltiad wedi eu diffinio'n wael a'u defnyddio'n gyfnewidiol ac mae'n heriol, os nad yn amhosibl, i fynd ar ôl ymgysylltiad o un gweithgaredd i'r llall, sy'n sefyllfa a all waethygu rhwystredigaethau'r gymuned a pharhau diflastod. Mae achosion pan ellir edrych ar ymgysylltiad fel cam technegol yn hytrach nag ymarfer ddemocrataidd; ac nid yw ansawdd y gwaith ymgysylltu yn cael ei adolygu'n ffurfiol na'i werthuso o fewn gweithdrefn cynllunio. Mae ffocws ar broses dechnegol wedi creu datgysylltiad o natur gadarnhaol ymgysylltiad gwleidyddol; mae aelodau etholedig yn gynyddol wedi eu datgysylltu o'r broses.

Mae'r ymchwil hwn wedi darganfod fod gwerth yn amrywio yn unol ag agweddau'r gwahanol chwaraewyr yn y system. I'r llywodraeth mae gwerth yn gorwedd mewn gwneud penderfyniadau sy'n cyflawni anghenion rhanddalwyr a chymunedau. I ddatblygwyr, mae proses lyfnach a sicrwydd penderfyniad yn flaenoriaeth. I'r ganran fach o'r cyhoedd sydd wedi ymgysylltu â chynllunio, mae'r gwerth mewn eglurder, sicrwydd na fydd eu mewnbwn yn cael ei anwybyddu, ac yn bwysig, cyfle democrataidd i gyd-gynhyrchu'n ystyrllon y lleoedd ble maent yn byw. O bwys yw'r ffaith bod yr holl chwaraewyr yn cytuno â chefnogi ymarferion ymgysylltiad ystyrllon, darparu gwerth ychwanegol i allbynnau cynllunio yn ogystal â phrosesau cynllunio.

Mae canfod 'gwerth' meintiol o bersbectif ariannol yn anodd gan ei fod yn gofyn am ddatgeliad llawn o gostau ar ran y trefnwyr, tasg anodd ynddo'i hun gan nad yw'n aml yn bosibl i wahaniaethu rhwng costau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gweithgareddau ymgysylltiad. Mae llawer mwy o sgôp i fesur y gwerth a gynhyrchir o'r amser a'r arian a fuddsoddir yn nhermau *ystyrlondeb*, *wedi ei farnu ar y gwerth ychwanegol mae'r broses ymgysylltiad yn ei ddarparu i'r broses gynllunio*. Ochr yn ochr â gwaith diweddar arall (RTPI, 2020), mae'r adroddiad hwn wedi canfod nifer o achosion ble gall ymarfer ymgysylltiad da gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol, er enghraifft:

- Lleihau'r tensiwn yn y broses gynllunio. Gall ymarfer ymgysylltiad da arwain at lai o wrthwynebiadau a golygu proses gynllunio lyfnach, sy'n llai tebygol o gael ei herio; mae adeiladu a chynnal perthynas well rhwng cynllunwyr a chymunedau yn bwysig.
- Ymwybyddiaeth a gwybodaeth gynyddol am y system gynllunio. Datgelodd llawer o esiamplau yn y gwaith maes y gall ymarfer ymgysylltiad da gynyddu'r nifer o bobl yn cymryd rhan a gall dealltwriaeth gynyddol helpu i wyrdroi tuedd negyddol. Mae gwybodaeth o sgôp a chyfyngiadau'r system gynllunio nid yn unig yn ddefnyddiol i reoli disgwyliadau ond gall greu sgysiau mwy cynhyrchiol â mwy o ffocws. Hefyd, nid yw gwybodaeth yn stryd unffordd; mae gan wybodaeth leol werth o fewn proses.
- Mae synnwyr cynyddol o falchder dinesig ac ymgysylltiad yn ogystal â datblygu gwybodaeth leol a chyd-ddealltwriaeth yn tanategu newid diwylliannol mewn ardaloedd lleol. Gall ymgysylltiad da roi synnwyr o berchnogaeth a diddordeb yn yr amgylchedd adeiledig a gall weithredu fel catalydd ar gyfer ymrwymiad pellach. Mae hyn yn arwain at newid diwylliannol a chreu cynefinoedd gwell.

Ar hyn o bryd, yn nodweddiadol, ymddengys bod adroddiadau ar weithgaredd ymgynghoriad yn gwerthfawrogi maint dros ansawdd, gyda'u ffocws ar y nifer o weithgareddau a gyflawnwyd, y nifer o bobl a gyfrannodd ac, o bwys, y materion a godwyd a sut y'u hystyriwyd. Fodd bynnag, daw'r olaf â'i drafferthion ei hun; tra bo'r fath adroddiadau'n bodoli, maent yn aml yn anhygyrch, yn nhermau eu lleoliad a'u cynnwys. Dylai'r sylw symud at ansawdd y broses ac, yn benodol, ar ei ystyrlondeb, trwy harnessu'n systematig a gwerthuso'r gwerth ychwanegol mae'n ei ddarparu. Gall Creu Cynlluniau - fel proses cydlynol a pharhaus, wedi ei ymestyn mewn amser, a'i anelu at ymrwymo dinasyddion yn briodol ymhob cam o wneud penderfyniadau sy'n berthynol i dir a'i ddefnydd - ddarparu'r ffrâm ar gyfer cysylltu cynllunio cenedlaethol a strategol trwy brosesau cynllunio lleol tuag at yr Agenda Creu Cynefinoedd mwy materol a lleol.

Mae fframwaith cyfreithiol yn bodoli eisoes ar gyfer newid er mwyn gwella ymarfer; mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dechrau symud y ffocws tuag at ddulliau ymgysylltiad gwell. Efallai mai datblygu'r fframwaith yma yng nghyd-destun meddwl gofodol, gyda'r bwriad o gydfynd â gwneud penderfyniadau yn weithdrefnol ar bob lefel, gydag ymgysylltiad ystyrlon er mwyn cyflawni creu cynefinoedd, yw'r oll sydd ei angen i gyflawni ymgysylltiad ystyrlon yn gyson ac i ychwanegu gwerth i'r broses sy'n bodoli.

Cyflawnwyd yr ymchwil hwn yng nghyd-destun yr adnoddau cyfyngedig ar gael i Gymorth Cynllunio Cymru ac mae'n cynrychioli penllanw ymdrechion y staff, cannoedd o oriau o amser y gwirfoddolwyr a mewnbwn mwy na chant o hysbyswyr o amryw sector. Mae'r ymchwil wedi bod yn archwiliadol yn fras, mewn ymgais i ddarparu ciplun o ble ydym ni o ran ymgysylltiad yng Nghymru, yn hytrach na darparu atebion diffiniol. O'r herwydd, dylid edrych ar yr adroddiad hwn fel cam cyntaf yn hytrach na'r cam olaf; mae llawer o themâu a phynciau sy'n haeddu archwiliad, beirniadaeth a gwerthusiad pellach, yn ogystal â darparu dangosyddion ar gyfer gweithredu. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb ac yn cysylltu'r canlyniadau a'r gweithredu a ddeilliodd o'r gwaith maes ynghyd â dadansoddiad, gydag argymhellion ar gyfer gweithredu pellach.

Tabl 6: Cysylltu Canlyniadau Allweddol, Gweithredu Posibl ac Argymhellion

	Materion	Canlyniadau Allweddol	Gweithredu Posibl	Rhif R.
Thema 1. Eglurder a Hygyrchedd	1.1 – Beth yw ymgysylltiad?	Gall terminoleg mewn cyfraith, polisi ac ymarfer fod yn eglurach yng Nghymru ac adlewyrchir hyn yn safbwyntiau'r hysbyswyr	- Ymchwil pellach ar ddefnydd terminoleg o fewn y system gynllunio. - Cyflwyno canllawiau newydd i eglurhau terminoleg.	R6(a), R6(b), R9, R10
	1.2 Polisi eglur a chyson	Mae polisi a chanllawiau ar ymgysylltiad mewn cynllunio yn ddarniog	- Tymor byr: Cyhoeddi canllawiau eglur i bontio'r darpariaethau cyfredol. - Canolig - hir-dymor: canllawiau'r dyfodol / polisi yn defnyddio terminoleg gyson.	R1(b), R6(a), R7 & R9
	1.3 Dulliau ymgysylltiad priodol	Mae amrywio dulliau ymgysylltiad i weddu i'r cyd-destun, y math o brosiect, y gynulleidfa a'r cam cynllunio / datblygu yn angenrheidiol. Dylai ymarferion ymgysylltiad fod yn hygyrch	- Cefnogi ACLL i nodi / dyfeisio ymarferion ymgysylltiad i weddu'n iawn. - Dylid dosbarthu ymarfer gorau o'r achosion yn yr astudiaeth hon. - Tymor canolig: cyhoeddi canllawiau ar fanteision ac anfanteision offer amrywiol. - Canolig – hir-dymor: darparu hyfforddiant / cefnogaeth i swyddogion rheng flaen. - Canolig – hir-dymor: darparu canllawiau ar ymgysylltiad i aelodau etholedig sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau. - Tymor canolig: Maethu mentrau ymwybyddiaeth y cyhoedd gan ddefnyddio cyfryngau mentrus i gyrraedd gwahanol fathau o grwpiau a dinasyddion.	R1, R2, R3, R4, R5, R6(b), R7, R8.
	1.4 Hysbysebu, hybu, annog	Gallai defnyddio iaith leyg a dulliau sy'n nes at fywydau pobl wella cyrhaeddiad hysbyseb. Gall defnydd arloesol o ddeunyddiau gweledol hybu digwyddiadau'n well. Daw anogaeth dros amser drwy ymddiriedaeth.	- Hysbyseb effeithiol gan ddefnyddio ystod o sianeli ar yr un pryd ac mewn dull synergaidd (ar-lein ac all-lein) - Cefnogi ACLL i ddatblygu strategaethau cyfathrebu effeithiol er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder dros amser. - Cyfoethogi cyfathrebu cynllunio trwy graffeg / fideo ac ati, p'un ai ar-lein neu wyneb yn wyneb.	R1(c), R2, R3, R7, R10, R15.
	1.5 Rhannu ymarfer gorau a chanllawiau	Dylid dathlu ymarfer ymgysylltiad da a'i rannu systematig	- Canllawiau ar hyfforddiant priodol ar gyfer aelodau etholedig ar bob lefel. - Canllawiau ar gyfer datblygwyr ynghylch pa fath o ymgysylltiad sy'n briodol ar y gwahanol gyfnodau. - Rhannu cyfleoedd hyfforddiant gydag amrywiaeth o randdalwyr. - Hyfforddiant i aelodau'r cyhoedd ar faterion cynllunio. - Rhannu astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn gydag aelodau'r cyhoedd. - Codi proffil trwy gyhoeddi galwadau blynyddol i rannu astudiaethau achos. - Cefnogi gwobrau blynyddol am ymarfer gorau mewn ymgysylltiad cymunedol.	R4, R6(b),

	Materion	Canlyniadau Allweddol	Gweithredu Posibl	Rhif R.
Thema 2: Ymgysylltiad fel proses parhaus	2.1 Cychwyn cynnar	Po gyntaf mae ymgysylltiad ystyrllon yn cymryd lle yn y broses gynllunio a pho fwyaf mae'n cysylltu â chynllunio Cynefin, y gorau yw'r canlyniadau i'r hol randdalwyr.	- Annog ymgysylltiad mewn datblygiadau mawr i gydfynd â'r camau creu cynllun. - Cysylltu ymgysylltiad dros amser gyda chynllunio Cynefin / dulliau digidol - Efallai bydd yn rhaid eglurhau hyn ymhellach mewn polisi a bydd rhaid cynnal mwy o hyfforddiant.	R14 & R17
	2.2 Proses parhaus cysylltiedig	Mae ymgysylltiad yn fwy ystyrllon pan y'i gwelir fel ymarfer parhaus yn cynnwys cyfres o gamau cysylltiedig (yn hytrach nag ymarferion ymgynghori ar wahân un-tro).	- Byddai swyddogion ymroddedig yn caniatáu gwybodaeth a chyfathrebu ymgysylltiad i fod yn gyson trwy'r holl gamau. - Datblygu a mabwysiadu storfeydd ar-lein hygyrch i archifo canlyniadau ymarferion ymgysylltiad dros amser.	R14 & R16
	2.3 Sgyrsiau parhaus nid consensws	Ni ddylai amcanion gweithgareddau ymgysylltiad fod i gael consensws ar bob mater, ond i bobl fod yn agored i safbwyntiau pobl eraill a chreu dealltwriaeth gyffredin.	- Dylid dylunio ymgysylltiad yn ofalus er mwyn galluogi sgysrsiau 2-ffordd ymysg amrywiaeth o grwpiau. - Bydd y rôl a chwaraeir gan aelodau etholedig (ar lefel y gymuned ac awdurdod), gosod y sefyllfa'n briodol a chyflwyno adroddiad yn hanfodol er mwyn cael sgysrsiau datblygiadol gyda pherthnasedd technegol a gwleidyddol.	R6(b), R12, R13
	2.4 Galluogi cymunedau	Gall Cynlluniau Cynefin fod yn allweddol er mwyn cysylltu cynllunio â chreu gwell lleoedd i bobl.	- Hwyluso gwell dealltwriaeth o'r hyn mae cynlluniau Cynefin yn ei gyflawni ynghyd â'r cyswllt â chynllunio er mwyn datblygu'r ymarfer yng Nghymru. - Arian / adnoddau ar gyfer grwpiau a chynghorau Cymuned, yn enwedig mewn cymunedau llai.	R6(c), R7, R15
	2.5 Cysylltu gwybodaeth arbenigol a lleol	Mae cyfnewid gwybodaeth ddwyochrog trwy ymgysylltiad yn fuddiol i'r holl randdalwyr ac yn ychwanegu gwerth	Pwysleisiodd data'r gwaith maes rôl cymunedau lleol a chymunedau o ddiddordeb mewn darparu gwybodaeth na ellid cael gafael arni fel arall. Cynnwys cymunedau o ddiddordeb a chymunedau lleol yn gyson mewn ymgysylltiad trwy gyfathrebu 2-ffordd.	R1(b), R3, R4, R15

	Materion	Canlyniadau Allweddol	Gweithredu Posibl	Rhif R.
Thema 3: Ymgysylltiad fel gweithgaredd technegol a gweleidyddol/gwleidyddol	3.1 Galluogi aelodau etholedig	Mae angen i aelodau etholedig chware rôl fwy gweithredol mewn ymgysylltiad mewn materion cynllunio.	- Rhaglen hyfforddiant ar gynllunio cenedlaethol systematig, gydlynol (ac ymgysylltiad) ar gyfer aelodau etholedig ar bob lefel. - Canllawiau penodol ar natur rôl aelodau etholedig ar bob cam o ymgysylltiad statudol.	R1(b), R3,
	3.2 Cymryd stoc a datblygu Cynllun Cynefin	Gall Cynlluniau Cynefin bontio rhwng creu Cynefin a chynlluniau a pholisiau trosfwaol ar lefel genedlaethol, strategol a lleol.	Adolygu'n gynhwysfawr yr ymarferion diweddar ynghylch Cynlluniau Cynefin – yn enwedig ynghylch eu cynnwys gofodol a'u rôl yn symhlau mynediad y gymuned i leoliad cynllunio statudol.	R6(c)
	3.3 Osgoi ticio blychau	Cyfle i ychwanegu nodiadau eglurhaol, rhestrau gwirio a chanllawiau ynghylch yr hyn sy'n gwneud ymgysylltiad yn ystyrlon trwy gyflwyno'r gwerth ychwanegol mae'n ei ddarparu yn y broses.	- Tymor canolig: Cyfoethogi gofynion statudol gydag enghreifftiau, rhestrau gwirio a chanllawiau ynghylch yr hyn sy'n gwneud gweithgareddau ymgysylltiad yn ystyrlon ac yn werth mynd ar eu hôl gan eu bod yn ychwanegu gwerth. - Dylid archwilio'r cyfleoedd i ddathlu a chodi ymwybyddiaeth o ymarfer da. - Ystyried newid deddfwriaeth / polisi yn y dyfodol, yn destun i ganlyniadau ymchwil pellach.	R1(b), R3, R4, R5, R6(a)
	3.4 Goresgyn tuedd negyddol	Tuedd negyddol, sy'n rhwystro ymgysylltiad ystyrlon yn dod i'r amlwg o agweddau sydd gan rhanddalwyr am bobl eraill.	- Hyfforddiant ar gyfer swyddogion. - Lleisiau cryf lleol i ddod yn bencampwyr ac ymgysylltu fel catalyddion tu hwnt i'w cymunedau eu hunain.	R1, R3, R4, R10, R14.

	Materion	Canlyniadau Allweddol	Gweithredu Posibl	Rhif R.
Thema 4 – Tryloywder mewn gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd canlyniadau	4.1 Adrodd fel dyletswydd	Mae cyfleoedd i wella adborth ac adrodd yn ôl i gyfranogwyr ymgysylltiad	- Sicrhau bod cynnwys disgrifiadau o sut y darperir yr adborth yn cael ei ychwanegu at gyfathrebu ymgysylltiad / ymgynghoriad, a gweithdrefn electronig i danysgrifwyr yn gynwysedig mewn systemau cyflwyno ymgynghoriadau ar-lein. - Ymchwil pellach i ddeall sut i adrodd yn well ar ôl pob pennod o ymgysylltiad er mwyn adeiladu gwerth (ychwanegol) dros amser.	R2, R6(a),
	4.2 Adeiladu ymddiriedaeth gyda gonestrwydd a thryloywder	Mae ymddiriedaeth yn cael ei faethu ac edrych ar ei ôl trwy alluogi cyfranogwyr i fynd trwy lwybr tryloywder cysylltiedig trwy ymgysylltiad (h.y. 'cynllunio Cynefin').	- Codi ymwybyddiaeth o sgôp y broses - Cyfathrebu gwell - Rheoli disgwyliadau yn cael ei ymarfer yn weithredol o'r cychwyn - Galluogi cyfranogwyr i fynd at lwybr cysylltiedig trwy ymgysylltiad wedi ei gysylltu â Chynlluniau cynefin.	R1(b), R3, R4, R6(b), R7
	4.3 Hyfforddi swyddogion ACLL i ymgysylltu'n ystyrlon	Nid oes gan Swyddogion ACLL syniad eglur o'u rôl mewn proses ymgysylltiad ac maent yn ansicr ynghylch y dulliau tu hwnt i'r ychydig a ddefnyddir fel arfer. Hyd yn oed pan fo ewylls i ymgysylltu, mae pwysau adnoddau ac amser yn cyfyngu'r gallu i arloesi.	- Dull systematig i asesu sgiliau ymgysylltiad ac adnoddau ymroddedig ar gael mewn ACLL - Darparu hyfforddiant pwrpasol.	R3, R4, R8, R15
	4.4 Cyd-gynhyrchu a chytuno ar brosesau	Gall cyd-gynhyrchu gweithgareddau ymgysylltiad wella nifer ac amrywiaeth y cyfranogwyr.	Cyd-gynhyrchu a chytundeb uwch ynghylch natur a math yr ymgysylltiad er mwyn gwella nifer y cyfranogwyr a chael cynulleidfa amrywiol.	R1(b), R9, R10, R12, R13

	Materion	Canlyniadau Allweddol	Gweithredu Posibl	Rhif R.
Thema 5 – Sicrwydd y broses	5.1 Proses lyfnach	Mae sicrwydd prosesau ymgysylltiad yn cefnogi gwneud penderfyniadau'n effeithiol a llyfn, gan ychwanegu gwerth ac osgoi'r risgiau sy'n berthynol i heriau cyfreithiol.	- Dylai ymgysylltiad a arweinir gan ddatblygwyr gychwyn yn llawer cynharach fel rhan o'r broses paratoi CDLL a symud ymlaen i Ymgynghoriad Cyn-Cais mewn dull cydlynol a chyson. - Yn ddelfrydol, gellid amseru Cynlluniau Cynefin i gydfynd a chefnogi'r fath broses.	R1(b), R17
	5.2 Rheoli disgwyliadau	Mae'n bwysig bod yr holl randdalwyr yn deall yr hyn sydd, ac na sydd, yn bosibl yn nhermau canlyniadau pob cam o ymgysylltiad, ac y cymerir mesurau cadarn i gefnogi rheolaeth disgwyliadau gan ACLL	Canllawiau cynhwysfawr ar reolaeth disgwyliadau trwy gyfathrebu, a ddatblygir ac a gylchredir yn y tymor canolog.	R1(b), R3, R4, R9, R10,
	5.3 Creu cyd-ddealltwriaeth	Mae adeiladu gwybodaeth leol a chyd-ddealltwriaeth yn enghreifftiau gwyb o'r gwerth ychwanegol a gynhyrchir gan ymarfer ymgysylltiad ystyrlon.	Dylid rhoi gofal i sefydlu sianeli cyfathrebu 2-ffordd, ble gall mewnwelediadau lleol ryngweithio â gwybodaeth dechnegol ac arbenigol, yn gymaint ag y rhennir arbenigedd technegol a'i drafod yn agored	R2, R3, R4, R7
	5.4 Amseru'n briodol	Mae amser (ac, yn benodol, aliniadau ar draws cynllunio Cynefin) yn hanfodol ar gyfer ymgysylltiad ystyrlon	- Cydnabod bod amser ac amserlenni'n hanfodol wrth anelu at gyflawni ymgysylltiad ystyrlon. - Cydnabod a darparu hyblygrwydd dull ar gyfer ymgysylltiad sy'n 'gweddu' i'w gyd-destun a'i uchelgeisiau.	R3, R4, R7, R12, R13

	Materion	Canlyniadau Allweddol	Gweithredu Posibl	Rhif R.
Thema 6 – Costau ac ecwiti	6.1 Ymgysylltu'n gynhwysol	Mae'n bwysig bod unrhyw ymgysylltiad yn estyn allan ac wedi ei ddylunio gyda grwpiau 'anodd eu cyrraedd' mewn golwg	- Dylai canllawiau, hyfforddiant a chefnogaeth bellach ynghylch sut i gysylltu a chadw cysylltiadau da gyda grwpiau lleol presennol ac elusennau arbenigol fod yn gyson ar draws Cymru. - Annog 'pencampwyr lleol' i hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu yn ehangach.	R1, R3, R4, R15
	6.2 Ymgysylltu'n greadigol	Gall dulliau creadigol o ymgysylltiad, gan ddefnyddio arbenigedd arbenigol pan yn briodol, gynhyrchu ymgysylltiad mwy ystyrion mewn dull sy'n effeithiol o ran adnoddau	Gallai adolygiad o ddulliau a chanllawiau a dderbynnir yn groes-sector, sydd wedi eu haddasu i gyd-destun Cymru, ddarparu sail gyson er mwyn i ACLL fod yn fwy anturus a chreadigol yn ogystal ag amlygu pryd dylid harnessu arbenigedd arbenigol allanol.	R6(a), R12, R13
	6.3 Troedio'n ofalus ar-lein	Mae'r defnydd o offer ymgysylltiad yn ddull cost-effeithiol o ehangu cyrhaeddiad, a dylid cydnabod ei botensial a'i gyfyngiadau ar gyfer cyd-destun Cymru	Ymchwil pellach ar sut y gallai offer ar-lein wasanaethu cyd-destunau a thiriogaethau amrywiol Cymru er mwyn dyfeisio ffyrdd i symud ymlaen.	R6(a), R11, R14
	6.4 Adeiladu ar rwydweithiau sy'n bodoli	Gall defnyddio rhwydweithiau cymunedol sy'n bodoli fod yn adnodd ac yn gost-effeithiol, yn destun i gyfathrebu priodol	Dylid cynnal mwy o ymchwil gan ACLL i adeiladu map o rwydweithiau lleol perthnasol ar gyfer ymgysylltiad.	R13, R15

Argymhellion

Ar gais Llywodraeth Cymru, dyfeisiwyd yr argymhellion canlynol a'u categorieiddio yn ôl eu potensial i'w gwireddu:

- i). 'Enillion cyflym' tymor byr, a ellir eu cyflawni trwy ddelio â materion manylion, eglurder gweithdrefnau a chynhyrchu canllawiau ac ati (e.e. gellid ei gyflawni o fewn blwyddyn).
- ii). Blaenoriaethau tymor canolig a all gymryd amser i'w cychwyn a'u cyflawni ond heb angen gwaith dwys (gellid eu cyflawni mewn 1-3 blynedd).
- iii). Blaenoriaethau tymor hwy sy'n delio â phwyntiau egwyddor, yn gofyn efallai am newidiadau polisi / deddfwriaeth neu faterion diwylliannol â gwreiddiau dwfn (gellid eu cyflawni mewn 3-5 blynedd +).

Mae'r tabl uchod yn dangos sut mae'r argymhellion hyn wedi dod i'r amlwg. Gellid cyflawni'r argymhellion hyn i gyd gyda chefnogaeth Cymorth Cynllunio Cymru os na nodir yn wahanol.

1. Enillion Cyflym

Yn y tymor byr mae Cymorth Cynllunio Cymru'n argymhell bod:

- R1. Llywodraeth Cymru'n cychwyn rhaglen o waith sy'n canolbwyntio ar wella ymarfer ymgysylltiad mewn cynllunio, trwy ganllawiau ac ymarfer gorau, gan flaenoriaethu:
 - a) Cylchredeg crynodeb o ganlyniadau'r adroddiad hwn i'r holl randdalwyr yn y system gynllunio yng Nghymru.
 - b) Paratoi canllaw ar ddiffiniadau, dulliau a thechnegau ymgysylltiad a sut y gellid eu cymhwyso ar bob lefel y system gynllunio, ac yn enwedig, sut gellir defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i fframio ymarfer gwell yn y cyd-destun hwn. Dylai'r canllaw hwn annog datblygu dulliau mewn cydweithrediad â rhanddalwyr cymunedol.
 - c) Cefnogi dosbarthiad o fecanwaith parhaus ar gyfer casglu a chylchredeg astudiaeth achos ac ymarfer gorau ymgysylltiad mewn cynllunio yng Nghymru.
- R2. Mae Llywodraeth Cymru'n annog Awdurdodau Cynllunio Lleol a Datblygwyr i addasu ymgynghoriad statudol / llythyrau hysbysu i esbonio'n eglur y cyfleoedd i ymgysylltu, i gefnogi datblygu, a sut a ble gellir cael gafael ar yr adborth i'r ymatebion a dderbyniwyd.
- R3. Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllaw a / neu hwyluso hyfforddiant ar gyfathrebu effeithiol gyda chymunedau a grwpiau anodd eu cyrraedd yn y broses gynllunio.
- R4. Llywodraeth Cymru'n comisiynu rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ymarfer ymgysylltiad arloesol.
- R5. Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol a sefydliadau eraill yn cefnogi sefydlu gwobrau traws-sector ar ymgysylltiad cymunedol mewn cynllunio.

2. Argymhellion tymor canolig

Yn y tymor canolig mae Cymorth Cynllunio Cymru yn argymhell bod:

- R6. Llywodraeth Cymru'n comisiynu ymchwil pellach ar:
 - a) Ddiffinio a mesur canlyniadau ymgysylltiad yn y system gynllunio.
 - b) Gwellu rôl aelodau etholedig yn y broses gynllunio.
 - c) Goresgyn rhwystrau i baratoadau Cynlluniau Cynefin.
- R7. Llywodraeth Cymru'n hwyluso cyflawni mwy o fentrau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r broses gynllunio, yn cynnwys canllaw fideo a chyfryngau digidol arloesol eraill.
- R8. Llywodraeth Cymru'n cyflwyno mentrau i gefnogi'n well ac i hwyluso ymgysylltiad pobl ifanc yn y system gynllunio.
- R9. Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod diweddariadau'r dyfodol o Lawlyfrau Cynlluniau Datblygu a Rheoli Datblygu yn cynnwys adrannau pwrpasol ar draddodi ymgysylltiad drwy'r prosesau hyn.
- R10. Llywodraeth Cymru'n sicrhau pan gyhoeddir / adolygir canllawiau polisi cynllunio yn y dyfodol, eu bod yn cynnwys adrannau pwrpasol ar ymgysylltiad sy'n berthnasol i'r pwnc, gan ddefnyddio terminoleg gyson wedi ei ddiffinio'n dda.
- R11. Llywodraeth Cymru'n peilotu'r defnydd o dechnegau gweledol ymgysylltiad mewn hysbysiadau statudol.
- R12. Llywodraeth Cymru'n gweithio ar y cyd gyda rhanddalwyr ac ystod eang o gynrychiolwyr y gymuned er mwyn datblygu cyfres o egwyddorion cenedlaethol ar ymgysylltiad.
- R13. Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gweithio gyda'u rhanddalwyr cymunedol eu hunain er mwyn datblygu cyfres o egwyddorion ymgysylltiad sy'n berthnasol i baratoi polisi cynllunio a rheolaeth datblygu.


3. Argymhellion tymor hwy

Yn y tymor hwy mae Cymorth Cynllunio Cymru yn argymhell bod:

- R14. Llywodraeth Cymru'n cefnogi datblygu system electronig genedlaethol i olrhain a chofnodi gweithgaredd ymgysylltiad yn barhaol ar draws Cymru.
- R15. Llywodraeth Cymru'n cyflenwi cyfleoedd i roi adnoddau i ymgysylltiad mewn cynllunio, drwy ariannu uniongyrchol, sefydlu rhwydweithiau rhanbarthol o gefnogaeth a darparu ffynonellau o wybodaeth, canllaw a hyfforddiant.
- R16. Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystyried apwyntio swyddogion ymgysylltiad pwrpasol o fewn timau cynllunio, trwy gyngor, hyfforddiant a chyllid os yn briodol.
- R17. Llywodraeth Cymru'n adolygu'r broses Ymgynghoriad Cyn-Cais (YCC) i hwyluso ymgysylltiad cynharach yn y cylch datblygu ac asesiadau ystyrion o adroddiadau YCC.

Mae'r ddelwedd isod yn dangos, ar ffurf graffeg, pa argymhellion allai gydfynd yn well, yn ogystal â golwg ar ba un o'r rhain sy'n debygol o allu cael eu gwireddu gyflymach.

Ffigur 16: Blaenoriaethu argymhellion



Atodiad A: Rhestr o sefydliadau a gymerodd ran yn yr ymchwil

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r holl unigolion, sefydliadau a chwmnïau a gyfranodd i'r ymchwil hwn, ynghyd â llawer o bobl eraill yr ydym yn diolch iddynt am roi o'u hamser a rhannu eu mewnwelediad gyda ni, tra'n dewis peidio â chael eu henwi:

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Benham Architects Ltd.
Comisiwn Dylunio Cymru
Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
Cyngor Cymuned Wentlooge
Cyngor Sir Benfro
Cyngor Sir Caerdydd
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Tref Aberystwyth

Cyngor Tref Llandrillo-yn-Rhos
Grasshopper Communications Ltd.
Home Builder's Federation
Huw Griffiths Architects Ltd.
Land Use Consultants Ltd.
Place Studio Ltd.
Prifysgol Caerdydd
RTPI Cymru
Senedd Ieuenctid Cymru
Shirenewton Community Council
Studio Design Ltd.

Atodiad B: Tabl Atodol

Haenu prif is-ddeddfwriaeth cynllunio yng Nghymru dros amser (allan o LawWales, dim dyddiad)

Prif Ddeddfwriaeth Sylfaenol	Prif Is-ddeddfwriaeth
	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (SI 1987/764) – yn rhagnodi'r nifer o ddosbarthiadau o ddefnydd uchel o dir.
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA 1990) - y drydedd deddf yn cydgrynhoi deddfwriaeth gynllunio, mae'n gwneud darpariaethau ar gyfer ACLL; rheolaeth datblygu (yn cynnwys apeliadau a cheisiadau'n cael eu galw i mewn); gorfodaeth; rheolaeth benodol; caffael tir at ddibenion cynllunio; priffyrdd.	
Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 - yn cysylltu'n agos â TCPA 1990 ac yn cydgrynhoi'r darpariaethau sy'n berthnasol i adeiladau rhestredig (Rhan 1) a chadwraeth (Rhan 2).	
Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990	
	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (SI 1995/418) – yn rhoi caniatâd i ddatblygiadau â disgrifiadau penodol
Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 – ddim mewn grym yn llawn yng Nghymru ond mae 'Rhan 6 yn darparu ar gyfer Cynllun Gofodol Cymru a chynlluniau datblygu lleol, ac mae'n sail i'r hyn a ddisgrifir fel y system sy'n dilyn y cynllun yng Nghymru'	
Deddf Cynllunio 2008 – yn berthynol i roi caniatâd i brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr ardoll seilwaith cymunedol.	
	Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (SI 2012/801) - yn gosod y gweithdrefnau a'r manylion technegol ynghylch gwneud a phenderfynu ar geisiadau cynllunio; ymgynghoriad; apeliadau; gorchmynion datblygu lleol; tystysgrifau o ddefnydd cyfreithlon neu ddatblygiad; cynnal cofrestr o geisiadau cynllunio.

Prif Ddeddfwriaeth Sylfaenol	Prif Is-ddeddfwriaeth
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 - yn cryfhau'r dull 'dilun y cynllun' mewn cynllunio yng Nghymru. Mae Rhan 3 yn diwygio PCPA 2004 i'w wneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i gymryd lle Cynllun Gofodol Cymru; mae'n gwneud darpariaethau ar gyfer ardaloedd cynlluniau strategol (paneli cynlluniau strategol i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol). Mae Rhan 4 yn diwygio TCPA 1990 er mwyn cyflwyno ymgynghoriad cyn-cais ar gyfer rhai ceisiadau ac yn gofyn bod ACLL yn darparu gwasanaethau cyn-cais. Mae Rhan 5 yn diwygio TCPA 1990 ac yn cyflwyno newidiadau sy'n berthynol i Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Mae Rhan 6 yn diwygio TCPA 1990 er mwyn rhoi'r grym i ACLL i ofyn am geisiadau cynllunio ôl-weithredu. Mae Rhan 8 yn diwygio Deddf Tiroedd Comin 2006 er mwyn cyflwyno darpariaethau sy'n berthynol i Feysydd Tref a Phen.	
	Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilradd Rhagnodedig (Cymru) 2016 (SI 2016/53) (W.23) – yn gosod y meini prawf ar gyfer DAC.
	Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwysio Deddfiadau) (Cymru) 2016 (SI 2016/54) (W.24) - yn rhagnodi adrannau perthnasol TCPA 1990 sy'n cyd-fynd â'r broses DAC.
	Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (SI 2016/55) (W.25) - yn nodi'r gweithdrefnau i gael caniatâd ar gyfer DAC
	Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (SI 2016/56) (W.26) - yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwasanaethau cyn-cais gan ACLL a Gweinidogion Cymru yn ogystal â gweithdrefnau ar gyfer archwilio DAC.
	Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 (SI 2016/57) (W.27) – yn gwneud darpariaeth ynghylch ffioedd gwasanaethau cyn-cais

Atodiad C: Holiadur arolwg

GWERTH YMYGYSYLLTIAD Y GYMUNED Â CHYNLLUNIO

Rhan 1 – Eich Profiad

- Yn y blwch isod, byddwch cystal â darparu disgrifiad byr o broses ymgysylltiad cymunedol rydych chi wedi ei brofi yn ddiweddar. P'un ai ar gynllun neu brosiect, yn fach neu fawr (fel y gwelwch chi hyn) – yn llwyddiannus yn gyffredinol ai peidio. Dywedwch wrthym **yn union ble oedd hyn, beth oedd y pwnc a beth oedd eich rôl chi.**

Bydd y blychau yn ymestyn wrth i chi ysgrifennu.

- Pa **fuddion** neu **bethau cadarnhaol** ydych chi'n credu ddeilliodd o'r broses yma, ac **i bwy?**

- Beth, efallai, oedd yn **llai llwyddiannus**, pa **bethau negyddol** oedd, ac eto, **i bwy?**

- Beth ydych chi'n gredu yw'r pethau allweddol fyddai wedi gwneud y **broses yn well?**

Ydych chi'n meddwl y byddai hwn yn esiampl dda i'w ystyried yn fanylach ar gyfer y prosiect hwn?

YDW ☐

NAG YDW ☐

A fydddech chi'n hapus i fod y cysylltydd cyntaf ar gyfer astudiaeth achos pe bai'n cael ei ddewis?

BASWN ☐

NA FASWN ☐

Os na, a fedrwch chi awgrymu cysylltydd priodol?

Enw:

Manylion cyswllt (ebost a / neu ffôn):

Rhan 2 - Manteision

Mae'r canlynol yn rhai o'r datganiadau a wneir yn aml ynghylch **buddion** ymgysylltiad cymunedol â chynllunio **yn gyffredinol**.

- *Ar gyfer pob budd a restrir, gwiriwch y blwch perthnasol ar y raddfa a roddir, o 1 (anghytuno'n gryf) i 5 (cytuno'n gryf)*
- *Ychwanegwch unrhyw fuddion eraill yr ystyriwch chi sy'n bwysig.*

Gall ymgysylltiad cymunedol da:

	<u>Anghytuno'n</u> <u>gruf</u>	<u>Niwtral</u>			<u>Cytuno'n</u> <u>gruf</u>
	<u>1</u>	<u>2</u>	<u>3</u>	<u>4</u>	<u>5</u>
Gyflwyno syniadau, pryderon a dyheadau cymunedol					
Cyflwyno gwybodaeth gymunedol					
Helpu sicrhau cytundeb y gymuned i gynllun neu brosiect.					
Helpu sicrhau cytundeb y gymuned i gynllun neu brosiect.					
Arbed amser <u>ar y cyfan</u> o 'ddiwrnod 1' i'r cynllun neu'r prosiect terfynol.					
Arbed adnoddau <u>ar y cyfan</u> o 'ddiwrnod 1' i bawb.					
Gwella ansawdd / natur cyflawni y cynllun neu'r prosiect terfynol.					

Unrhyw fuddion neu sylwadau allwch chi eu hawgrymu ar Ran 2?

--

Rhan 3 - Anfanteision

Yn dilyn ceir rhai datganiadau a wneir yn aml ynghylch anfanteision ymgysylltiad y gymuned â chynllunio, **yn gyffredinol**.

- *Ar gyfer pob budd a restrir, gwiriwch y blwch perthnasol ar y raddfa a roddir o 1 (anghytuno'n gryf) i 5 (cytuno'n gryf)*
- *Ychwanegwch unrhyw fuddion eraill yr ystyriwch chi sy'n bwysig.*

Gall ymgysylltiad cymunedol fod yn negyddol oherwydd:

	<u>Anghytuno'n gryf</u>		<u>Niwtral</u>	<u>Cytuno'n gryf</u>	
	<u>1</u>	<u>2</u>	<u>3</u>	<u>4</u>	<u>5</u>
Dim ond ychydig o bobl sy'n deall digon i gyfrannu unrhywbeth defnyddiol					
Ni ddylai sylwadau'r gymuned oresgyn uchelgeisiau ehangach.					
Yn aml nid yw'r sylwadau yn berthnasol i faterion cynllunio.					
Mae'r ymatebion wedi eu cymryd drosodd gan nifer fach o unigolion a grwpiau.					
Mae safbwyntiau'r gymuned bob tro yn blwyfol neu hyd yn oed yn hunanol.					
Mae cael cytundeb gan nifer o bobl yn amhosibl.					
Mae pobl wedi blino ymateb i ymgynghoriadau nad ydynt yn arwain at newid nac yn darparu adborth.					
Nid yw pobl yn trafferthu ymateb.					

Unrhyw fuddion neu sylwadau eraill a allwch awgrymu ar Ran 3?

Rhan 4 – Gwella Ymarfer

Yn aml dadleuir bod y canlynol yn **egwyddorion allweddol i wneud ymgysylltiad yn ddilys ac effeithiol**.

- *Ar gyfer pob budd a restrir, gwiriwch y blwch perthnasol ar y raddfa a roddir o 1 (anghytuno'n gryf) i 5 (cytuno'n gryf)*
- *Ychwanegwch unrhyw fuddion eraill yr ystyriwch chi sy'n bwysig*

	<u>Anghytuno'n gryf</u>		<u>Niwtral</u>		<u>Cytuno'n gryf</u>
	<u>1</u>	<u>2</u>	<u>3</u>	<u>4</u>	<u>5</u>
Dechrau'n gynnar, ar 'ddiwrnod 1'; nid pan fo'r cynllun wedi ei ddrafftio, neu'r prosiect wedi ei ddylunio.					
Gwneud yn eglur beth ellir a na ellir ei newid o ganlyniad i ymgysylltiad.					
Rhannu gwybodaeth sy'n ddealladwy i bobl nad ydynt yn arbenigwyr.					
Sicrhau cysylltu ac ymgysylltu â'r holl grwpiau ac unigolion allweddol.					
Sicrhau nad yw'r 'bobl arferol' yn dominyddu'r broses.					
Defnyddio ystod o ddulliau ac amserau sy'n galluogi pawb i gyfrannu.					
Cynnig mwy nag un neu ddau o gyfleoedd i gyfrannu					
Cynnig opsiynau dilys (neu esbonio pam nad yw eraill yn bosibl).					
Cynhyrchu a rhannu adroddiad terfynol i ddangos bod cyfraniadau wedi eu defnyddio					

Unrhyw fuddion neu sylwadau eraill a allwch awgrymu ar Ran 4?

DIOLCH YN FAWR IAWN!

Byddwch cystal â dychwelyd yr holiadur, wedi ei gwblhau, at:
deb@planningaidwales.org.uk

Gellir defnyddio'r cyfeiriad ebost hwn hefyd
os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau

Wrth ddychwelyd y ffurflen hon, rydych yn rhoi caniatâd i brosesu eich data yn unol
â'r hysbysiad preifatrwydd ([cliciwch yma i'w weld](#)).

Eich Gwybodaeth

NODYN PREIFATRWDYDD: Defnyddir y data personol canlynol yn unig er mwyn cysylltu â chi ynghylch cymryd rhan ychwanegol yn yr astudiaeth ac fe'i cedwir ar wahân i'ch ymateb i weddill yr arolwg. Cedwir eich ymatebion i gwestiynau blaenorol yn anhysbys ac mewn modd na ellir eu priodoli i chi. Byddwn yn cadw'r data yma'n ddiogel mewn ffeiliau wedi eu diogelu gan gyfrineiriau am dair blynedd, a dim ond tîm ymchwil Cymorth Cynllunio Cymru Cyf. fydd yn gweld y canlyniadau mewn modd fformat amrwd. Mae cwblhau'r ffurflen ganlynol yn DDEWISOL.

Enw:

Lleoliad:

Sefydliad:

Rôl:

Ebost:

Atodiad D: Papur Briffio Grŵp Ffocws

Rhanddalwyr

PAPUR BRIFFIO – GRŴP FFOCWS GWERTH YMGYSYLLTIAD

Dyddiad: Tachwedd 12^{fed} 2020

Amser: 11.00 - 13.00

Yn bennaf mae ffocws y sesiwn drafodaeth (y byddwch yn ymuno â hi) ar awgrymu:

Sut mae Llywodraeth Cymru, ynghyd ag asiantaethau a chyrff eraill, fel eich rhai chi, yn gallu symud ymlaen i sicrhau bod ymgysylltiad cymunedol effeithiol ac ystyrlon yn dod yn rhan reolaidd o ymarfer yn y broses gynllunio yng Nghymru.

I wneud y mwyaf o ganlyniadau'r drafodaeth, arweinir Grŵp Ffocws Dydd Iau gan Jeff Bishop o Place Studio ym Mryste. Mae Jeff wedi bod yn cefnogi gwaith ein prosiect oherwydd y profiad eang a hir sydd ganddo i'w gynnig ar holl agweddau ymgysylltiad, gyda phob math o grwpiau ac ar bob math o brosiect, nid yn unig yn y DU. Atodir crynodeb byr o'i brofiad.

Cyflwyniad gan Jeff

Yn dilyn rhai cyflwyniadau a gosod y sefyllfa yn fyr rwy'n awgrymu agenda o dri cham i'r drafodaeth, gyda'r rhan fwyaf o amser ar y trydydd cam ymarferol iawn. Bydd y digwyddiad yn cael ei recordio, a chynhyrchir nodyn ysgrifenedig gan Gymorth Cynllunio Cymru a'i rannu gyda'r holl gyfranogwyr a'i addasu, os bydd angen, i gynhyrchu fersiwn a gytunir arni.

Er mwyn bod yn hollol eglur, byddwn yn trafod holl agweddau ymgysylltiad – Cynlluniau Lleol, Cynlluniau Cynefin, Canllaw Cynllunio Atodol a gweithio tuag at geisiadau cynllunio.

Cam 1: A ddylem wneud hyn?

Roedd yr ymatebion i'r arolwg diweddar gan yr holl grwpiau a sectorau yn dangos cytundeb eglur bod mwy a gwell ymgysylltiad yn briodol ac yn angenrheidiol. Mae hyn yn debyg i'r canlyniadau o lawer o ymarferion eraill. Ond nid yw hyn yn rhoi rhwydd hynt i symud ymlaen, oherwydd mai'r profiad cyffredinol yw ei fod wedi ei ddylunio'n wael ac nad yw ymgysylltiad rheoledig yn werth ei wneud, hyd yn oed yn niweidiol o bosib, pan gall ymgysylltiad sydd wedi ei ddylunio a'i reoli'n dda ddarparu manteision go iawn i bawb.

Er y byddai'n dda aros fan hyn, ymddengys ei bod yn bwysig i weld, yn fyr, a yw pobl yn cytuno bod ymgysylltiad cymunedol yn bwysig.

Cam 2: Beth all fod yn 'ymgysylltiad da'?

Dros 50 o flynyddoedd mae academyddion, ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi wedi straffaglu i gael unrhyw ddiffiniad o ymgysylltiad mewn cynllunio, nag i osod safonau er mwyn ei farnu! Nid dyna'r achos heddiw oherwydd mae rhai egwyddorion yn bendant yn dod i'r amlwg sydd â chytundeb cyffredinol gan yr holl bobl allweddol. Fel enghraifft, rhannwyd fersiwn o'r rhestr

isod â phobl ar draws Cymru yn yr arolwg diweddar ac, yn gyffredinol, cafwyd cefnogaeth i'r egwyddorion hyn gan bawb.

Nid dyma'r sesiwn i drafod yr egwyddorion yn fanwl ond byddai o werth i weld ac i gael sylwadau byr ar y rhai a restrir isod:

- **Proses Eglur gyffredinol:** proses wedi'i gynllunio, nid un digwyddiad / gweithgaredd yn unig ac nid cyfres ar hap o ddigwyddiadau / gweithgareddau.
- **Dylunio a Rheoli 'Annibynnol':** sicrhau bod popeth yn cael ei gymryd ymlaen ar ran pawb sydd ynghlwm, nid pwy bynnag sefydlodd yr ymgysylltiad.
- **Proses a Gytunir:** cytuno ar y broses o'r cychwyn gyda'r bobl allweddol (hefyd yn ffordd glasurol o ddangos annibyniaeth briodol).
- **Sgôp Eglur:** ei gwneud yn eglur i bawb beth yw, beth all fod a beth sydd ddim yn agored i newid o ganlyniad i'w hymrwymiad.
- **Cychwyn ar y 'Diwrnod Cyntaf':** osgoi cyflwyno ac amddiffyn syniadau, cynlluniau, dyluniadau sydd wedi eu gwneud eisoes; ymgysylltu â phobl o'r cychwyn cyntaf.
- **Bod yn Agored, Gonestrwydd, Ymddiriedaeth:** dyma sy'n rhaid gweithio ac adeiladu arnynt wrth i ymgysylltiad fynd yn ei flaen.
- **Cynhwysiant:** angen cytundeb eang a dulliau priodol i nodi pwy ddylid ymgysylltu â nhw a sut i wneud hynny.
- **Addysgu a Chyfnwidd â'ch Gilydd:** sicrhau bod pawb sydd ynghlwm yn deall y broses mae nhw'n cymryd rhan ynddi, ac o hynny y syniadau a'r wybodaeth y gallant eu cyfrannu.
- **Sail Gwybodaeth Gyffredin:** adeiladu a rhannu gwybodaeth am yr holl agweddau hynny ble mae cytundeb, a chanolbwyntio ar y rhai ble nad oes cytundeb.
- **Dulliau nid un Dull:** ni all un dull unigol gyrraedd pawb; mae angen rhai gwahanol ar gyfnodau gwahanol gyda phobl a grwpiau gwahanol.
- **Adborth Eglur:** darparu adborth rheolaidd i bawb, yn cynnwys (ac esbonio) y syniadau na ellid eu cynnwys.
- **Adrodd Terfynol:** cynhyrchu a rhannu adroddiad terfynol trylwyr gyda digon o fanylion i alluogi unrhywun i asesu a gyflawnwyd yr egwyddorion.

Cam 3: Gwneud iddo ddigwydd

Hwn yw'r cam allweddol. Mae angen eich cymorth i drafod y ffyrdd posibl y gellid gwneud ymgysylltiad mewn cynllunio y peth arferol ar draws Cymru ar bob agwedd o gynllunio:

Beth ellid - neu ddylid - ei wneud? Gan bwy, gan grwpiau / sectorau unigol neu gydweithio? Sut yn union? Pryd - i gyd gyda'i gilydd neu'n olynol?

Beth sy'n dilyn yw fy meddyliau a'm syniadau i, er mwyn dechrau'r drafodaeth. Efallai eu bod yn amhriodol ac yn ddiangen yng Nghymru, efallai bod amrywiaethau, manylion pwysig ychwanegol o bwy a phryd, a hyd yn oed – a fyddai'n beth da iawn – **eich syniadau eraill, gwell chi'ch hun!**

A'r hyn sy'n fwyaf pwysig i lwyddiant yw y dylid llunio rhaglen gydlynol, sy'n cynnig yn union yr un pwyntiau allweddol, egwyddorion, canllawiau ac ati, ymhob rhan o gynllunio, i bawb; rhywbeth sydd ar goll mewn deunyddiau a gweithgareddau hyd yma.

Canllaw

Ychydig flynyddoedd yn ôl cynhyrchwyd canllaw ar gyfer Lloegr o'r enw '*10 Commitments for Effective Pre-application Engagement*'. (A welwyd hwn yng Nghymru erioed?) Yr hyn oedd yn bwysig am y canllaw yma oedd iddo gael ei gynhyrchu mewn cydweithrediad â'r British Property Federation, yr Home Builders Federation, y Federation of Master Builders (diwydiant), Cymdeithas Llywodraeth Leol, Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, y Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio (llywodraeth a phroffesiynau) a Lleoliad (cymuned). Felly'r prif bwynt yw nad yn unig fod '10 Commitments' yn dda iawn (mae'n ocê, a dim ond yn ymdrin â phrosiectau) ond iddo gael ei gynhyrchu ar y cyd. Hoffwn awgrymu y byddai rhywbeth tebyg i Gymru, wedi ei gynhyrchu ar y cyd, yn gallu cynnig sail sylfaenol y byddai canllawiau mwy manwl sy'n benodol i sector yn gallu dilyn ac i ddelio â chreu cynlluniau nid gwaith cyn-cais yn unig.

Os yw'r uchod yn gosod llinell sylfaen, gellir cynhyrchu canllawiau mwy penodol ar gyfer gwahanol grwpiau a sectorau, ac ar wahanol agweddau o gynllunio. Mae llawer o'r hyn sydd yn y canllawiau hyn yn gyffredin ond byddai'r manylion yn amrywio ar gyfer y grŵp a'r pwnc. Mae canllawiau da ar gael ar hyn o bryd ond maent bron i gyd yn defnyddio gwahanol egwyddorion ac nid ydynt yn eglur ynghylch pwy neu beth maent yn cyfeirio ato. Ni fyddai defnyddio'r hyn sydd yn y canllawiau sy'n bodoli, er mwyn cynhyrchu cyfres gyson o ddogfennau, yn dasg rhy anodd ond eto, y cysondeb (ynghyd â chyd-awduriaeth) fyddai'n ychwanegu'r gwerth go iawn.

Hyfforddiant

Dwi'n meddwl y byddai pawb yn cytuno – dechrau'n gynnar! Ac mae adnoddau ardderchog ar gael o Addysg Cymru i helpu ysgolion cynradd ac uwchradd i ymgysylltu eu myfyrwyr â materion cynllunio.

Y lefel amlwg nesaf yw addysg broffesiynol gychwynnol ar gyfer cynllunwyr, penseiri a syrfewyr ond hyd yma, dim ond ychydig o gynllunwyr dan hyfforddiant sy'n cael mwy na chyflwyniad byr, ynghylch theori ran amlaf, i waith ymgysylltu. Mae gofod allweddol i'w lenwi.

Efallai mae'r brif ffordd ymlaen yw addysg gymunedol (e.e. ar gyfer Cyngorwyr Cymuned a'r cyhoedd) a phroffesiynolwyr ar ganol eu gyrfa, er bod hyn yn ddarniog iawn. Mae Cymorth Cynllunio Cymru, ac eraill efallai, wedi gwneud peth o'r uchod yng Nghymru, ac mae eraill wedi rhedeg cyrsiau ar gyfer proffesiynolwyr. Fodd bynnag, mae'n annhebyg y bydd yr holl hyfforddiant yma wedi defnyddio sylfaen gyffredin hollbwysig o egwyddorion ac ati. Ac mae llawer ohono wedi bod ar gyfer un sector yn unig, tra bod fy mhrofiad i'n awgrymu y byddai hyfforddiant ar gyfer grwpiau cymysg yn enwedig o effeithiol.

Un grŵp allweddol a ddylai gael hyfforddiant yw Arolygwyr Cynllunio. Os nad oes ganddynt y sgiliau angenrheidiol i werthuso unrhyw adroddiad ar ymgysylltiad, ar gynllun neu brosiect (a dydw i ddim yn ymwybodol bod hyn yn digwydd) does dim disgwyl iddyn nhw herio'r hyn sydd wedi cymryd lle. Mae gwella eu sgiliau yn hanfodol os yw pawb sydd ynghlwm yn gwybod ei

bod yn werth ymrwymo i'r ymdrech sydd ynghlwm ag ymgysylltiad, oherwydd ceir ei werthfawrogi yn y cam allweddol pan fydd cynllun yn cael ei fabwysiadu, neu y gellir herio gwrthod prosiect.

Astudiaethau Achos

Tra bod rhai astudiaethau achos wedi eu nodi yn yr arolwg diweddar, mae croeso i awgrymiadau am esiamplau mwy cadarnhaol. Mae cynhyrchu a rhannu esiamplau o astudiaethau achos cadarnhaol yn ffordd effeithiol iawn o godi ymwybyddiaeth ac uchelgeisiau pobl; yn aml maent yn ysgogi ymateb o "pam na allwn ni wneud hynny?" Nid yw'r nifer o esiamplau cadarnhaol yn rheswm i beidio â dechrau casglu astudiaethau achos nawr. Un dull a ddefnyddiwyd eisoes ar faterion eraill yw i ddechrau gydag esiamplau llwyddiannus o leoedd eraill ac yna'n ara deg (neu'n gyflym gobeithio!) cael esiamplau da o Gymru i gymryd eu lle.

Gwasanaeth Cefnogi

Gellir dysgu rhywbeth hollol newydd yn eich swyddfa hyd yn oed, fod yn heriol. Ond gall rhoi cynnig ar sgiliau a dulliau newydd gyda phobl eraill, er enghraifft cymuned leol, fod yn frawychus! Nid yw dod ag eraill i arwain gwaith ymgysylltiad ar eich rhan yn helpu i adeiladu sgiliau, ond mae cefnogaeth a chanllawiau o bell, neu gymorth ymarferol yn y fan a'r lle, yn ffyrdd allweddol i drosglwyddo a datblygu sgiliau a hyder. Mae rhyw fath ar wasanaeth cefnogi a chanllaw, yn bendant ar gyfer blynyddoedd cyntaf menter newydd, yn hanfodol, o ran adeiladu ar hyfforddiant, canllaw ac astudiaethau achos.

Deddfwriaeth

Roedd y briff gwreiddiol ar gyfer astudiaeth Cymorth Cynllunio Cymru wedi ei gwneud yn eglur na ddylai unrhyw gasgliadau fod yn ddibynnol ar newidiadau i ddeddfwriaeth neu ar ddeddfwriaeth newydd. Tra bod hyn yn cael ei ddeall, mae'n rhaid dweud, er bod llawer o'r uchod (canllawiau ac ati) yn bodoli yn Lloegr, ac wedi bod yno ers sbel, yr ymateb arferol - nid yn unig gan ddatblygwyr ond hefyd cynllunwyr ac eraill - yw, os nad oes gofyn iddynt, yn ffurfiol ac yn gyfreithiol, i gynnal ymgysylltiad o unrhyw fath, ac yn benodol ymgysylltiad sy'n cyrraedd safonau uchel, bydd hyn yn eithriad yn hytrach na'r norm. A heb unrhyw ddeddfwriaeth gefnogol, mae cyfyngiadau ynghylch faint gall cynllunwyr bwysu i'w gael, y cymunedau orchymyn ei gael ac i'r Arolygwyr ei orfodi.

Nid oes rhaglen gref, gydlynol, barhaus o ganllawiau, hyfforddiant, astudiaethau achos a chefnogaeth o ansawdd dda erioed wedi ei threialu - er bod Cymru yn fyw tebyg na Lloegr i allu gwneud hyn - ond heb yr 'awdurdod' sy'n dod gydag o leiaf rhyw fath o ddeddfwriaeth neu gefnogaeth ffurfiol ar lefel uchel, bydd ei ddylanwad yn gyfyngedig.

Atodiad: CV BYR AR JEFF BISHOP

Tan 1987 roeddwn yn gyfarwyddwr ar ymgynghoriaeth fach o'r enw **BDOR Limited**. Roedd fy ngwaith perthnasol gyda BDOR, ar ymgysylltiad cymunedol yn gyffredinol yn ogystal â gwaith cyn-cais, yn cynnwys:

- Arwain prosiect ymchwil cenedlaethol Adran yr Amgylchedd 1982-4 a chynhyrchu'r adroddiad dilynol ar "Community Involvement in Planning and Development".
- Dyfeisio Datganiadau Dylunio Pentrefi (Trefi wedi hynny) a arweinir gan gymunedau ar gyfer y Comisiwn Cefn Gwlad (fel yr oedd bryd hynny).
- Cynhyrchu gwybodaeth gefndirol, gyda chydweithwyr oedd wedi hysbysu'r English Planning Act 2004, yn nhermau nifer o fentrau ymrwymadau pro-gymunedol e.e. Datganiadau o Ymrwymiad Cymunedol.
- Dilyn i fyny'r uchod gyda rhaglen hyfforddiant cenedlaethol ar ymgysylltiad cymunedol mewn cynllunio (wedi ei gefnogi'n anffurfiol gan y llywodraeth).
- Ymgymryd ag hyfforddiant ar ymgysylltiad cymunedol ar gyfer aelodau etholedig y Planning Advisory Service a'r Improvement and Development Agency.
- Ymgymryd ag hyfforddiant ar gyfer aelodau Cynghorau Cymuned yng Nghymru gyda Chymorth Cynllunio Cymru.
- Prosiectau adnewyddu mawr ar gyfer Glastonbury, Salisbury, Bridgwater, Caerfaddon, Rhufain a Milan.
- Gwaith cyn-cais ar gyfer (ymysg eraill) y National Science Museum yn Swindon, datblygiad cymysg yn Liphook (Hampshire) a Tate St. Ives (achub proses oedd wedi methu).

Ers 1987 rydw i wedi gweithio'n rhan-amser gyda **Place Studio Limited**. Mae esiamplau perthnasol yn cynnwys:

- Ymgymryd â'r holl waith ymgysylltiad cymunedol a raddiwyd yn dda ar y Thame Neighbourhood Plan - derbyniais wobwr genedlaethol yr RTPI a chanmoliaeth gan sefydliad cymunedol cenedlaethol.
- Ymgymryd â'r gwaith cyn-cais ar y prosiect tai Baltic Wharf yn Totnes – Canmoliaeth Uchel mewn dau gynllun gwobrwyd cenedlaethol.
- Ymgymryd ag ymgysylltiad cyn-cais ar brosiect tai yn Modbury (Dyfnaint) - ar y rhestr fer ar gyfer gwobr ranbarthol.
- Ymgysylltu llawer o gymunedau mewn dethol safleoedd tai fel rhan o ddau Gynllun Lleol – ar y rhestr fer am wobwr genedlaethol.
- Drafftio 'Pre-Application Community Involvement Protocol' ar gyfer Cyngor Dosbarth Stroud sydd bellach yn rhan o Gynllun Lleol mabwysiedig a sawl Cynllun Cymdogaeth.
- Cynhyrchu llawlyfr ymarferol ar ymgysylltiad cymunedol – **The Craft of Collaborative Planning** – a gomisiynwyd gan Routledge yn eu cyfres RTPI a'u dargedu at farchnadoedd rhyngwladol yn ogystal â'r DU.

Rhestr Cyfeiriadau

- Arnstein, S. R. (1969), A ladder of citizen participation, *Journal of the American Institute of Planners*, 35 (4):216-224
- Auditor General for Wales (2019), The Effectiveness of Local Planning Authorities in Wales, Wales Audit Office
- Bishop, J. (2015), *The Craft of Collaborative Planning*, Routledge
- Bogdanovic, V (2005) (Ed), *Joined-up Government*, British Academy Occasional Papers
- Brownhill, S. et al. 2019. Older but no wiser – Skeffington 50 years on. *Town and Country and Planning* March 2019
- Building better, building beautiful commission, 2020, *Living with beauty. Promoting health, well-being and sustainable growth*, available at https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/861832/Living_with_beauty_BBBBC_report.pdf (last accessed 29.06.2021)
- Carey, G., Crammond, B. (2015), What works in Joined-Up government? An Evidence Synthesis, *International Journal of Public Administration*, 18 (13-14):1:10
- Cole, A., Stafford, I. (2014), *Devolution and Governance: Wales between Capacity and Constrain*, Palgrave
- Committee on Administrative Tribunals and Enquiries (1957), *Report of the Committee on Administrative Tribunals and Enquiries (Franks Report)*, HMSO
- Committee on Public Participation in Planning (1969), *People and Planning: Report of the Committee on Public Participation in Planning (Skeffington Report)*, HMSO
- Co-Production Network for Wales, 2019, *Measuring What Matters. Evaluation that asks the right questions of the right people in the right way*, available at: <https://info.copronet.wales/wp-content/uploads/2019/08/MWM-Toolkit-Issue-2.1-JULY19-ENG-For-Web.pdf> (last accessed 29.06.2021)
- Evans, G (2020), *Devolution in Wales: From Assembly To Parliament*, UK Constitutional Law Association Blog, available at: <https://ukconstitutionallaw.org/2020/04/15/gareth-evans-devolution-in-wales-from-assembly-to-parliament/> (last accessed 29.06.2021)
- Good Things Foundation, 2020 *Digital Nation 2020 Report*, available at <https://www.goodthingsfoundation.org/the-digital-divide/> (last accessed 29.06.2021)
- Grayling engage & RTPI, 2020, *The future of engagement*, available at: <https://www.rtpi.org.uk/media/7258/the-future-of-engagement.pdf> (last accessed 29.06.2021)
- Grosvenor, Britain and Ireland (2019), *Rebuilding Trust*, available at <https://www.grosvenor.com/our-businesses/grosvenor-britain-ireland/rebuilding-trust> (last accessed 29.06.2021)
- Jones, R., Goodwin, M., Jones, M., Pett, K. (2005), 'Filling in' the State: Economic Governance and the Evolution of Devolution in Wales, *Environment and Planning C: Politics and Space*, 23(3):337-360
- Local Government Association, 2014, *10 commitments for effective pre-application engagement*, available at <https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/10-commitments-effective--927.pdf> (last accessed 29.06.2021)

- Mahoney, J (2017), Shift Happens: The Historical institutionalism of Kathleen Thelen, *Political Science and Politics*, 50(4):1115-1119
- Mahoney, J., Thelen, K. (2010), *Explaining Institutional Change: Ambiguity, Agency and Power*, Cambridge University Press
- Mazza, L (2002), Technical Knowledge and planning Actions, *Planning theory*, 1(1):11-26
- McAuslan, P (1980), *The Ideologies of Planning Law*, Pergamon
- Netherwood, A. and Flynn, A. 2021. A shift in public policy for future generations in Wales: future generations and well-being planning. In: Linehan, J. and Lawrence, P. eds. *Giving Future Generations a Voice : Normative Framework, Instructions and Practice..* Cheltenham: Edward Elgar
- Newman, P., Thornley, A. (1996), *Urban Planning in Europe* Routledge
- Offe, C., Keane, J. (1984), *Contradictions of the Welfare State*, MIT Press
- Parker et al, 2020, *Impacts of Neighbourhood Planning in England*, Final Report to the Ministry of Housing, Communities and Local Government, available at https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/929422/Impacts_of_Neighbourhood_Planning_in_England.pdf (last accessed 29.06.2021)
- Parsons, A, Rumbul, R (2021), Participation vs Representation Councillor attitudes towards citizen engagement, *My Society*, available at <https://research.mysociety.org/publications/participation-representation> (last accessed 29.06.2021)
- Punter, J. (2004), *The Vancouver Achievement*, UBC Press
- RTPI, 2020a, Invest and prosper. A business case for investing in planning, available at: https://www.rtpi.org.uk/media/6721/investandprosper_oct2020.pdf (last accessed 29.06.2021)
- RTPI, 2020b, Measuring what matters. Planning Outcomes Research Report, available at: <https://www.rtpi.org.uk/media/7323/rtpi-measuring-what-matters-planning-outcomes-research-report-november-2020.pdf> (last accessed 29.06.2021)
- Royles, E. (2006) Civil society and the new democracy in post-devolution Wales: A case study of the EU structural funds, *Regional and Federal Studies*, 16 (2):137-156
- Royles, E (2007), *Revitalising Democracy? Devolution and Civil Society in Wales*, University of Wales Press
- Sartorio, F. 2019. 'People and planning' 50 years on: the never-ending struggle for planning to engage with people. *Planning Theory and Practice* 29(5), pp. 737-740.
- Sartorio, F. S., Harris, N. and Thomas, H. 2018. Interpreting planners' talk about change: An exploratory study.. *Planning Theory* 17(4), pp. 605-627.
- Scottish Government (2017), *Scottish Land Rights and Responsibilities Statement*, available at <https://www.gov.scot/publications/scottish-land-rights-responsibilities-statement/> (last accessed 29.06.2021)
- Scottish Government (Nd), *Planning and Environmental Appeals – Examining Development Plans*, available at <https://www.gov.scot/policies/planning-environmental-appeals/examining-development-plans/#:~:text=Planning%20authorities%20must%20create%20development,make%20representations%20about%20the%20plan.&text=Any%20changes%20to%20the%20plan,of%20the%20Development%20Planning%20circular.> (last accessed 29.06.2021)

- TCPA, 2018, Planning 2020 Raynsford Review of Planning in England, available at <https://www.tcpa.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=30864427-d8dc-4b0b-88ed-c6e0f08c0edd> (last accessed 29.06.2021)
- Torrance, D (2018), 'A process, not an event': Devolution in Wales 1998-2020, House of Commons Library CBP 08318, available at <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-8318/> (last accessed 29.06.2021)
- Trench, A (2006), The government of Wales Act 2006: the next steps in devolution for Wales, Public Law, 22.12.2006: 687
- UK GBC (2020), Delivering Social Value: Measurements, available at <https://www.ukgbc.org/wp-content/uploads/2020/04/Delivering-Social-Value-Measurement.pdf> (last accessed 29.06.2021)
- Wates, N (2014) (Ed), The Community Planning Handbook, Taylor and Francis
- White, J. T. and Punter, J. (2017) Toronto's Vancouverism: developer adaptation, planning responses, and the challenge of design quality. Town Planning Review, 88(2), pp. 173-200.
- White, J. T. (2016) Pursuing design excellence: Urban design governance on Toronto's waterfront. Progress in Planning, 110, pp. 1-41.
- Wilson, S., Davison, N., Clarke, M., Casebourne, J. (2015), Joining Up Public Services around Local, Citizen Needs, Institute for Government, available at <https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/4564%20IFG%20-%20Joining%20up%20around%20local%20v11c.pdf> (last accessed 29.06.2021)
- Wright, N. and Tolson, S., 2020, The value of early engagement study in planning. Evidence of the benefits of early engagement in the development process, available at https://www.landcommission.gov.scot/downloads/5ee1fa960b190_20200611%20SLC%20REPORT%20Value%20of%20Early%20Engagement%20in%20Planning.pdf (last accessed 29.06.2021)

Ffynonellau terminoleg y portreadau bychain:

Deddfwriaeth: Deddf Cynllunio Cymru 2015, Deddf Cynllunio a Digolledu 2014, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Polisi Cenedlaethol: Draft NDF, PPW, TANS.

Llawlyfrau Llywodraeth Cymru: Llawlyfr Rheoli Datblygu, Lawlyfr Cynlluniau Datblygu. Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLL): 4 CDLL ar draws y Gogledd, De, Gorllewin a Pharc Cenedlaethol.

Arfarniadau Cynaliadwyedd CDLL: 3 Arfarniad yn y Gogledd, De a Pharc Cenedlaethol.

Adroddiadau Arolygydd ar CDLL: 4 CDLL ar draws y Gogledd, De, Gorllewin a Pharc Cenedlaethol.

Ceisiadau Cynllunio: 6 cais cynllunio ar draws gwahanol ACLL. (Dylid nodi bod y rhan fwyaf o gyfeiriadau at gymuned yn berthynol i ymateb Cyngor Cymuned neu gyfleusterau cymunedol). Apeliadau Cynllunio: 10 s.78 penderfyniad apêl ar draws Cymru.

Canllaw PINS: 2 ddogfen; Cynllunio, Apeliadau Adeilad Rhestredig ac Ardal Gadwraeth a Chanllaw Gweithdrefnau Archwiliadau Cynllun Datblygu Lleol yr Arolygiaeth Gynllunio

Ôl-Nodiadau

- ¹ McAuslan, P (1980), *The Ideologies of Planning Law*, Pergamon
- ² Brownhill, S. et al. 2019. Older but no wiser – Skeffington 50 years on. *Town and Country and Planning March* 2019; Sartorio, F. 2019. 'People and planning' 50 years on: the never-ending struggle for planning to engage with people. *Planning Theory and Practice* 29(5), pp. 737-740.
- ³ Bishop (2015), p.13, *The Craft of Collaborative Planning*, Routledge
- ⁴ McAuslan (1980:6), *The Ideologies of Planning Law*, Pergamon
- ⁵ Wright and Tolson (2020), *The value of early engagement study in planning*.
- ⁶ Wright and Tolson (2020: 30-31), *The value of early engagement study in planning*.
- ⁷ Sartorio, F. S., Harris, N. and Thomas, H. 2018. Interpreting planners' talk about change: An exploratory study.. *Planning Theory* 17(4), pp. 605-627
- ⁸ Parker et al, (2020: 5), *Impacts of Neighbourhood Planning in England*
- ⁹ Grosvenor Britain and Ireland (2019), multiple
- ¹⁰ Building better, building beautiful commission (2020), Wright and Tolson (2020), RTPI (2020; 2020a; 2020b).
- ¹¹ Co-Production Network for Wales, (2019:2).
- ¹² UK GBC (2020), *Delivering Social Value: Measurements*
- ¹³ TCPA (2018:55) *Planning 2020 Raynsford Review of Planning in England*
- ¹⁴ Building better, building beautiful commission, 2020, *Living with beauty. Promoting health, well-being and sustainable growth*
- ¹⁵ Skeffington (1969), *People and Planning*; BBBBC (2020:3); TCPA (2018:13).
- ¹⁶ Wright and Tolson (2020: 30-31), *The value of early engagement study in planning*
- ¹⁷ Bristol City Council (2015), *Involvement in planning applications and the local plan – statement of community involvement*: <https://www.bristol.gov.uk/documents/20182/34540/Statement+of+community+involvement>
- ¹⁸ TCPA (2020:57), *Planning 2020 Raynsford Review of Planning in England*
- ¹⁹ Parker et al., (2020:4), *Impacts of Neighbourhood Planning in England*
- ²⁰ Parker et al., (2020:4), *Impacts of Neighbourhood Planning in England*
- ²¹ *Planning (Scotland) Act 2019, Land Reform (Scotland) Act 2016, Community Empowerment (Scotland) Act 2015.*
- ²² Wright and Tolson (2020:4), *The value of early engagement study in planning*
- ²³ Scottish Government (2010), *Planning Advice Note 3/2010: Community engagement* <https://www.gov.scot/publications/planning-advice-note-3-2010-community-engagement/>
- ²⁴ Scottish Government (Nd), *Planning and Environmental Appeals – Examining Development Plans*, available at <https://www.gov.scot/policies/planning-environmental-appeals/examining-development-plans/#:~:text=Planning%20authorities%20must%20create%20development,make%20representations%20about%20the%20plan.&text=Any%20changes%20to%20the%20plan,of%20the%20Development%20Planning%20circula>
- ²⁵ Bogdanovic, V (2005), Carey, G., Crammond, B. (2015), Wilson, S., Davison, N., Clarke, M., Casebourne, J. (2015)
- ²⁶ Willmott, R. *The Planner Magazine* (2017), *Steady on: Planning in Northern Ireland two years after major reform* <https://www.theplanner.co.uk/opinion/steady-on-planning-in-northern-ireland-two-years-after-major-reform>
- ²⁷ Department of Infrastructure (2020), *Planning Engagement Partnership*, <https://www.infrastructure-ni.gov.uk/articles/planning-engagement-partnership-pep>
- ²⁸ *Community Planning Methods [gwefan]*: http://www.communityplanning.net/methods/methods_a-z.php (last accessed 1st November 2020). http://www.communityplanning.net/methods/methods_a-z.php
- ²⁹ *Digital Participatory Platforms for Co-Production in Urban Development: A Systematic Review* by Enzo Falco & Reinhout Kleinhans
- ³⁰ Grayling engage & RTPI, 2020, *The future of engagement*, available at: <https://www.rtpi.org.uk/media/7258/the-future-of-engagement.pdf> (cyrchu 29.06.2021)
- ³¹ Kaner, S (2014), *Facilitator's Guide to Participatory Decision-Making*
- ³² Friend and Hickling (1997), *Planning Under Pressure: The Strategic Choice Approach*
- ³³ *Planning Aid England ac eraill* (2010)
- ³⁴ ENTEC (2010), *Effective Involvement and the Local Development Framework*

- ³⁵ Wates, N (2014) (Ed), The Community Planning Handbook, Taylor and Francis
- ³⁶ Bishop (2015), p.13, The Craft of Collaborative Planning, Routledge
- ³⁷ Local Government Association and British Property Federation (ND.), 10 commitments for effective pre-application engagement <https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/10-commitments-effective--927.pdf>
- ³⁸ Schedule 7A of the Government of Wales Act (2006)
- ³⁹ Mazza, L (2002), Technical Knowledge and planning Actions, Planning theory, 1(1):11-26
- ⁴⁰ Cole, A., Stafford, I. (2014), Evans, G (2020), Jones, R., Goodwin, M., Jones, M., Pett, K. (2005), Royles, E. (2006 & 2007) Torrance, D (2018), Trench, A (2006)
- ⁴¹ Mahoney, J., Thelen, K. (2010), Explaining Institutional Change: Ambiguity, Agency and Power, Cambridge University Press
- ⁴² Analysis completed using [EU framework] (EU, 1997)
- ⁴³ Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016
- ⁴⁴ Appendix 1 of Chief Planning Officers letter dated 1st February 2016
- ⁴⁵ McAuslan (1980:6), The Ideologies of Planning Law, Pergamon
- ⁴⁶ Lucas (1976) fel yn McAuslan (1980:5), The Ideologies of Planning Law, Pergamon
- ⁴⁷ Auditor General for Wales (2019), The Effectiveness of Local Planning Authorities in Wales, Wales Audit Office
- ⁴⁸ Offe, C., Keane, J. (1984), Contradictions of the Welfare State, MIT Press
- ⁴⁹ Punter, J. (2004), The Vancouver Achievement, UBC
- ⁵⁰ Netherwood, A. and Flynn, A. (2020:12), A shift in public policy for future generations in Wales: future generations and well-being planning. In: Linehan, J. and Lawrence, P. eds. Giving Future Generations a Voice : Normative Framework, Instructions and Practice.. Cheltenham: Edward Elgar
- ⁵¹ Placemaking Wales Charter by Welsh Government & DCFW [cyrchu Chwefror 14 2021], https://drive.google.com/file/d/1Rk7xWJLSKRerGEBSkwGB3mIRHKOT_kuM/view
- ⁵² Creu Lleodedd....lle mae'r Gymraeg yn ffynnu gan Owain Wyn [cyrchu Chwefror 14 2021], <https://www.rtpi.org.uk/find-your-rtpi/rtpi-nations/rtpi-cymru/policy-and-research/>